Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD IAU, 28 IONAWR 2021**

**AT: HOLL AELODAU'R PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **RHITH-GYFARFOD** O'R **PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS** A GYNHELIR AM **10.30 YB, DYDD GWENER, 5ED CHWEFROR, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA



| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Jessica Laimann** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224178** |
| **E-bost:** | **JMLaimann@sirgar.gov.uk** |

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
# 14 AELOD

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | KEN HOWELL | (Plaid Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | JOHN PROSSER | (Llafur) |
| 3. | CYNGHORYDD | JIM JONES | (Annibynnol) |

**CYNGOR SIR CEREDIGION - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | LLOYD EDWARDS | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | KEITH EVANS | (Annibynnol) |
| 3. | CYNGHORYDD | ALUN LLOYD JONES | (Plaid Cymru) |

**CYNGOR SIR PENFRO - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | MICHAEL JAMES | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | STEPHEN JOSEPH | (Annibynnol heb gysylltiad) |
| 3. | CYNGHORYDD | ROBERT SUMMONS | (Ceidwadwyr) |

**CYNGOR SIR POWYS - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | DAVID O. EVANS | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | LES GEORGE | (Plaid Geidwadol Cymru) |
| 3. | CYNGHORYDD | WILLIAM POWELL | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |

**AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG - 2 AELOD**

1. YR ATHRO IAN ROFFE
2. MRS HELEN MARGARET THOMAS

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL** | |
| 2. | **DATGANIADAU O FUDDIANT** | |
| 3. | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 TACHWEDD 2020** | 5 - 10 |
| 4. | **MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)** | |
| 5. | **CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R PANEL I'R COMISIYNYDD** | |


**5 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS**

“Pa gamau y mae'r Comisiynydd wedi'u cymryd yn sgil y galw am blismona ychwanegol yn y gwersyll ceiswyr lloches ym Mhenalun, Sir Benfro, gan ddeall a gwerthfawrogi'n llwyr i hyn ddigwydd oherwydd amgylchiadau a oedd y tu hwnt i'ch rheolaeth chi neu'r Heddlu, ac a ydych, drwy eich sgyrsiau â'r Prif Gwnstabl, yn gallu rhoi sicrwydd nad yw'r plismona yng ngweddill ardal yr Heddlu wedi'i leihau o ganlyniad?”

**5 .2 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS**

“Adroddwyd yn ddiweddar yn y cyfryngau eich bod wedi sicrhau bod tua £200,000 ar gael i grwpiau Cymunedol yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Gyda'r pwysau ar gyllid cyhoeddus ar hyn o bryd, a ydych yn fodlon bod hyn yn ffordd dda o wario arian cyhoeddus?”


| | | |
|---|---|---|
| 6. | **PRAESEPT YR HEDDLU** | 11 - 122 |
| 7. | **COST PLISMONA GWERSYLL CEISWYR LLOCHES YM MHENALUN** | 123 - 130 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Dyfed Powys Police and Crime Panel**

**Wednesday, 4 November 2020**

**PRESENT:** Councillor A. Lloyd-Jones (Chair)

**Carmarthenshire County Council Member:**
Councillor K. Howell;

**Ceredigion County Council Members:**
Councillors L. Edwards and K. Evans;

**Pembrokeshire County Council Members:**
Councillors M. James and R. Summons;

**Powys County Council Members:**
Councillors D. Evans, L. George and W. Powell;

**Independent Member:**
Prof. I. Roffe;

**In attendance from the Office of the Police and Crime Commissioner:**
Mr. D. Llywelyn - Police and Crime Commissioner;
Mrs. C. Morgans - Chief of Staff;
Ms. B. Peatling - Chief Finance Officer;

**The following Officers were in attendance:**
R. Edgecombe, Legal Services Manager
M. Evans Thomas, Principal Democratic Services Officer
J. Laimann, Assistant Democratic Services Officer
S. Rees, Principal Translator
J. Corner, Technical Officer

**Virtual Meeting: 2.00 pm - 4.45 pm**

## 1. APOLOGIES FOR ABSENCE AND PERSONAL MATTERS

Apologies for absence were received from Councillor John Prosser (Carmarthenshire County Council) and Councillor Stephen Joseph (Pembrokeshire County Council).

The Panel was advised that Councillor Jim Jones' (Carmarthenshire County Council) nomination as a Panel Member was awaiting approval by the Home Office. The Panel wished Councillor Jones a speedy recovery after recent hospital treatment and was looking forward to welcoming him to a future Panel meeting.

## 2. DECLARATIONS OF INTEREST

There were no declarations of personal interest made at the meeting.

## 3. TO SIGN AS A CORRECT RECORD THE MINUTES OF THE MEETING HELD ON THE 24TH JULY 2020

**RESOLVED that the minutes of the Dyfed-Powys Police and Crime Panel meeting held on the 24th July 2020 be signed as a correct record.**

## 4. MATTERS ARISING FROM THE MINUTES (IF ANY)

**Minute 10. Draft Statement of Accounts 2019/20 Narrative Report**

The Panel was advised that the Commissioner's final Annual Statement of Accounts was now available on the website of the Office of the Police and Crime Commissioner.

## 5. QUESTION ON NOTICE TO THE PANEL FROM S.J., POWYS

"Does Mr Llywelyn have any plans to invest money and resources in our smaller Police Stations across the Powys area? For example, Hay, Builth Wells, Crickhowell, Prestigne etc? With the uplift in Officer numbers, surely there is scope to put some more bobbies back into our small stations?"

The Panel was advised of a correction to the published meeting agenda. The question by S.J. was addressed to the Commissioner and not, as stated in the agenda, to the Panel.

**Response by the Commissioner:**
The Commissioner advised that decisions around the operational deployment of police officers were under the direction of the Chief Constable. In conversations with the Chief Constable, it has been agreed that officers being recruited over the next few years should be deployed within all communities where possible, however this had to be balanced with the need to provide additional resources to specialist areas such as Cybercrime and CID. With regard to investments into police stations, the Commissioner advised that the Estates Strategy was currently under review and there had been a steer not to reduce the footprint of police stations across the force area. Existing buildings were subject to a programme of ongoing surveys and improvements.

## 6. QUESTIONS ON NOTICE FROM PANEL MEMBERS TO THE COMMISSIONER

### 6.1. QUESTION FROM COUNCILLOR ALUN LLOYD JONES

"Commissioner, do you agree that the safeguarding of vulnerable care leavers is an important issue in which the police have a role. If you do, how do you ensure that Dyfed-Powys Police performs that role appropriately and what has your scrutiny of the force told you about the strengths and weaknesses of its approach. What changes (if any) would you like to see in the approach the force takes?"

**Response from the Commissioner:**
The Commissioner advised that the police had a significant role to play in relation to the safeguarding of vulnerable care leavers. This was being delivered through a partnership approach and Dyfed Powys Police was involved at a strategic level in the safeguarding board for children and adults.
With regard to scrutiny, the Commissioner advised that performance was being assessed through internal meetings, attendance at safeguarding board meetings and deep dive scrutiny exercises. Weaknesses identified around the identification of various vulnerabilities and the timeliness of the assessment process were being addressed through the establishment and enhancement of the Command and

Control Centre's vulnerability desk and daily multiagency management meetings to deliver and end-to-end approach.

### 6.2. QUESTION FROM PROFESSOR IAN ROFFE

"The impact of Covid has been multi-faceted and could change aspects of operational policing going forward. Police officers and PCOS already carry necessary equipment to protect themselves and undertake their work. Is the Commissioner aware of any studies being undertaken relating to the future equipment requirements resulting from the pandemic, such as in the fields of protective helmets? What is the Commissioner's view of the financial and other implications? Also, in transport there are potential issues for example, in the need for physical separation between officers and also with arrested citizens? There is also a growth in EV vehicles for transport. What processes are in place for future scoping of the potential support needs for policing in Dyfed Powys?"

**Response from the Commissioner:**
The Commissioner advised that he was not aware of any studies being undertaken in relation to future equipment requirements. Dyfed Powys Police was adhering to national guidance and the work of the College of Policing and PPE was readily available to officers that were operating in close proximity to members of the public or on sites that could potentially expose them to the virus. There was an increased emphasis on employee well-being during the coronavirus crisis. Staff sickness levels as a result of Covid-19 were being monitored and did not currently give cause for concern.

With regard to financial implications, a claim over £347k for PPE costs had been submitted to the Home Office. A letter had been received from the Policing Minister highlighting additional grants for increased Covid enforcement activity, with an allocation of approximately £200k for Dyfed Powys Police. In addition, an Income Loss Recovery Scheme had been made available to allow police forces to recover 75% of lost income after an initial 5% deduction which had to be absorbed locally, equating to a government reimbursement of 71.25%. Eligible claims were subject to set principles and criteria and a first claim over £149k had been submitted. There was a separate claim over £1m in preparation in relation to the GoSafe Partnership, which Dyfed Powys Police acted as bankers for. Net financial losses would be factored into the financial reports, which would be considered at the PAB meetings.

In relation to EV vehicles, the Commissioner advised that he had provided funding for eight vehicles to be used in Neighbourhood Policing Teams. The fleet management strategy was considering ways to expand this, including the provision of charging infrastructure. Over the next five to ten years a blended approach was being developed as EV vehicles were not suitable for all areas of operational policing.

## 7. ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR

Councillor William Powell, the Panel Lead on ASB, provided a report on the Police and Crime Commissioner's work to address anti-social behaviour. Councillor Powell advised that the report had been deferred to the 2020-21 municipal year due to the coronavirus pandemic. The report acknowledged the good work that had been done by the Commissioner with regard to ASB and made a number of

recommendations. Councillor Powell advised that the report did not cover ASB in relation to the coronavirus pandemic as the evidence-gathering for the report had mainly taken place before the pandemic.

Councillor Powell thanked Robert Edgecombe and the Office of the Police and Crime Commissioner for their support in preparation of the report. He also acknowledged liaison with Helen Thomas to avoid overlap with her team's work on CCTV.

The Panel thanked Councillor Powell for his comprehensive and insightful report.

In response to a query on CCTV provision in Neyland, the Commissioner advised that ASB crime incident number in the area did not currently justify CCTV investment.

**RESOLVED**

**9.1. To note the report;**

**9.2. To recommend that the Police and Commissioner that adopt the recommendations contained in the report.**

## 8. UPDATE ON THE RESPONSE TO THE CORONAVIRUS PANDEMIC

The Panel considered a report detailing the Commissioner's response to issues raised as a consequence of the Covid-19 pandemic.

The Commissioner advised that the report provided an update around the securing of resources, the making available earmarked reserves and the work of the estates team to ensure work environments were safe and provided for continuity of policing activity. Accountability and engagement work was continuing through PAB meetings, quality assurance panel meetings, virtual engagement days, Facebook live sessions and virtual reviews of custody environments.

In response to a query on additional funding to support victims of sexual and domestic abuse, the Commissioner advised that the funding would be ringfenced.

**RESOLVED that the report be noted.**

## 9. PROGRESS AGAINST THE POLICE AND CRIME PLAN

The Panel considered a report on the Commissioner's progress against the Police and Crime Plan.

**RESOLVED that the report be noted.**

## 10. POLICING PROTOCOL - PERFORMANCE REPORT

The Panel considered a performance report in relation to the Policing Protocol.

In response to a query on late submissions, the Panel was advised that HMIC did not issue automatic notifications on the publication of reports and deadlines for required responses. Processes were now in place to monitor the publications of such reports and ensure the timely submission of responses.

In response to a query on homeworking arrangements, the Panel was advised that no specific funds would be made available to homeworking staff but staff who were required to work from home as a result of COVID-19 were eligible to apply for tax relief.

**RESOLVED that the report be noted.**

## 11. UPDATE ON DEEP DIVE REPORTS

The Panel considered an update on the deep dive reports into Initial Public Contact and Victim Withdrawal. The Commissioner advised that the reports provided an update on recommendations that had been agreed previously in response to the deep dive scrutiny reports.

In response to a query on expected progress, the Panel was advised that the single online home initiative would go live very shortly and a decreased policing demand during lockdown had enabled officers to reduce the backlog of ongoing investigations.

In response to a query on Crime Data Integrity, the Panel was advised that low compliance rates were an area of concern that had regularly been raised with chief officers. Specific work such as the end-to-end project was undertaken to ensure better compliance, however progress to date had been slower than expected due to the Covid-19 pandemic.

**RESOLVED that the update report be noted.**

## 12. DECISIONS TAKEN BY THE COMMISSIONER

The Panel considered a report on decisions taken by the Commissioner during the period 10th July to 19th October 2020.

A query was raised regarding the monitoring of grant investments into locations across the force area. The Commissioner advised that he maintained a record of grant allocations across the force area and this was taken into consideration in future investment decisions, together with considerations of need and multiple deprivation.

In response to a query on the Brecon estate, the Commissioner advised that no definite timeline was available and various options were currently under consideration which aimed to retain the custody provision in Brecon.

In response to a query, the Panel was advised that investments into YMCA Swansea and Swansea City Football Club Trust had supported youth activities in the Seaside area of Llanelli.

**RESOLVED that the report be noted.**

____________________________ _____________________

**CHAIR** **DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**5ED CHWEFROR 2021**

| **PRAESEPT YR HEDDLU** |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br><br>Adolygu'r praesept y mae'r Comisiynydd yn cynnig ei gyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac wedyn cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ynghylch y praesept arfaethedig hwnnw. |
| **Y Rhesymau:**<br><br>Mae Atodlen 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon. |

| Awdur yr Adroddiad: | Swyddi: | Cyfeiriadau e-bost: |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Keith Evans | Aelod Arweiniol y Panel | Keith.evans@ceredigion.gov.uk |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 5TH FEBRUARY 2021

| POLICE PRECEPT | |
|---|---|
| Schedule 5 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011 provides that the Police and Crime Commissioner cannot issue a precept under section 40 of the Local Government Finance Act 1992 for a financial year until the Panel has reviewed the proposed precept and reported to the Commissioner upon the proposal.<br><br>Any such report to the Commissioner may include recommendations, including a recommendation as to the precept which the Panel believes should be issued.<br><br>The Panel may, having reviewed the proposed precept, choose to veto it. Such a course of action must be supported by two-thirds of the total membership of the Panel. If the Panel does choose to veto the proposed precept the report to the Commissioner must contain a statement that the Panel has vetoed the precept. Where the panel does veto the precept, the Commissioner must not issue the proposed precept and must, having regard to the report issued by the Panel, respond to that report and publish that response by the 15th February 2020.<br><br>Regulations also require the Commissioner to indicate in that response the precept he proposes to issue. The Panel then must, within the timescale prescribed by the 2011 Act, review the revised precept and report to the Commissioner upon it. That report may indicate whether the Panel accepts or rejects the revised precept (and may make recommendations upon it). The Commissioner must consider the further report from the Panel and respond to it. That response must also be published. However the rejection by the Panel of a revised precept does not amount to a veto. Where the Panel rejects the revised precept the Commissioner may still proceed to issue the revised precept despite that rejection.<br><br>Where the Panel does not veto the precept, the Commissioner must respond to the report to the Panel and publish that response, but may proceed to issue the precept (or a different precept where to do so would be in accordance with recommendations contained within the report issued by the Panel)<br><br>The Panel has identified this matter as one of its priorities for and has nominated Cllr. Keith Evans to lead on this issue on its behalf. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **YES** |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# IMPLICATIONS

| **I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**<br><br>**Signed:** *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| **Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**<br>**List of Background Papers used in the preparation of this report:**<br><br>**THESE ARE DETAILED BELOW** | | |
|---|---|---|
| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
| **Host Authority File** | **PACP013** | **County Hall Carmarthen** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

**Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021/22 – 2025/26**

**Gan gynnwys**

a. **Cynnig Praesept**
b. **Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn**
c. **Strategaeth Gyfalaf**

**Ionawr 2021**

## Cynnwys


1. Crynodeb a Chynnig Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer y Praesept
2. Cyd-destun Sefydliadol
3. Perfformiad Gweithredol
4. Ymateb a Goblygiadau Pandemig Covid-19
5. Arolygiad PEEL AHGTAEM a Datganiad Rheoli'r Heddlu
6. Cyd-destun Ariannol – Sylwadau Annibynnol
7. Ymagwedd at Bennu'r Praesept a'r CATC ar gyfer 2021/22
8. Setliad Cyllid yr Heddlu ar gyfer 2021/22
9. Refferendwm/Capio'r Dreth Gyngor
10. Heddlu Dyfed-Powys - Cyd-destun Ariannol a'r Praesept Heddlu
11. Sylfaen y Dreth Gyngor
12. Materion yn ymwneud â Phensiynau Swyddogion a Staff yr Heddlu
13. Blaenoriaethau a Gofyniad y Gyllideb ar gyfer 2021/22
14. Cynllunio'r Gweithlu ac Ymgyrch Uplift (-20,000 o swyddogion)
15. Cyllideb Arfaethedig 2021/22
16. Cyllid yn y Dyfodol
17. Cyllideb Tymor Canolig 2021/22 – 2025/26
18. Adran 25 a Risg Gyllidebol
19. Cronfeydd Wrth Gefn
20. Cyfalaf
21. Ymgynghoriad Cyhoeddus a Barn y Cyhoedd
22. Casgliad


### Atodiadau


A. Cynllun Cyflenwi
B. Gweledigaeth 2025
C. Cyllideb 2021/22 – 2025/26
D. Adran 25 Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol
E. Asesiad Risg o Gyllidebau Perthnasol
F. Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn
G. Cronfeydd Wrth Gefn 2020/21 – 2025/26
H. Strategaeth Gyfalaf
I. Rhaglen Gyfalaf 2020/21 – 2029/30

## 1 Crynodeb a Chynnig Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer y Praesept

1.1 Un o fy nghyfrifoldebau allweddol fel eich Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Comisiynydd) yw pennu'r praesept bob blwyddyn. Y praesept hwn yw faint o dreth a godir drwy drethdalwyr y cyngor lleol er mwyn cefnogi gwasanaethau plismona. Wrth wneud hynny, rwyf yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys gofynion adnoddau'r Prif Gwnstabl at y dyfodol, lefel y cronfeydd wrth gefn, adborth trigolion ardal Dyfed-Powys, a'r cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol.

1.2 Mae’r trefniadau statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn nodi:

- Bod yn rhaid i mi hysbysu Panel yr Heddlu a Throseddu o'r praesept arfaethedig erbyn 1 Chwefror.
- Rhaid i’r Panel adolygu'r praesept arfaethedig erbyn 8 Chwefror
- Os yw'r Panel yn rhoi feto ar y praesept arfaethedig rhaid i mi hysbysu'r Panel o'm praesept diwygiedig erbyn 15 Chwefror
- Rhaid i’r Panel adolygu'r praesept diwygiedig erbyn 22 Chwefror
- Rhaid i mi osod praesept erbyn 1 Mawrth.

1.3 O fewn trefniadau llywodraethu corfforaethol, mae trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng y Prif Gwnstabl a minnau am sefyllfa ariannol bresennol yr Heddlu a’i sefyllfa yn y dyfodol. Trafodir cynlluniau ar gyfer lefelau adnoddau, y galw am wasanaethau’r heddlu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ynghyd â gofynion o ran buddsoddi yn y dyfodol yn fanwl. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau rwyf yn eu hystyried yn ofalus wrth bennu fy lefel arfaethedig ar gyfer Praesept yr Heddlu, yn ogystal â chyllideb yr Heddlu ar gyfer 2021/22.

1.4 Â ninnau wedi cydnabod difrifoldeb y sefyllfa ariannol, yn 2018, sefydlodd y Prif Gwnstabl Grŵp Cyllid Aur. Cadeiriwyd y Grŵp Aur hwn, a barhaodd tan yn agos at ddiwedd 2019, gan y Prif Gwnstabl ac roedd pob uwch reolwr yn bresennol er mwyn sicrhau bod sicrhau bod ymagwedd gydlynol a chlir iawn tuag at reolaeth ariannol a dealltwriaeth o faterion ariannol ar draws y sefydliad. Mae gwaith y grŵp hwn bellach wedi'i gynnwys yn llawn drwy'r strwythur llywodraethu ffurfiol ac yn benodol o dan y Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a’r Dyfodol.

1.5 Mae'r Grŵp Cyllid a Chaffael Strategol a Grŵp y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi parhau i weithio o ddifrif dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda llawer o hyn yn cael ei gyfuno i lywio'r Gyllideb hon, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'm cynnig praesept.

1.6 Mae’r Heddlu’n deall graddau'r heriau ariannol yn dda ac mae fy Mhrif Swyddog Cyllid (PSC) yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid (CC) a'i dîm i barhau i adolygu a datblygu trefniadau rheolaeth ariannol yn feirniadol. Mae hefyd yn dda cael adrodd bod fy PSC a'r CC yn arwain ar is-grwpiau cenedlaethol, o dan Raglen Rhagoriaeth Ariannol mewn Plismona y Sefydliad Siartredig Cyllid a

Chyfrifyddiaeth (CIPFA), sy'n ystyried rheolaeth ariannol a data a dadansoddiadau ariannol.

1.7 Mae'r Prif Gwnstabl yn parhau i adrodd ar berfformiad ariannol yn fisol drwy'r Bwrdd Plismona ac yn chwarterol drwy Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a darperir diweddariadau hefyd o ganlyniad i gamau gweithredu sy'n deillio o'r Grŵp Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol. Mae fy PSC yn cyfarfod unwaith bob pythefnos gyda'r CC ac yn gweithio'n agos gyda'r tîm Cyllid Corfforaethol ar feysydd gweithredu penodol.

1.8 Atgyfnerthodd y Prif Gwnstabl ei dîm Cyllid ar ddiwedd 2018 ac mae'r trefniadau hyn wedi parhau i gael eu hymgorffori, gan hwyluso gwelliannau sylweddol mewn trefniadau cymorth, rheolaeth ariannol, ac adrodd. Darparodd Cyllid Corfforaethol hyfforddiant rheolaeth ariannol i uwch reolwyr yn ystod 2019 ac yn wir cafodd hyfforddiant partneru busnes cyllid ffurfiol yn ystod 2020 ac mae'n braf gweld bod hyn yn talu ar ei ganfed mewn gwell ymwybyddiaeth ariannol a rheolaeth ariannol ym mhob rhan o'r sefydliad.

1.9 Mae effaith pandemig Covid-19 wedi golygu bod 2020/21 wedi bod yn flwyddyn unigryw. Mae effaith a goblygiadau hyn wedi bod yn bellgyrhaeddol a byddant yn parhau felly am gryn amser. Mae'n sicr y bydd yr effeithiau ar gymdeithas a'r economi yn gadael ôl llwm a gallai effeithio'n sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Cymerwyd camau cynnar i ohirio etholiadau a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2020 a oedd yn cynnwys y rhai ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gyda thymhorau'n cael eu hymestyn i gwmpasu'r flwyddyn ychwanegol. Disgwylir bellach i'r etholiadau gael eu cynnal ym mis Mai 2021.

1.10 Cafwyd nifer sylweddol o faterion gweithredol ac ariannol yn sgil Covid-19 sydd wedi gofyn am reolaeth ofalus a darbodus drwy gydol 2020/21. Mae'r goblygiadau ariannol wedi'u hadrodd yn fisol drwy'r Bwrdd Plismona ac amlinellir y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn yr CATC hwn. Roedd yn braf nodi bod grantiau ychwanegol wedi'u dyfarnu yn ystod y flwyddyn i helpu i dalu costau sylweddol darparu cyfarpar diogelu personol, plismona rheoliadau yn unol â'r strategaeth gytunedig o ymgysylltu, esbonio, annog a gorfodi, ynghyd â'r cynllun adennill colledion incwm sydd wedi lliniaru colledion yn rhannol yn ystod y flwyddyn.

1.11 Cyflwynodd y Prif Gwnstabl drydydd Datganiad Rheoli'r Heddlu (DRhH) yn ystod 2020. Mewn modd cynhwysfawr, mae'r datganiad hwn yn nodi'r sefyllfa gyfredol, y blaenoriaethau a'r blaengynlluniau sy'n ystyried adnoddau ariannol, y galw am wasanaethau yn y dyfodol a'r asedau a'r adnoddau staffio y bydd eu hangen ar yr Heddlu i ddarparu gwasanaeth plismona addas i'r diben o ran capasiti, gallu, defnyddioldeb a lles.

1.12 Roedd yn braf gweld bod yr Heddlu wedi datblygu'r dull o ymdrin â'r DRhH ymhellach, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewnol i lunio

cynnwys y ddogfen gynhwysfawr. Bu'r tîm Cyllid Corfforaethol hefyd yn gweithio gydag arweinwyr swyddogaethol i gostio pob agwedd a chynhaliodd y Prif Swyddogion sesiynau her i asesu risg a blaenoriaethu'r blaenoriaethau i'w cynnwys yn eu cyflwyniad cyllideb ar gyfer 2021/22. Roedd hefyd yn braf gweld bod fy PSC wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y sesiynau her ac mae hyn unwaith eto'n dyst i'r berthynas waith rhwng fy swyddfa i a'r Heddlu sy'n helpu i ddarparu dealltwriaeth a sicrwydd. Mae manylion pellach am y gwaith hwn ynghyd â chrynodeb gweithredol yr DRhH wedi'u cynnwys yn adran 3 ac mae'r goblygiadau ariannol sy'n codi wedi'u hadlewyrchu o fewn y CATC hwn lle bo'n briodol.

1.13 Digwyddodd arolygiad diweddaraf Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL), wedi'i integreiddio yn Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaeth Tân ac Achub ei Mawrhydi (AHGTAEM) ar ddiwedd 2018 a chyhoeddwyd y canlyniadau yng ngwanwyn 2019. Cafodd Arolygiadau 2020 eu hatal o ganlyniad i'r pandemig ond parhaodd y Prif Gwnstabl i weithio o ddifrif i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella, ac mae'n galonogol nodi bod AHGTAEM wedi cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn. Derbyniodd yr Heddlu wahoddiad gan AHGTAEM i fod yn heddlu peilot ar gyfer ei fframwaith PEEL Asesu Parhaus newydd ac mae'r arolygiad hwn bellach wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2021.

1.14 Cyflawnwyd llawer dros y flwyddyn ddiwethaf gyda buddsoddiad parhaus mewn ystadau, fflyd a seilwaith TG hanfodol gyda chychwyn prosiect i ddisodli System Rheoli Cofnodion yr Heddlu, parhau i gyflwyno teledu cylch cyfyng, buddsoddi mewn Camerâu Corff ac amrywiaeth o brosiectau TG i gefnogi gweithio ystwyth yn well ynghyd â chynnydd mewn perthynas â'r ddalfa/gorsaf newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae graddfa'r gofynion buddsoddi mewn prosiectau seilwaith mawr ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol yn sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf ond mae'r rhain yn hanfodol i gefnogi gwasanaethau plismona.

1.15 Yn ystod y flwyddyn ddigynsail hon, mae fy Swyddfa wedi addasu i sicrhau fy mod yn parhau i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Cynhaliwyd cyfarfodydd craffu a gweithgarwch Ymgysylltu â'r Gymuned rhithwir ac fe'u hatgyfnerthwyd ymhellach drwy adfywio'r Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid, sefydlu'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr a mwy o weithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys 'Sgwrs y Comisiynydd', darllediad newydd ar Facebook Live lle rwy'n trafod materion gydag unigolion amrywiol. Yn ystod y sesiwn gyntaf gyda'r Prif Gwnstabl, gwyliodd tua 60 o unigolion y ffrwd yn fyw, gyda 3,500 yn gwylio ar alw. Mae gweithgarwch craffu wedi'i addasu i ganiatáu parhad er gwaethaf y cyfyngiadau lleol a cenedlaethol. Mae'r Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd wedi parhau gyda gwaith adolygu cofnodion dalfeydd yn cael ei gynnal gan fy swyddfa i ac Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, gan wneud galwadau ffôn a fideo, neu yn wir fynychu'n gorfforol gyda chyfarpar diogelu personol llawn lle y bo'n briodol, i siarad â'r ceiswyr lloches yn uniongyrchol ynglŷn â'u triniaeth. Mae Gwasanaethau a Gomisiynwyd wedi nodi lefelau heriol o

alw drwy gydol y cyfyngiadau symud lleol ac mae fy Swyddfa wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi gwasanaethau. O 1 Chwefror 2020, mae fy Swyddfa hefyd wedi cymryd cyfrifoldeb am weithredu deddfwriaeth cwynion ac ymddygiad newydd sy'n deillio o ddiwygiadau uniondeb yr heddlu yn 2019.

1.16 Yn bwysig iawn mae hefyd yn braf iawn bod barn ein cymunedau ynghylch a yw'r heddlu yn gwneud gwaith da neu ragorol y chweched fwyaf cadarnhaol yn Lloegr a Chymru ar 63.8% ac y cyfrir Dyfed-Powys yn gyson ymysg y lleoedd mwyaf diogel i fyw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

1.17 Cynhaliodd y Prif Gwnstabl adolygiad trwyadl o’r galw ar yr Heddlu ar gyfer yr amrywiaeth gymhleth o wasanaethau y mae'n eu darparu. Yr wyf yn gefnogol i'r gwelliannau y mae'r Prif Gwnstabl yn parhau i'w gweithredu sy'n ceisio mynd i'r afael â materion a nodwyd o fewn Datganiad Rheoli'r Heddlu (DRhH) ac rwy’n cefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd gennyf yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu.

1.18 O ran cyllid yr heddlu, mae'n bwysig amlinellu cefndir y blynyddoedd diwethaf.

1.19 Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth fod y cyfnod o gyni ar ben, ar ôl wyth mlynedd o doriadau a chynnydd mewn treth, ac addawodd y byddai'n ceisio hybu buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus wrth barhau i leihau dyledion ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd cyhoeddiad Cyllideb yr Hydref 2018 gan Ganghellor y Trysorlys yn cydnabod bod yr heddlu o dan bwysau yn sgil y newid yn natur troseddu a dywedodd y rhoddid ystyriaeth bellach i'r heddlu yn ystod y setliad dros dro ym mis Rhagfyr.

1.20 Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, darparodd y setliad terfynol ar gyfer 2019/20 £970m o gyllid ychwanegol gyda thua £813m ar gyfer plismona lleol: £153m o grant pensiwn, £161m o arian grant craidd ychwanegol i roi cynnydd o 2.1% i bob heddlu a £509m o’r hyblygrwydd praesept ychwanegol i godi trethi lleol drwy godi praesept o £24 y flwyddyn fesul eiddo Band D. Mae’r setliad hefyd yn nodi nifer o ddisgwyliadau a blaenoriaethau i "ysgogi effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac effeithiolrwydd." Cododd pob un ond tri o’r Comisiynwyr ledled Cymru a Lloegr y praesept yn unol â hyblygrwydd y Llywodraeth.

1.21 Ym mis Medi 2019, datganodd y llywodraeth ei bod wedi "troi'r dudalen ar gyni" gan amlinellu cynlluniau i godi gwariant ar draws pob adran. Dywedodd y Canghellor fod y llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â throseddau a chadw pobl yn ddiogel. I gefnogi hyn, cadarnhaodd Cylch Gwario 2020/21 £750m ychwanegol ar gyfer plismona i ddechrau cyflawni ymrwymiad y Prif Weinidog i recriwtio 20,000 o swyddogion erbyn 2023, gyda’r gyfran gyntaf o 6,000 o swyddogion newydd i fod yn eu lle erbyn mis Mawrth 21. Pennwyd dyraniad o 42 o swyddogion i Ddyfed Powys ar gyfer y rhan gyntaf yma.

1.22 Er y croesawyd y cyhoeddiadau hyn yn fawr, mae’r Prif Gwnstabl a minnau wedi parhau i gyflwyno ein sylwadau a gwnaed hynny hefyd ar lefel genedlaethol gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) i geisio eglurder ynghylch natur a chynaliadwyedd y cyllid i gefnogi'r ddarpariaeth.

1.23 Ar 21 Gorffennaf 2020, lansiodd y Canghellor yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) y bu disgwyl mawr amdano ond ynghanol yr ansicrwydd economaidd a achoswyd gan bandemig Covid-19, cyhoeddodd y Canghellor ar 21 Hydref mai dim ond setliad un flwyddyn dros dro fyddai'n cael ei bennu ddiwedd mis Tachwedd. Dywedodd y Canghellor "Yn yr amgylchedd presennol mae'n hanfodol ein bod yn rhoi sicrwydd...... gan ganolbwyntio'n llwyr ar fynd i'r afael â Covid a chyflawni ein Cynllun Swyddi".

1.24 Nododd y Canghellor ACW2020 ar 25 Tachwedd a oedd yn cynnwys:

- Rhewi cyflogau'r sector cyhoeddus (ac eithrio'r GIG) ond gyda diogelwch incwm is i'r rhai sy'n ennill llai na £24,000
- Parhaodd y Llywodraeth yn ymrwymedig i darged Rhaglen Uplift yr Heddlu gyda 6,000 arall i'w recriwtio yn 2021-22.

1.25 Yn amlwg, mae effaith y diffyg eglurder ac ansicrwydd parhaus yn y tymor hwy ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn ei gwneud yn anodd iawn cynllunio ar gyfer y tymor byr a chanolig ac mae Cymdeithas Genedlaethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ynghyd â'u priod weithgorau yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref a gwneud sylwadau lle bynnag y bo modd.

1.26 Er gwaethaf ymrwymiadau cadarnhaol y llywodraeth, mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol o'r sylwebaeth annibynnol dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chynaliadwyedd, cyllido, cadernid a beichiau a phwysau cynyddol yr Heddlu sy'n deillio o natur newidiol troseddu a heriau sy’n newid yn gyson. Mae'r heriau hyn wedi parhau o ddifrif yn ystod 2020/21 gan fod angen i'r gwasanaeth ymateb yn gyflym o ganlyniad i bandemig Covid-19 yn ogystal ag ymdrin â'r gofynion plismona annisgwyl yn deillio o benderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref i letya ceiswyr lloches y Mhenalun. Fel Comisiynydd rwyf wedi parhau i fynegi'r pryderon hyn ar bob cyfle, gan atgyfnerthu'r effaith a'r risgiau sy'n bygwth ein cymunedau lleol.

1.27 O ran Penalun, oherwydd y galwadau gweithredol annisgwyl a sylweddol, cyflwynais grant arbennig i'r Gweinidog Plismona ym mis Hydref 2020. Er ei bod yn braf bod y cais wedi bod yn llwyddiannus, mae'r Gweinidog wedi cadarnhau na fydd yn hepgor y trothwy o 1%. Mae effaith ariannol hyn yn golygu y bydd angen talu tua £1.2m yn lleol gyda dim ond y costau dros y trothwy hwn yn cael eu talu drwy grant arbennig. Yr wyf unwaith eto wedi mynegi fy siom ac wedi atgyfnerthu'r effaith y caiff hyn ar yr heddlu, y gymuned leol a'r trethdalwr lleol.

1.28 Gan adeiladu ar y dull blaenorol, gosodwyd amserlen gynhwysfawr i lywio'r gwaith o baratoi'r Gyllideb a'r CATC er mwyn hwyluso sesiynau adolygu, herio a chraffu amserol gyda'r Prif Gwnstabl gyda chefnogaeth gan y CC a'm PSC. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ffurfiol hyn ar 20 Hydref, 19 Tachwedd, 21 Rhagfyr a 7 Ionawr gan ystyried set fanwl o wybodaeth ariannol fanwl iawn. Mae'n braf ac yn galonogol bod y gwaith paratoi cynnar hwn wedi caniatáu inni ganolbwyntio a mireinio'r cyflwyniad yn y Seminar Cyllid. Mae trafodaethau a chyfarfodydd ad hoc hefyd yn digwydd wrth i faterion godi neu yn wir ar ôl i gyhoeddiadau am gyllid ddigwydd.

1.29 Cynhaliodd y Prif Gwnstabl a minnau Seminar Cyllid rithwir ar 5 Rhagfyr 2020 ar gyfer aelodau Panel yr Heddlu a Throseddu (PHTh), y Cyd-bwyllgor Archwilio (CBA) ac Archwilio Cymru. Diben y digwyddiad oedd caniatáu i'r Heddlu gyflwyno crynodeb o'r amgylchedd gweithredol y mae'n gweithio ynddo a'r effaith a gaiff hyn ar lefelau'r galw sydd ganddo ac felly ar ei ofynion o ran adnoddau ar gyfer 2021/22 a thu hwnt.

1.30 Roedd y seminar hefyd yn ymdrin â'r camau a gymerwyd hyd yn hyn wrth baratoi cyllideb 2021/22 a'r sefyllfa ddrafft, gan gynnwys tybiaethau cyllidebol, pwysau, cyd-destun ariannu, arbedion, mesurau effeithlonrwydd a'r gofynion buddsoddi sylweddol sydd eu hangen wrth wraidd y gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona. Mae ein cynghorwyr Rheoli Trysorlys hefyd yn cyflwyno amrywiaeth o ystyriaethau economi ac ariannol lleol ehangach. Mae'r seminar hon yn rhoi cyfle gwerthfawr i gyflwyno ar yr heriau gweithredol ac ariannol a'r cyd-destun sy'n effeithio ar fy nghynlluniau ar gyfer y praesept ar gyfer 2021/22.

1.31 Nododd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona grant dros dro yr heddlu ar 17 Rhagfyr 2020 gan gydnabod dewrder eithriadol yr heddlu, eu hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus a'u cyflymder a hyblygrwydd wrth i swyddogion yr heddlu a staff ymateb i'r heriau digynsail a achoswyd gan bandemig Covid-19. Roeddent hefyd yn cydnabod y cynnydd sylweddol o ran cyflawni blwyddyn gyntaf Rhaglen Uplift yr Heddlu gyda 5,824 o swyddogion ychwanegol eisoes wedi'u recriwtio erbyn diwedd mis Medi gyda disgwyliad o gynnal y momentwm hwn.

1.32 Mae setliad 21/22 yn darparu cyfanswm o hyd at £15.8 biliwn ar gyfer plismona, gyda chyllid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cynyddu hyd at £703m ychwanegol, gan gynnwys y dybiaeth ynghylch hyblygrwydd lleol i gynyddu praesept y dreth gyngor:

- cynnydd o £415m yng nghyllid grant y Llywodraeth. Bydd yr arian ychwanegol hwn yn cefnogi blwyddyn 2 Rhaglen Uplift yr Heddlu gyda £100m yn cael ei ddiogelu a'i ddyrannu yn ôl cyfranddaliadau fformiwla cyllido a'i dalu yn unol â'r cynnydd o ran recriwtio.

- Hyd at £288m o gyllid ychwanegol o braesept y dreth gyngor, a bwrw y bydd pob CHTh yn gwneud y mwyaf o'u hyblygrwydd o £15 ar gyfer eiddo sy'n cyfateb i Fand D.
- Disgwyliadau i adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant, gyda £120m o arbedion effeithlonrwydd i'w cyflawni ar draws sector gorfodi'r gyfraith.

1.33 Y setliad grant ar gyfer Dyfed-Powys yn 2021/22 yw £59.529m, sef £2.921m/ 5.2% yn uwch na 2020/21. Mae'r setliad hwn yn cynnwys parhau â'r grant penodol o £1.302m a gyflwynwyd yn 2019/20 i liniaru'n rhannol y pwysau a ddeilliai o newidiadau i gyfradd cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer pensiynau Swyddogion yr Heddlu. Mae setliad 2021/22 yn cynnwys y cyllid ychwanegol ar gyfer y cyllid craidd a phenodol a gyhoeddwyd ar gyfer 2020/21, o fewn y llinell sylfaen ynghyd â grant penodol pellach wedi'i ddiogelu o £0.700m i gefnogi recriwtio swyddogion ychwanegol fel rhan o ail gyfran Rhaglen Uplift yr Heddlu, a delir yn amodol ar berfformiad recriwtio. Ar gyfer Dyfed Powys mae hyn yn cyfateb i 42 o swyddogion eraill, gyda 2 yn cael eu neilltuo i gefnogi blaenoriaethau a gwaith yr Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol (ROCU). Mae'r setliad hefyd yn adlewyrchu bod y gostyngiad blaenorol i'r grant Cyfalaf yn cael ei gynnal ar £85k (wedi'i dorri o £325k yn 2020/21).

1.34 Fel yr amlinellir uchod, cyhoeddodd setliad grant yr heddlu hefyd hyblygrwydd praesept ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Lloegr o £15 fesul eiddo band D, ac mae'r prif ffigurau a gyhoeddwyd yn y datganiad i'r wasg gan y Llywodraeth wedi rhagdybio y bydd pob Comisiynydd yng Nghymru a Lloegr yn manteisio'n llawn ar yr hyblygrwydd hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod y trefniadau rhwng Cymru a Lloegr yn wahanol a bod sefyllfaoedd ariannol yn amrywio'n sylweddol. Amlinellir mwy o fanylion yn adran 7.

1.35 Wrth amlinellu ei disgwyliadau ar gyfer canlyniadau ac effeithlonrwydd, mae'r Llywodraeth wedi adlewyrchu £120m o arbedion i'w cyflawni drwy gyfuniad o arferion caffael gwell, gan gynnwys darparu £20m drwy BlueLight Commercial yn ogystal ag arbedion mewn meysydd fel ystadau, gweithio ystwyth a gwasanaethau a rennir/gwasanaethau galluogi. Disgwylir i'r broses o sefydlu Bwrdd Effeithlonrwydd mewn Plismona newydd wella'r sylfaen dystiolaeth effeithlonrwydd a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer enillion yn y dyfodol. Ceir rhagor o fanylion am y ffocws ar wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn adran 6.

1.36 Er mwyn delio â graddfa'r pwysau ariannol yn 2020/21, cynyddais y praesept treth gyngor o £12 yn unol â hyblygrwydd y Llywodraeth. Arweiniodd hyn at braesept treth gyngor yn Nyfed-Powys o £260.56 ar gyfer eiddo band D cyfartalog. Dyma oedd yr isaf yng Nghymru o gymharu â £272.72 yn Ne Cymru, £272.96 yng Ngwent a £290.61 yng Ngogledd Cymru. Mae'n werth tynnu sylw hefyd at y ffaith bod Dyfed-Powys wedi cael y cynnydd isaf ond pump mewn termau canrannol ym mhraesept y dreth gyngor ledled Cymru a Lloegr ers 2012/13.

1.37 Er mwyn llywio fy ystyriaethau ar gyfer 2021/22 ac er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau fel Comisiynydd, ymgynghorais â'r cyhoedd i gael eu barn ar lefel y cynnydd ym Mhraesept yr Heddlu. Roeddwn wrth fy modd o weld cynnydd pellach yn nifer trigolion Dyfed-Powys a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwn. Roedd mwy na chwech o bob deg (64%) o'r rhai a ymatebodd yn gefnogol ac yn fodlon talu £1.50 neu £2 yn ychwanegol bob mis drwy Braesept yr Heddlu. Rwyf wedi ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus wrth bennu fy nghynnig praesept ar gyfer 2021/22. Amlinellir canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn adran 21 o'r adroddiad hwn.

1.38 Wrth benderfynu ar Braesept Heddlu ar gyfer 2021/22, rwyf yn ystyried y canlynol yn ofalus iawn: gofynion gweithredol, sefyllfa ariannol bresennol y sefydliad, cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol, sefyllfa cronfeydd wrth gefn, y cyd-destun ariannol ehangach ac effeithiau opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb, yn ogystal â chymryd sylw llawn o'r risgiau a'r effeithiau ar y gymuned leol.

1.39 Ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol, bu cryn bwysau gweithredol a sefydliadol gan gynnwys y pwysau sy'n gysylltiedig â delio â phandemig Covid-19, yr ymateb helaeth er mwyn plismona'r Llety Lloches ym Mhenalun, yn ogystal â nifer o arbedion sydd wedi'u gwireddu fel canlyniad uniongyrchol yn sgil trefniadau gweithio gwahanol. Er bod nifer o dybiaethau o hyd wrth i ni fynd i'r misoedd olaf, gyda ffocws parhaus a rheolaeth ariannol ddarbodus mae'r Prif Gwnstabl yn hyderus y bydd y galw ar gronfeydd wrth gefn yn llai na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer yn wreiddiol.

1.40 Gwelwyd parhad yng ngostyngiad lefel y cronfeydd wrth gefn yn y tymor canolig gyda pharhad y buddsoddiad mewn ystadau a TG allweddol a seilwaith fflyd, defnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi blaenoriaethau a chyflawni gweithredol o fewn y gyllideb refeniw. Roedd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn £13.283m ar 31 Mawrth 2020, wedi'i rannu rhwng cronfeydd refeniw wedi'u clustnodi, cronfeydd cyfalaf wrth gefn a chronfa gyffredinol, ond heb gynnwys y rhai a ddelir ar ran trydydd partïon neu ar gyfer cydweithredu. Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn gostwng i £4.960m erbyn 2025/26.

1.41 Er bod y defnydd arfaethedig hwn yn unol â disgwyliadau gweinidogion mewn perthynas â lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw, mae'n golygu mai ychydig iawn o gapasiti fydd ar gael yn weddill i ddiogelu a lliniaru costau digwyddiadau annisgwyl a chefnogi buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol mewn seilwaith hanfodol.

1.42 Gwnaed llawer o waith yn ystod y flwyddyn i ystyried gofynion ariannol a buddsoddi dros gyfnod hwy o amser. Er ei fod yn cynnwys nifer o dybiaethau ac ansicrwydd, mae'r CATC hwn yn cynnwys rhaglen gyfalaf i gwmpasu cyfnod o 10 mlynedd. Bydd y rhaglen gyfalaf a'r cynlluniau manwl yn cael eu hailystyried, eu hailasesu ac yn wir eu hailwerthuso

wrth i'r sefyllfa ddod yn gliriach yn ystod y flwyddyn ac yn flynyddol, fel rhan o'r broses ffurfiol o bennu'r gyllideb a'r praesept.

1.43 Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r toriad a gynhaliwyd yn y grant cyfalaf o £325k i £85 y flwyddyn yn gwbl annigonol i gefnogi'r rhaglen gynhwysfawr o fuddsoddi cyfalaf mewn Ystadau, Fflyd a Thechnoleg Gwybodaeth sy'n hanfodol i gefnogi gwasanaeth plismona yn yr oes hon. Felly mae'r CATC yn cynnwys taflwybr sylweddol o gynnydd mewn cyfraniadau refeniw i gyfalaf dros y 10 mlynedd nesaf ynghyd â thybiaethau mewn perthynas â benthyca darbodus a chostau refeniw yn sgil ariannu. Yn y pen draw rhoddodd y ddau beth yma bwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb refeniw.

1.44 Er bod cyllid yn y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr, yn enwedig yn erbyn cefndir economaidd arwyddocaol pandemig Covid-19 a Brexit, mae APCC ac NPCC yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref a phartneriaid plismona ehangach i ddatblygu cyflwyniadau gorfodi'r gyfraith cydgysylltiedig i lywio ystyriaethau'r Llywodraeth ac yn wir byddant yn parhau i adeiladu ar gyflwyniad diwethaf yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW).

1.45 Mae llawer o drafod a gwaith sylweddol wedi'i wneud yn genedlaethol dros y blynyddoedd i adolygu a chreu model newydd i ddosbarthu arian ar draws heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Cafwyd arwyddion y llynedd bod gwaith yn debygol o ailddechrau ond ni chafwyd unrhyw awgrymiadau diweddar fod y gwaith hwn ar fin digwydd. Mae'n bwysig nodi'r risg sylweddol gan y byddai'r arolwg fformiwla diwethaf na chafodd ei weithredu wedi gweld Dyfed-Powys yn cael £8m yn llai o arian. O ystyried graddfa ac effaith bosibl y canlyniad, mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi cytuno y dylid parhau i gofnodi'r risg hon ar y Gofrestr Risg Strategol ond oherwydd ansicrwydd, nid yw gostyngiadau wedi'u hadlewyrchu yn y CATC. Bydd Grŵp Aur yn cael ei sefydlu pe bai'r senario hwn yn dod yn fwy tebygol.

1.46 O ystyried cymaint yw'r pwysau a'r galwadau am wasanaeth a wynebir, rwyf wedi ystyried yn ofalus yr effeithiau a'r risgiau sylweddol sy'n bygwth ein cymunedau lleol ynghyd â'r disgwyliadau a nodir mewn datganiadau gweinidogol i bennu fy nghynnig praesept ar gyfer 2021/22 a'r CATC hyd 2025/26.

1.47 **Gan hynny, yr wyf yn cyflwyno fy nghynnig ar gyfer y praesept i Banel Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys er mwyn iddynt graffu arno, a bydd y Panel, yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth, yn codi'r praesept ar gyfer eiddo cyfartalog band D o £1.25 y mis neu £15 y flwyddyn i £275.56, cynnydd o 5.76%. Bydd y cynnydd hwn yn codi cyfanswm praesept o £62.307m. Bydd hyn yn rhoi cyfanswm cyllid canolog a lleol o £119.834m sy'n cynrychioli cynnydd o £6.924m/6.13% ar y lefelau ariannu yn 2020/21.**

1.48 Bydd y lefel hon o gyllido yn galluogi'r Heddlu i barhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu, mynd i'r afael â'r

blaenoriaethau a nodwyd o fewn Datganiad Rheoli'r Heddlu yr aseswyd eu risg, a pharhau i ddiogelu cymunedau Dyfed-Powys.

1.49 Nod yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i Aelodau Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys er mwyn craffu ar fy nghynnig praesept a darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r cyd-destun gweithredol ac ariannol sy'n sail i'r gofynion a'r tybiaethau o ran adnoddau ar gyfer 2021/22 a thu hwnt.

1.50 Ac yn olaf, yn dilyn y cyhoeddiad ganol mis Rhagfyr bod y Prif Gwnstabl Mark Collins yn bwriadu ymddeol yng ngwanwyn 2021, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i longyfarch Mark ar ei yrfa lwyddiannus ym maes plismona a dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Pan benodais i Mark yn 2016, roedd yr Heddlu wedi bod drwy gyfnod anodd ac mae wedi gweithio'n ddyfal dros y pedair blynedd diwethaf i wella'r sefydliad. Mae ei ymrwymiad a'i arweinyddiaeth wedi bod o fudd aruthrol i'r heddlu ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at newidiadau cadarnhaol yr wyf wedi'u gweld yn uniongyrchol. Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rwy'n hyderus fy mod wedi gwneud y penderfyniad cywir i benodi Mark ac rwy'n teimlo ei fod wedi bod yn arweinydd hynod effeithiol a dymunol gan adael etifeddiaeth a fydd yn gweld y sefydliad yn mynd o nerth i nerth. Bydd yn chwith hebddo.

1.51 O ystyried pa mor agos yw etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a ddisgwylir ar gyfer mis Mai 2021, penderfynwyd peidio â symud ymlaen â phroses benodi ar gyfer Prif Gwnstabl newydd ar hyn o bryd. Oherwydd pwysigrwydd y berthynas rhwng y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, teimlwn y dylai’r penderfyniad hollbwysig hwn gael ei wneud gan y Comisiynydd etholedig ar ôl yr etholiad nesaf. Felly, cyhoeddwyd bod y Dirprwy Brif Gwnstabl Claire Parmenter wedi'i dyrchafu dros dro i Brif Gwnstabl Dros Dro wedi ymddeoliad Mark. Mae Claire wedi chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o gefnogi arweinyddiaeth Mark dros y blynyddoedd diwethaf a dymunaf bob llwyddiant iddi yn ei rôl newydd.

## 2. Cyd-destun Sefydliadol

2.1 Â hithau'n ymestyn dros 4,188 milltir sgwâr, Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 milltir o ffyrdd, 2 borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd cefn gwlad eang, mae'r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol i ni o ran galw ac adnoddau.

2.2 Mae'r boblogaeth breswyl o 515,870 wedi'i lledaenu ar draws ardaloedd gwledig eang, trefi marchnad a gwyliau, ac ardaloedd sydd â phoblogaeth ddwysach. Mae twristiaeth yn golygu gofynion unigryw, gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol megis Dinbych-y-pysgod ac Aberhonddu. Mae i hyn ei oblygiadau ei hun o ran plismona'r ffyrdd, trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.3 Fel yr heddlu mwyaf yng Nghymru a Lloegr, mae Dyfed-Powys yn gweithio mewn partneriaeth â phedwar awdurdod lleol ac mae ganddo fwrdeistrefi plismona lleol cydffiniol. Y tu hwnt i'r pedair sir, mae Dyfed-Powys hefyd yn cydweithio ar sail Cymru Gyfan ynghylch cyfrifoldebau plismona.

2.4 Mae sicrhau bod y gweithlu'n weladwy er mwyn gwella bodlonrwydd dioddefwyr, amddiffyn y sawl sy'n agored i niwed, atal trosedd a dod â throseddwyr o flaen eu gwell yn heriol o ystyried yr ardal eang sy'n cael ei phlismona.

2.5 Mae gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys wedi buddsoddi'n sylweddol mewn plismona digidol, gan roi mynediad i swyddogion rheng flaen a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu at systemau'r heddlu drwy derfynellau data symudol a chamerâu corff, yn ogystal â chyflwyno telemateg mewn cerbydau ar gyfer gwella'r ymateb i ddigwyddiadau a chyflwyno rhaglen teledu cylch cyfyng ar raddfa fawr.

2.6 Ers adolygiad cynhwysfawr o wariant 2010, mae'r cyllid grant canolog wedi lleihau 21% neu £13m; bu'n ofynnol i'r heddlu wneud arbedion o £30.712m.

2.7 Yn y cyd-destun hwn, mae'r gofynion yn parhau i gynyddu a dod yn fwyfwy cymhleth. Mae'r Heddlu wedi profi cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn o ran troseddau cofnodedig, gyda digwyddiadau'n ymwneud â salwch meddwl ac ymchwiliadau mwy cymhleth i seiberdroseddu a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

2.8 Siaredir Cymraeg gan 32% o breswylwyr Dyfed-Powys o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%. Fel gwasanaeth, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y gweithlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu fel bod y cyhoedd, lle bo hynny'n bosibl, yn cael y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg.

2.9 Mae'r Heddlu wedi profi newidiadau sylweddol i'w dîm Prif Swyddogion ond wedi elwa o'r arweinyddiaeth weithredol sefydlog o dan y Prif Gwnstabl gyda chyfeiriad strategol clir. Amlygir hyn drwy asesiadau gan reolyddion allanol. Cyhoeddodd y Prif Gwnstabl ei ymddeoliad arfaethedig ar gyfer Gwanwyn 2021 ac mae amrywiaeth o drefniadau dros dro a gweithredu uwch wedi'u rhoi ar waith. Rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu hadolygu ar ôl etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai 2021.

2.10 Mae'r model plismona bro wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau ac mae'n seiliedig ar swyddogaethau Ymateb, Ymchwilio i Droseddau a Diogelu. Mae pedwar blaenoriaeth y Cynllun Heddlu a Throseddu'n sail i'r holl agweddau ar gyflawni sefydliadol a gweithredol:

- Cadw ein cymunedau'n ddiogel.
- Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed.
- Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol.
- Cysylltu â'n cymunedau.

2.11 Er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, mae'r Heddlu wedi datblygu cynllun cyflawni ar gyfer 2017-21 a Gweledigaeth ar gyfer 2025, a ddangosir yn Atodiad A a B yn y drefn honno. Ategir y dogfennau lefel uchel hyn gan gynlluniau manwl. Mae'r cynlluniau'n dangos yr amgylchedd gweithredol heriol, yr angen ar gyfer buddsoddi parhaus er mwyn cefnogi gwasanaethau cynaliadwy, a'r angen i baru asedau ac adnoddau'r heddlu i fodloni'r galw ar yr heddlu'n briodol.

## 3 Perfformiad Gweithredol

3.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y troseddau a gofnodwyd yn gyffredinol yn Nyfed-Powys wedi parhau i godi; yn rhan olaf 2019 a dechrau 2020 awgrymai'r cyfraddau duedd gymharol sefydlog, fodd bynnag, ers canol mis Mawrth mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar gyfradd troseddau. Gostyngodd nifer y troseddau yn gyffredinol yn sylweddol ym mis Mawrth 2020, ond ers mis Ebrill 2020 mae nifer y troseddau wedi dychwelyd yn raddol i lefelau tebyg i'r rhai a gofnodwyd cyn y pandemig a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn amlygu unrhyw wahaniaethau nodedig yn y cyfraddau troseddu diweddaraf:

- Cynnydd eithriadol mewn troseddau Difrod Troseddol yn ystod Awst-20. Oherwydd natur dymhorol y categori troseddu hwn, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng nifer y troseddau yn ystod y cyfnod hwn a'r un cyfnod y llynedd.

- Gostyngodd troseddau cyffuriau yn sylweddol yn dilyn y cynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Gwelodd cyfnod clo COVID hefyd gynnydd yn nifer y gwarantau cyffuriau a gafodd eu gweithredu a gwiriadau atal positif o ganlyniad i Ymgyrch Dovecote.


Ar ôl llacio cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â COVID, mae'n ymddangos bod nifer y troseddau cyffuriau wedi dychwelyd i'r cyfartaledd.

- Mae'r lefelau troseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus yn parhau i fod yn uchel iawn. Mae'r pandemig wedi bod yn ffactor allweddol yn y cynnydd hwn gan fod tensiynau cyhoeddus wedi bod yn uchel oherwydd cyfyngiadau a rheoliadau COVID.

- Cynyddodd troseddau Trais yn Erbyn y Person yn sylweddol yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2020, ond roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn troseddau'n ymwneud ag alcohol yn dilyn llacio'r cyfyngiadau symud.

3.2 Mae'r graff canlynol yn nodi lefelau troseddu cyffredinol ers mis Mawrth 2017, er y dylid nodi y bu newidiadau ar raddfa genedlaethol sydd wedi effeithio ar y broses o adrodd ar droseddau, ac mae hyn yn gyfrifol am rywfaint o'r cynnydd. Mae llawer o waith wedi'i wneud gan yr Heddlu i wella cywirdeb data troseddu ac mae ffocws yr Heddlu ar fregusrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi sicrhau cynnydd cadarnhaol o ran rhoi gwybod am a chofnodi troseddau.  Er gwaethaf y gostyngiad cychwynnol mewn troseddau a gofnodwyd yn dilyn cyfyngiadau symud cenedlaethol COVID, mae cyfraddau yn ystod Ch2 2020/21 yn dangos cynnydd sy'n gyson â'r hyn a ddisgwylir yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn.

**Graff 1: Lefelau Troseddu**




3.3 Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr wedi mesur troseddu ers 1981. O'i ddefnyddio ochr yn ochr â'r data ar droseddau a gofnodir gan yr heddlu, mae'n ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i'r llywodraeth am raddau a natur troseddau yng Nghymru a Lloegr. Dyma ganfyddiadau allweddol Heddlu Dyfed-Powys sy'n deillio o'r arolwg diweddaraf:

- Ystyrir bod y risg ganrannol y bydd aelwyd yn dioddef o drosedd yn y cartref yn eithriadol isel. Ar 3.2%, Heddlu Dyfed-Powys sydd â'r canlyniad isaf a gofnodwyd.

- Mae canfyddiad y cyhoedd o gymdogion swnllyd a phobl sy'n feddw neu'n afreolus yn ystadegol is na chwarteri blaenorol ac mae'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Mae canfyddiad y cyhoedd o bobl yn defnyddio neu'n delio mewn cyffuriau yn is yn ystadegol na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Mae canfyddiad y cyhoedd o fod wedi profi neu fod yn dyst i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eithriadol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar 23.1%, Dyfed Powys sydd â'r canlyniad isaf a gofnodwyd.

- Mae'r canfyddiadau o ran a fyddai'r heddlu yn trin pobl â pharch yn uwch na chwarteri blaenorol, ac mae'n cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Nid yw canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch a yw'r heddlu'n gwneud gwaith da neu ragorol wedi newid yn ystadegol ers chwarteri blaenorol, mae Dyfed Powys yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Mae'r canfyddiadau o ran a yw'r heddlu'n ymdrin â phethau sy'n bwysig i bobl yn eu hardal fymryn yn is na'r chwarter blaenorol. Fodd bynnag, mae Dyfed Powys yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

3.4 Mae cyfradd y digwyddiadau wedi gostwng dros amser. Cyrhaeddodd y niferoedd uchafbwynt eleni, sef 13,621 a gofnodwyd yn ystod mis Awst 2020, a dangosodd mis Mawrth 2020 y nifer isaf gyda 9,916 o ddigwyddiadau a oedd yn cyd-daro â'r cyfyngiadau symud Covid-19 cyntaf ar 23/03/2020. Yn ddiddorol, mae ffigurau'r flwyddyn hyd yn hyn yn dangos bod cyfanswm nifer y digwyddiadau wedi gostwng 13% ers 2016 (141,190 o gymharu â 122,626 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi, yn y drefn honno).

3.5 Mae prif fannau gwan Heddlu Dyfed-Powys yn cael eu hasesu drwy broses asesiad risg a elwir yn asesiad Rheoli Risg wrth Orfodi'r Gyfraith (MoRILE). Mae partneriaid yn cael eu dwyn at ei gilydd i fanteisio ar brofiad a thystiolaeth o feysydd allweddol lle mae bygythiad, risg a niwed er mwyn pennu'r adnoddau a ddyrennir a'r ffocws ar gyfer plismona. Mae canlyniadau'r ymarfer hwn yn llywio'r Strategaeth Reoli ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Gyda'r themâu trawsbynciol mae Llinellau Cyffuriau, Bregusrwydd a Throseddau a Alluogir yn Ddigidol a'r ffiniau, ac o fis Mehefin 2020, y blaenoriaethau yw:

- Cyffuriau Dosbarth A
- Troseddau Seiber-ddibynnol
- Cam-drin Domestig

- Camfanteisio'n Droseddol ar Blant gan gynnwys Camfanteisio Rhywiol a Cham-drin Plant

3.6 Ers hynny, mae llawer wedi'i wneud i wella'r ffordd yr ydym yn diogelu'r rhai sy'n agored i niwed ac yn diogelu rhag niwed difrifol. Mae gan bob elfen o'r strategaeth reoli gynllun gweithredu Amddiffyn, Atal, Paratoi ac Ymlid cysylltiedig. Mae'r cynlluniau gweithredu yn cael eu cynnwys yn y Cyfarfodydd Grŵp Tasglu a Chydlynu sy'n cael eu cynnal bob chwarter ac yn cael eu cadeirio gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Caiff blaenoriaethau strategaethau rheoli eu hystyried mewn cyfarfodydd Perfformiad a Thasg, tra bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r strategaeth reoli yn cael ei thrafod mewn cyfarfodydd cudd-wybodaeth ar lefel heddlu a sir.

3.7 O ran y troseddau mwyaf difrifol, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cofnodi 37 o lofruddiaethau ers 2014. Dylid nodi y gallai amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn a natur pob achos unigol gael effaith sylweddol ar y costau cysylltiedig.

3.8 Yn ystod y cyfnod adrodd, mae AHGTAEM wedi ymgymryd â gweithgarwch arolygu cyfyngedig i roi cyfle i heddluoedd ymateb i'r galw a achoswyd gan bandemig COVID-19.


3.9 O ran gweithgarwch thematig, chynhaliodd AHGTAEM Adolygiad Cam 2 o Ffeiliau Troseddu yn ystod mis Tachwedd 2019 a chwblhawyd hyn ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, ar ôl y dyddiad hwn ataliwyd yr holl weithgarwch arolygu er mwyn caniatáu i heddluoedd ymateb i'r galw a ddaeth yn sgil y pandemig. Ar ddiwedd haf 2020, hysbyswyd pob heddlu am ailddechrau gweithgarwch arolygu AHGTAEM a hysbyswyd Heddlu Dyfed-Powys o'r canlynol:

- Arolygiad Thematig ar y Cyd [AGEGEM ac AHGTAEM] 'Pre-Charge and Use of Released Under Investigation (2019/2020) – Adroddiad i'w gyhoeddi ar 08/12/2020
- Arolygiad COVID - er nad oedd yn cael ei arolygu, roedd yn ofynnol i Heddlu Dyfed-Powys ddarparu gwybodaeth ddogfennol i lywio gweithgarwch arolygu pob heddlu.

3.10 Er mwyn deall barn y cyhoedd am blismona lleol yn well, dadansoddir dwy gronfa allweddol o wybodaeth. Y rhain yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, sy'n cynnig argraff y cyhoedd o blismona, a'r Arolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr, sy'n rhoi profiad dioddefwyr o blismona. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n cynnal Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr a chaiff yr Arolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr ei gynnal gan yr Heddlu.


3.11 Mae lefel canfyddiad y cyhoedd gyda'r uchaf yn y wlad gyda 63.8% yn nodi bod y gwaith y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei wneud yn dda neu'n rhagorol:

**Graff 2: Canfyddiad y Cyhoedd**




3.12 O ran Bodlonrwydd Dioddefwyr o fis Chwefror 2020, ar gyfartaledd roedd 84% yn fodlon gyda'u profiad cyfan ond mae'r Heddlu'n cydnabod bod gwaith i'w wneud i ganolbwyntio ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr. Mae'r Comisiynydd yn awyddus i gryfhau Llais y Dioddefwyr ym maes plismona ac felly mae wedi sefydlu Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr. Gan gydweithio â dioddefwyr, nod y Comisiynydd yw sicrhau bod eu lleisiau'n dylanwadu ar y gwaith o graffu ar y gwasanaethau a ddarperir i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddioddefwyr.


**Graff 3: Bodlonrwydd Dioddefwyr**




3.13 Mae'r graffiau canlynol yn amlinellu'r proffil gwirioneddol a rhagamcanol newidiol o ran niferoedd Swyddogion Heddlu, SCCH a Staff Heddlu dros y 10 mlynedd diwethaf o gymharu â'r darlun cenedlaethol ehangach. Mae cydbwysedd y lefelau adnoddau yn hollbwysig o ran ymdrin â


gofynion sy'n newid o hyd, ac mae'r Prif Gwnstabl yn gofalu am hyn ac yn ei reoli drwy drefniadau llywodraethu mewnol. Manylir ymhellach gynllunio'r gweithlu yn adran 14, sy'n adlewyrchu'r cynnydd disgwyliedig yn niferoedd Swyddogion yr Heddlu.

**Graff 4: Proffil Symudiadau'r Gweithlu 2010 i 2024**




| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Officers | 1,195 | 1,157 | 1,131 | 1,112 | 1,123 | 1,176 | 1,149 | 1,160 | 1,186 | 1,145 | 1,165 | 1,183 | 1,224 | 1,284 | 1,264 |
| PCSOs | 83 | 80 | 97 | 143 | 145 | 147 | 135 | 143 | 145 | 146 | 143 | 148 | 148 | 148 | 148 |
| Police Staff | 728 | 673 | 607 | 606 | 600 | 536 | 584 | 622 | 633 | 651 | 674 | 718 | 742 | 735 | 728 |

**Graff 5: Proffil Cenedlaethol o Symudiadau'r Gweithlu**




| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Officers | 144,230 | 139,586 | 134,579 | 129,956 | 128,346 | 127,485 | 124,368 | 123,491 | 122,787 | 123,502 | 129,425 |
| PCSOs | 16,918 | 15,820 | 14,393 | 14,205 | 13,066 | 12,370 | 11,043 | 10,213 | 10,139 | 9,547 | 9,180 |
| Police Staff | 83,436 | 78,074 | 71,592 | 69,822 | 68,370 | 68,147 | 65,797 | 65,319 | 67,200 | 69,302 | 72,330 |
| Other | 15,914 | 18,673 | 20,379 | 19,032 | 17,780 | 16,092 | 16,011 | 13,513 | 11,699 | 10,643 | 9,571 |

- DS mae Eraill yn cynnwys Heddlu Gwirfoddol nad ydynt yn gyfwerth ag amser llawn

## 4 Ymateb a Goblygiadau Pandemig Covid-19

4.1 Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn heb ei thebyg gyda'r argyfwng cenedlaethol parhaus yn deillio o bandemig Covid-19. Cafwyd ymateb digynsail i hyn ymhlith y sector cyhoeddus yn gyffredinol ac yn benodol ym maes plismona wrth iddo addasu'n gyflym i orfodi deddfwriaeth newydd y DU a Chymru, gan hefyd gynnal y gwaith o ddarparu gwasanaeth a diogelu ei weithlu.

4.2 Cymerodd Heddlu Dyfed-Powys ystod o gamau cynnar i sicrhau ei fod yn barod i ymateb ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Roedd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd yn sylweddol a phellgyrhaeddol i sicrhau bod pob agwedd ar berfformiad gweithredol a sefydliadol a darpariaeth gwasanaethau yn optimaidd ac yn ddeinamig i ymateb yn briodol i'r sefyllfa a oedd yn datblygu, gydag iechyd a lles y gweithlu yn gwbl hanfodol. Mae'r strwythurau Trefn Reoli Aur, Arian ac Efydd yn gweithio ar y cyd â Grŵp Trefn Reoli Strategol, Grŵp Trefn Reoli Dactegol a'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

4.3 Mae diogelwch a lles y gweithlu wedi bod yn hanfodol yn yr ymateb plismona, a defnyddiwyd gwahanol gamau ar gyfer defnyddio'r gweithlu wrth i'r argyfwng ddatblygu. Cymerwyd nifer sylweddol o gamau cychwynnol i sicrhau parhad busnes, cadernid a'r broses o ddarparu gwasanaethau allweddol. Yn eu plith mae rhannu Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu (CGH) rhwng dau safle, nifer sylweddol o staff nad ydynt ar y rheng flaen yn gweithio gartref, ailflaenoriaethu a dyrannu TG i rolau hanfodol, cyfuno adnoddau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ac addasu ffyrdd o weithio ar gyfer swyddogaethau rheng flaen a swyddfa gefn gyda chyfarfodydd mewnol ac allanol yn cael eu cynnal yn electronig a darparu hyfforddiant ar-lein. Mae llawer o staff yn parhau i weithio gartref gyda rhai bellach yn ôl yn y gweithle gyda threfniadau cadw pellter cymdeithasol priodol cadarn ar waith. Mae'r trefniadau hyn wedi cyflymu prosiect gweithio ystwyth yr Heddlu.

4.4 Mae effaith Covid-19 ar lefelau adnoddau wedi'i monitro'n ofalus ar draws y sefydliad, gydag uchafbwynt o 40% o ran absenoldebau staff ym mis Mai, er bod absenoldebau nad ydynt yn ymwneud â Covid-19 wedi aros yn is nag arfer ac yn wir yn llawer is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar draws plismona.

4.5 Mae goresgyn yr heriau y mae pob sector ledled y DU yn eu hwynebu gyda chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Heddlu fabwysiadu gweithdrefnau caffael brys i gyrchu cyfarpar o'r fath mewn modd amserol. Roedd yr Heddlu'n gallu cynnal lefelau priodol i sicrhau diogelwch y gweithlu. Mae gweithwyr caffael proffesiynol wedi parhau i weithio gydag arweinwyr gwasanaethau i asesu a monitro'r cadwyni cyflenwi a sefyllfa'r cyflenwyr sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus. Bu rhywfaint o bwysau cenedlaethol o fewn y farchnad fforensig ac mae'r rhain wedi'u lliniaru yn ôl yr angen.

4.6 O ran y galw, ac yn unol â'r holl heddluoedd eraill, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn nifer y

troseddau y rhoddir gwybod amdanynt. Fodd bynnag, mae adroddiadau am achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi cynyddu'n aruthrol, yn bennaf o ganlyniad i adroddiadau am dorri rheolau'r cyfyngiadau. Hyd yma, mae'r gallu i ymateb i'r adroddiadau hyn yn dda. Mae'r Heddlu hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth ymdrin â materion yn ymwneud â theithio nad yw'n hanfodol gyda phobl sy'n dymuno teithio i fwynhau ardal yr Heddlu a'r rhai sy'n dymuno ymweld ag ail gartrefi yn yr ardal. Cafodd ymgyrch benodol ei chynnal hefyd i fynd ati i rybuddio yn erbyn cynulliadau torfol posibl yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol.

4.7 Yn ogystal, mae'r Heddlu, yn unol ag arferion gorau, wedi sefydlu Cell Dysgu ac Adfer Sefydliadol i gynllunio ac i ddelio â chanlyniadau'r pandemig. Bydd hyn yn ymdrin ag unrhyw wersi a ddysgwyd, arferion gwaith i'w cynnal, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer ailddechrau prosiectau strategol ac ystyriaethau lles parhaus ar gyfer staff.

4.8 O ran goblygiadau ariannol cychwynnol, mae pandemig Covid-19 yn parhau i effeithio ar wariant gyda chostau a cholledion ychwanegol sylweddol mewn incwm drwy gydol y flwyddyn. Mae'n anochel bod y sefyllfaoedd newidiol mewn cyfnodau clo llymach wedi ei gwneud yn anodd rhagweld. Fodd bynnag, mae'r newid mewn arferion gwaith wedi sicrhau rhai arbedion a bydd rhai o'r rhain yn parhau i gael eu gwireddu yn ystod y CATC drwy ymgorffori gweithio ystwyth.

4.9 Mae maint y goblygiadau economaidd ac yn wir ymyriadau ariannol y Llywodraeth wedi bod yn sylweddol. Mae'r APCC a'r NPCC wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â goblygiadau ariannol Covid-19 gan anfon cyflwyniadau manwl yn fisol.

4.10 Yn ystod 2020/21, cadarnhaodd y Gweinidog Plismona a'r Swyddfa Gartref dri grant ychwanegol:

- Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn talu holl gostau PPE Safon Feddygol, ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, sy'n cyfateb i £347k. Daw cyflenwadau PPE yn y dyfodol drwy drefniadau caffael canolog heb unrhyw gost i'r Heddlu
- £30m o gyllid ymchwydd ar gyfer mwy o orfodaeth COVID-19 gyda disgwyliad o wella gwaith gorfodi cyfyngiadau COVID-19 ar unwaith, yn weladwy ac yn genedlaethol. Dyraniad Dyfed-Powys oedd £212k.
- Cynllun adennill colled incwm ar gyfer Comisiynwyr ar gyfer 2020/21 sy'n cydnabod yr incwm a gollwyd ar werthiannau, ffioedd a thaliadau disgwyliedig o ganlyniad i'r pandemig. Bydd y cynllun hwn yn galluogi heddluoedd i adennill 75c ym mhob £1 o incwm a gollwyd unwaith y bydd CHThau wedi cymryd didyniad o 5%. Mae hawliadau'n parhau i gael eu gwneud bob mis.

4.11 Mae hefyd yn bwysig nodi effaith y pandemig ar y marchnadoedd ariannol byd-eang, gan yr effeithiwyd ar weithgarwch mewn sawl sector. Roedd y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/20 yn cynnwys dau adroddiad o 'ansicrwydd prisio materol' ar gyfer prisiadau asedau

Ystadau a'r cronfeydd pensiwn. Bydd y prisiadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus.

4.12 Mae effaith pandemig Covid-19 wedi arwain at oblygiadau i awdurdodau lleol o ran eu rhagdybiaethau ynghylch cyfraddau casglu ac yn wir y ffactorau economaidd a datblygu, sy'n cyfrannu at gyfrifo'r sylfaen drethu. Amlinellir yr effaith hon ar y sylfaen drethu ymhellach yn adran 11.

4.13 Bydd gwaith yn parhau er mwyn asesu'r goblygiadau ariannol ond bydd angen cryn dipyn o amser i grisialu'r sefyllfa o ran y materion a'r effaith leol ond hefyd o fewn y dirwedd economaidd ehangach. Mae ymyrraeth economaidd y Llywodraeth wedi bod yn helaeth a gallai hyn fod â goblygiadau sylweddol i gyllid a gwasanaethau cyhoeddus maes o law.

## 5 Arolygiadau PEEL AHGTAEM a Datganiad Rheoli'r Heddlu –

5.1 Yn ystod mis Hydref 2018, cynhaliodd AHGTAEM yr arolygiad PEEL integredig blynyddol cyntaf o'r Heddlu. Cafodd y canfyddiadau eu cyhoeddi ddiwedd mis Ebrill 2019 gyda'r graddau canlynol:

**Tabl 1: Canlyniad Arolygiad PEEL**

| Adran | Prawf | Canlyniad |
|---|---|---|
| Effeithiolrwydd | Pa mor effeithiol yw'r Heddlu wrth leihau troseddau a chadw pobl yn ddiogel? | Da |
| Effeithlonrwydd | Pa mor effeithlon y mae'r Heddlu'n gweithredu a pha mor gynaliadwy yw'r gwasanaethau mae'n eu darparu i'r cyhoedd? | Angen Gwella |
| Dilysrwydd | Pa mor ddilys y mae'r Heddlu yn trin y cyhoedd a'i weithlu? | Angen Gwella |

5.1 Er bod y graddau'n siomedig, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gwbl ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth plismona o'r radd flaenaf i gymunedau Dyfed-Powys. Mae'r Heddlu wedi buddsoddi llawer o amser i geisio sicrhau dealltwriaeth well o'r materion y tynnwyd sylw atynt ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â nhw. Derbyniodd yr Heddlu wahoddiad gan AHGTAEM i dreialu eu fframwaith PEEL Asesu Parhaus, fodd bynnag oherwydd pandemig Covid-19 ataliodd yr Arolygiaeth ei holl weithgarwch arolygu. Mae'r arolygiad hwn bellach wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2021.

5.2 Mae AHGTAEM wedi cydnabod y cynnydd sylweddol y mae'r Heddlu'n ei wneud o ran ailstrwythuro gwasanaethau er mwyn cynnig cymorth arbenigol i gymunedau. Mae hefyd yn galonogol clywed canmoliaeth i waith y staff yng Nghanolfan Gyswllt yr Heddlu, sy'n llwyddo i nodi pobl agored i niwed yn gyson. Mae AHGTAEM hefyd wedi darparu adborth cadarnhaol ar y cynnydd a wnaed o ran y cyfeiriad strategol newydd a'r model ar gyfer Plismona Bro. Dyfarnwyd bod yr Heddlu'n dda wrth drin

y cyhoedd yn deg, sy'n dyst i'r gwaith a wneir bob dydd i gefnogi a diogelu cymunedau Dyfed-Powys.

5.3 Yn Adroddiad Sbotolau PEEL ym mis Mai 2019, cydnabu AHGTAEM fod Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn wynebu pwysau sylweddol wrth iddynt geisio bodloni galw cynyddol a chymhleth gydag adnoddau sy'n prinhau. Rhagwelir hefyd y bydd y galw am Wasanaethau'r Heddlu yn cael ei effeithio gan dueddiadau cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol yn y dyfodol yn y chwe maes allweddol canlynol:

- Poblogaeth
- Iechyd
- Economi a seilwaith
- Newid yn yr hinsawdd
- Defnydd Tir ac Adnoddau Naturiol
- Cymdeithas a Diwylliant

5.4 Cyflwynodd y Prif Gwnstabl ei drydydd DRhH yn ystod 2020 fel hunanasesiad ar gyfer AHGTAEM. Mae'r datganiad hwn yn esbonio:

- Y galw y mae'r Heddlu yn disgwyl ei wynebu yn y pedair blynedd nesaf.
- Sut y bydd yr Heddlu'n newid ac yn gwella cyflwr, capasiti, gallu, defnyddioldeb, perfformiad a sicrwydd cyflenwad ei weithlu ac asedau eraill i ymdopi â'r galw hwnnw.
- Sut y bydd yr Heddlu'n gwella er mwyn sicrhau bod y bwlch rhwng y galw yn y dyfodol a chapasiti'r dyfodol mor fach â phosibl
- Yr arian y mae'r Heddlu'n disgwyl ei gael er mwyn gwneud yr uchod.

5.5 Mae'r Heddlu wedi diwygio ei ddull o gynhyrchu'r DRhH i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn flaenorol gan AHGTAEM mewn perthynas â gwella'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r dull newydd ar gyfer y DRhH wedi sefydlu dull canoledig o gydgysylltu'r ddogfen, sef cynllun strategol yr Heddlu ar gyfer y flwyddyn nesaf, lle rhagwelir y galw disgwyliedig ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

5.6 Mae'r dadansoddiad o ddata'r galw - y data cyfredol a rhagfynegol - yn cael ei gynnal yn ganolog ac mae'n ofynnol i arweinwyr busnes gymhwyso barn broffesiynol ac arbenigedd i'r sylfaen dystiolaeth. Rhagwelir y bydd y dull a ddilynir eleni yn sicrhau gwaith cynllunio strategol mwy effeithiol a fydd yn cryfhau'r cysylltiadau â'r CATC, y Strategaeth Ystadau a'r gwaith o gynllunio Adnoddau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Bydd y gwendidau a nodir drwy'r broses hon yn cael eu monitro drwy strwythur llywodraethu'r Heddlu ac adroddir ar gynnydd mewn perthynas â phob un yn rheolaidd. Amlinellir rhagor o fanylion am y dull o ymdrin â'r CATC yn adran 6.

5.7 Mae'r DRhH wedi nodi'r bylchau a'r heriau mwyaf sylweddol y mae'r Heddlu yn eu hwynebu, sef:

- Ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ariannol tymor hir a gallu'r Heddlu i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'n cymunedau o ystyried cyfuniad

o ostyngiad posibl mewn adnoddau a chynnydd sylweddol yn y galw.

- Mae salwch cyffredinol yn cynyddu ac Anhwylderau Seicolegol yw prif achosion absenoldeb.
- Galwadau am wasanaeth, yn enwedig y cynnydd mewn galwadau 999 a chynnydd o ran cymhlethdod.
- Graddfa'r galw digidol ac ar-lein a'n gallu i fynd i'r afael â hyn.
- Graddio canlyniadau, o ystyried maint y galw a'r effaith y mae Covid-19 yn ei chael wrth greu ôl-groniad mewn treialon, gyda galwadau ychwanegol am Wasanaethau Dioddefwyr.
- Rhagwelir y bydd y galw o ran troseddau rhywiol yn cynyddu a siâp y gweithlu a'n gallu i fynd i'r afael â'r galw hwn gyda'r sgiliau sydd eu hangen.
- Galw cynyddol am TGCh a Rheoli Gwybodaeth i gynyddu cynhyrchiant a thryloywder

## 6 Cyd-destun Ariannol – Sylwadau Annibynnol

6.1 Dogfennwyd a gwnaed sylwadau'n helaeth ar yr heriau ariannol sy'n wynebu gwasanaeth yr heddlu yn ystod 2018 a 2019 gyda nifer o astudiaethau ac adroddiadau proffesiynol ac annibynnol â phroffil uchel. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, tynnir sylw at y materion cyllid amlwg fel a ganlyn gan eu bod yn rhoi cyd-destun defnyddiol i'r heriau a'r materion ariannol a wynebwyd gan y gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf:

6.2 Mae Adroddiad Plismona ar gyfer y Dyfodol y Pwyllgor Materion Cartref a gyhoeddwyd ar 22 Hydref 2018 yn bellgyrhaeddol ac yn gwneud 66 o gasgliadau ac argymhellion beirniadol iawn yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth sylweddol. Yn benodol mewn perthynas â chyllid, mae'r adroddiad yn nodi:

a. "Rhaid i'r Llywodraeth fod yn glir ac yn gywir ynglŷn â chyllid yr heddlu, a'r pwysau ar adnoddau sy'n wynebu heddluoedd. Croesawn ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cartref i flaenoriaethu cyllid yr heddlu yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) nesaf, a chydnabyddiaeth glir y Gweinidog Plismona bod angen adnoddau ychwanegol ar y gwasanaeth i'w alluogi i ateb gofynion sy'n newid. Cytunwn â hwy. Mae angen mwy o arian ar blismona ar frys. Rydym yn argymell yn gryf y dylai cyllid yr heddlu gael ei flaenoriaethu yn y Gyllideb nesaf ac yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant nesaf.

b. O ystyried yr heriau cymhleth a amlinellir yn yr adroddiad hwn, nid oes gennym amheuaeth y byddai methiant i ddarparu codiad cyllid ar gyfer plismona yn cael effaith ddifrifol. Nid yw arbedion effeithlonrwydd yn llwyr ddigonol, yng nghyd-destun yr heriau y mae heddluoedd yn awr yn eu hwynebu: cynnydd sylweddol mewn trais difrifol a throseddau niferus; cynnydd mewn achosion cymhleth, gan gynnwys troseddau rhywiol yn ymwneud â phlant a cham-drin domestig; llwyth gwaith cynyddol o ganlyniad i ddiogelu

pobl fregus, ac ymchwydd sylweddol o ran troseddau ar y rhyngrwyd, gyda'r heriau amlwg y mae hynny'n ei greu. Heb gyllid ychwanegol, bydd yn rhaid i rywbeth newid, ac ni fydd yr heddlu'n gallu cyflawni eu dyletswyddau o ran sicrhau diogelwch y cyhoedd, cyfiawnder troseddol, cydlyniad cymunedol a hyder y cyhoedd.

c. Rydym yn pryderu'n fawr am gasgliad diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad yw'r Swyddfa Gartref yn gwybod a yw system yr heddlu yn gynaliadwy yn ariannol ai peidio, ac na all fod yn sicr bod cyllid yn cael ei gyfeirio at y lleoedd iawn. Rhaid i fuddsoddi yn y dyfodol fod yn strategol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar y meysydd lle gallant gael yr effaith fwyaf ar atal troseddu a lleihau niwed, ac nid dim ond y meysydd hynny a fyddai'n denu'r sylw mwyaf ffafriol yn y wasg.

d. Nid yw'r model presennol ar gyfer cyllid yr heddlu yn addas at y diben, a dylid ei ddiwygio a'i ailstrwythuro ar lefel sylfaenol. Mae dibyniaeth mor ddifrifol ar y praesept treth gyngor er mwyn cael cyllid ychwanegol hefyd yn anghynaladwy. Mae'n bryd rhoi'r gorau i anwybyddu'r broblem hon, a chreu setliad ariannol ar gyfer Heddluoedd sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gan gydnabod gwir gost plismona. Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ar ofynion o ran adnoddau sy'n deillio o alwadau amrywiol a chymhleth. Mae hefyd yn debygol y bydd angen i fwy o adnoddau gael eu sianelu at lefelau rhanbarthol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau strwythurol a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

e. Mae gan wasanaeth yr heddlu rôl gynyddol o ran rheoli bregusrwydd a risg ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, ac mae gan lawer o unigolion anghenion cymhleth sy'n croesi ffiniau sefydliadol. Ym Mhennod 2, cyfeiriwyd at fodelau sy'n golygu cydleoli swyddogion yr heddlu neu Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH) gydag asiantaethau eraill, i weithio ar ymyriadau ar gyfer unigolion y mae angen mwy o gymorth cyfannol arnynt. Dylai'r Llywodraeth gynnal adolygiad o fodelau sy'n galluogi'r heddlu i gronni adnoddau gydag asiantaethau cyhoeddus eraill, a hwyluso'r trefniadau hyn lle y byddent yn galluogi ymateb mwy cydgysylltiedig, effeithiol a chost-effeithlon.

f. Tynnodd llawer o dystion sylw at yr heriau a achoswyd gan y dull tymor byr o ariannu'r heddlu. Mae hwn yn rhwystr diangen i fuddsoddi mewn arloesi, ac mae'n datgymell cynllunio ariannol tymor canolig a thymor hir. Dylai'r Llywodraeth symud tuag at strwythur ariannu tymor hwy, er mwyn galluogi'r gwasanaeth i flaenoriaethu buddsoddiad yn y dechnoleg a fydd yn ei alluogi i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau a'i asedau. Mae Cronfa Trawsnewid yr Heddlu yn ddull tameidiog ac ad hoc o ariannu arloesedd a thechnoleg newydd ym maes plismona, ac mae angen dull gweithredu hirdymor sy'n llawer mwy cydgysylltiedig."

6.3 Ym mis Medi 2018, rhyddhawyd adroddiad cynaliadwyedd ariannol ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG). Yn 2015, roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi adrodd yn flaenorol ar gynaliadwyedd ariannol yr heddluoedd a daeth i'r casgliad canlynol: *'Roedd bylchau sylweddol yn nealltwriaeth yr Adran o'r galw a'r pwysau ar y gwasanaeth, ac roedd rhaid iddi fod yn fwy cyfarwydd â'r rheini er mwyn cyflawni ei dyletswyddau o oruchwylio'r heddlu a dosbarthu cyllid'.*

6.3.1 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai ffigurau llwm iawn mewn perthynas â'r toriadau a'r prosesau haenen uchaf sydd wedi effeithio'n ddybryd ar wasanaethau plismona a'r ddibyniaeth gynyddol ar gyllid lleol, ac mae'n tynnu sylw at yr anghyfartalwch rhwng gallu heddluoedd i godi incwm drwy'r praesept. Mae'r cyllid cyfalaf a gaiff heddluoedd yn fach iawn erbyn hyn, gyda'r gwasanaeth yn dibynnu fwyfwy ar werthu tir ac asedau i ariannu gwariant cyfalaf newydd, ac mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn nodi nad yw hyn yn gynaliadwy.

6.3.2 Gwnaeth yr adroddiad bum argymhelliad:

1. *"Dylai'r Adran egluro'r holl gysylltiadau a phrosesau atebolrwydd ar gyfer plismona, gan nodi pwy sy'n atebol am beth ar bob lefel o'r system.*

2. *Dylai'r Adran ddatblygu dealltwriaeth barhaus gliriach o b'un a yw cyllid heddluoedd yn ddigonol i'w cefnogi i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol.*

3. *Dylai'r Adran adolygu'r fformiwla ariannu a mabwysiadu dull o ariannu sy'n ystyried amgylchiadau lleol heddluoedd yn decach.*

4. *Dylai'r Adran ddatblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer plismona sy'n cynnwys meddwl yn glir am sut mae ei rhaglenni cymorth, megis Cronfa Trawsnewid yr Heddlu (CTH), yn cyfrannu at sefyllfa ariannol yr heddluoedd.*

5. *Wrth ddatblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer plismona, dylai'r Adran nodi pa rai o'i pholisïau a'i rhaglenni sydd orau i'w cyflawni'n lleol a pha rai sydd orau i'w cyflawni'n genedlaethol a'u neilltuo i gyrff sydd â'r gallu i'w cyflawni."*

6.3.3 Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod dull gweithredu'r Swyddfa Gartref - lle nad oes rhan fawr ganddynt yn y gwaith - yn peri ansicrwydd bod y trefniadau ariannu presennol yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Ar ben hynny, nid oedd gan y Swyddfa Gartref gynllun hirdymor ar gyfer plismona a gwelwyd bylchau sylweddol yn y wybodaeth am y galw am wasanaethau plismona a'r costau cysylltiedig. Mae'r ffordd y mae'r Swyddfa Gartref yn dosbarthu cyllid wedi bod yn rhy wahanedig oddi wrth natur plismona am gyfnod rhy hir, yn enwedig o ran yr oedi gyda'r adolygiad fformiwla. Felly, daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r

casgliad nad oedd goruchwyliaeth y Swyddfa Gartref o'r system heddlu yn sicrhau gwerth da am arian.

6.4 Mae adroddiad Prif Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 54(4A) o Ddeddf yr Heddlu 1996 yn cynnwys ei asesiad o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar arolygiadau a gynhaliwyd gennym rhwng mis Mai 2019 a mis Mawrth 2020. Mewn perthynas â chyllid yr heddlu, mae'r adroddiad yn nodi:

6.4.1 "Mae cyfyngiadau eraill yn gysylltiedig â'r cyllid ar gyfer recriwtio. Mae'r rhain yn cynnwys ei natur gymharol fyrdymor a threfniadau ariannu ehangach yr heddlu - mae'r fformiwla ar gyfer hyn yn parhau i ddenu cryn feirniadaeth. Mae problemau dwfn gyda'r fformiwla ariannu, nad yw'r cyllid recriwtio yn mynd i'r afael â hwy. Dylai'r Swyddfa Gartref adolygu'r fformiwla ariannu.

6.4.2 "Rwyf wedi dweud o'r blaen fod cyllid tymor byr yn broblem i'r heddlu. Rhaid i heddluoedd gydbwyso buddsoddiad cyfalaf newydd, tymor hwy (er enghraifft, mewn gallu technolegol) gyda chyllid tymor byrrach ar gyfer gwasanaethau rheng flaen. Rhaid i arweinwyr wneud dewisiadau anodd yn aml. Gall hyn olygu bod yn rhaid blaenoriaethu gwasanaethau hanfodol neu orfodol ar draul rhai eraill, llai brys.

6.4.3 "Un o effeithiau annymunol trefniadau ariannu tymor byr yw'r ffordd y maent yn aml yn rhwystro buddsoddiad newydd a thymor hwy. O ganlyniad, mewn rhai meysydd, yn enwedig technoleg, mae plismona ar ei hôl hi o gymharu â rhai rhannau eraill o gymdeithas.


6.4.4 "Mae cyllid tymor byr hefyd yn llesteirio datblygiad sefydliadol mewn meysydd eraill, fel unedau lleihau troseddau treisgar ar lefel heddluoedd ac unedau troseddu trefnedig ar lefel ranbarthol. Mae unedau o'r math hwn yn aml yn dibynnu ar gyllid blynyddol penodol sydd ar gael ar gyfer prosiectau penodol. Mae'n sicr bod angen trefniadau ariannu mwy cynaliadwy. Gellid eu gweithredu ar ffurf rhaglenni treigl tair blynedd, er enghraifft, a'u haddasu bob blwyddyn. Byddai hyn yn gymorth enfawr i gynllunio strategol.

6.4.5 "Mae heddluoedd hefyd yn wynebu ansicrwydd ynghylch costau oedi wrth ddarparu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys newydd. Bydd y rhaglen hon sydd werth £9.3 biliwn yn disodli ac yn uwchraddio systemau cyfathrebu symudol yr heddlu a gwasanaethau brys eraill, ond mae oedi o dair blynedd o ran ei gweithredu. Tan fis Rhagfyr 2022, ni fydd gwasanaeth yr heddlu yn gallu gwneud yr enillion effeithlonrwydd disgwyliedig o'r system newydd. Ac, yn y cyfamser, mae o leiaf un heddlu yn dweud ei fod wedi gorfod disodli hen galedwedd radio gyda chaledwedd newydd ond wedi dyddio, er mwyn parhau i weithio ar y system bresennol. Mae'r rhain yn risgiau ariannol a gweithredol mawr.

## 7 Ymagwedd at Bennu'r Gyllideb a'r CATC ar gyfer 2021/22

7.1 Mae gwaith wedi'i wneud yn ystod 2020 i ddatblygu'r broses o bennu'r gyllideb ymhellach. Mae'r dull hwn wedi gweld Cyllid Corfforaethol yn gweithio'n agosach gyda rheolwyr gwasanaethau a deiliaid cyllidebau i gostio'r blaenoriaethau a geir yn y DRhH, gan adolygu cyllidebau llinell sylfaen er mwyn asesu'r galw a'r pwysau yn fwy beirniadol gan hefyd chwilio am arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cyffredinol. Mae'r berthynas rhwng monitro ariannol a gosod cyllidebau yn ystod y flwyddyn yn parhau i gryfhau.

**Llun 1 – Cyswllt rhwng DRhH a’r CATC**




7.2 Mae'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a’r Dyfodol a Grŵp CATC, gyda'r strwythur llywodraethu ffurfiol, wedi parhau i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r dull hwn gyda chynllunio ariannol yn ffocws allweddol i'r Grŵp Ystadau Strategol/Grŵp Ystadau Gweithredol, y Grŵp Strategaeth TG a Grŵp Strategaeth Fflyd.

7.3 Mae'r defnydd o ddata meincnodi proffil Gwerth am Arian (GAA) CIPFA ac AHGTAEM yn dechrau datblygu a bydd yn parhau dros y flwyddyn nesaf gan fod hyn yn cael ei ystyried yn hanfodol i helpu i asesu ystyriaethau galw a gwerth am arian.

7.4 Mae'r tabl canlynol yn darparu rhywfaint o ddata meincnodi a chymaryddion lefel uchel ar gyfer 2020/21 a bydd gwaith yn parhau o ddifrif i adolygu a deall yr amrywiaeth o ffactorau y bydd angen eu hystyried yn ofalus.

**Tabl 2: Data Meincnodi Dadansoddiadau Gwrthrychol yr Heddlu**

| Service Heading | Budgeted Establishment 20/21 Officers | PCSO | Staff | Toytal Employees | Special Constables | Volunteers | Total People | Net Spending | Proportion | English Non Met Forces | Difference |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | FTE | FTE | FTE | FTE | FTE | FTE | FTE | £'000 | % | % | £M |
| Response and Neighbourhoods | 668 | 148 | 249 | 1,066 | 129 | 27 | 1,222 | 45,472 | 40 | 41 | 0.7 |
| Investigations | 133 | 0 | 10 | 143 | 0 | 1 | 144 | 10,075 | 9 | 10 | 1.3 |
| Custody | 44 | 0 | 37 | 81 | 0 | 0 | 81 | 5,784 | 5 | 3 | -2.3 |
| Criminal Justice | 3 | 0 | 85 | 88 | 0 | 0 | 88 | 2,261 | 2 | 2 | 0.0 |
| Specialist Investigations | 50 | 0 | 73 | 124 | 0 | 6 | 130 | 8,158 | 7 | 8 | 1.4 |
| Protecting Vulnerble People / Monitoring Offenders | 54 | 0 | 32 | 86 | 0 | 3 | 89 | 4,535 | 4 | 5 | 1.5 |
| Firearms Units | 47 | 0 | 0 | 47 | 0 | 0 | 47 | 3,748 | 3 | 2 | -1.7 |
| Traffic | 72 | 0 | 2 | 74 | 0 | 0 | 74 | 4,562 | 4 | 1 | -3.1 |
| HQ Operationa Support | 51 | 0 | 11 | 62 | 0 | 3 | 65 | 2,211 | 2 | 2 | -0.3 |
| Support Services | 61 | 0 | 244 | 305 | 0 | 36 | 341 | 23,283 | 21 | 20 | -0.2 |
| Central and Other Costs (Including Seconded) | 27 | 0 | 36 | 63 | 0 | 75 | 138 | 2,822 | 2 | 5 | 2.7 |
| | **1,212** | **148** | **780** | **2,139** | **129** | **151** | **2,419** | **112,910** | **100** | **100** | **-0.0** |

7.5 Mae gwaith wedi parhau ar lefel leol a chenedlaethol i sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion effeithlonrwydd helaeth drwy broses drylwyr o waith craffu a thrawsnewid ariannol ac o ran darparu gwasanaethau. Mae'r cynllun Effeithlonrwydd wedi sicrhau £30.7m ers 2010/11. Mae'r gwaith hwn yn parhau o ddifrif dan reolaeth y Grŵp CATC.

7.6 Fel rhan o'i gwaith ar yr Adolygiad o Wariant, ymgymerodd y Swyddfa Gartref ag ymarfer cynhwysfawr ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn ystod 2020. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Awst 2020, gan ddarparu dadansoddiad defnyddiol iawn o'r darlun ar draws y maes plismona a chaniatáu gwaith croesgyfeirio mewnol i sicrhau bod yr holl gyfleoedd yn cael eu hystyried a'u cymryd:

- Pa raglenni technoleg / newid lleol sydd ar y gweill yn eich heddlu / ar lefel ranbarthol / ar y cyd â heddluoedd eraill?
- Yn ystod y tair / pedair blynedd nesaf, ble ydych chi'n gweld y prif gyfleoedd cynhyrchiant i swyddogion yn eich heddlu?
- Ble mae'r cyfleoedd i gynyddu defnydd a / neu effeithiolrwydd SCCHau, Cwnstabliaid Gwirfoddol a Staff Sifil Gweithredol i ryddhau capasiti swyddogion yr heddlu?
- Ble mae'r cyfleoedd i gynyddu cynhyrchiant, effeithiolrwydd a / neu leihau costau o fewn swyddogaethau cymorth a swyddfa gefn eich heddlu?
- Beth yw'r cyfleoedd mwyaf arwyddocaol i leihau gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau o fewn eich heddlu – safleoedd, trafnidiaeth, cyflenwadau / gwasanaethau, TGCh, contractau eraill?
- Beth yw'r addasiadau a'r newidiadau i ffyrdd o weithio yn ystod yr ymateb Covid y dylid eu cadw wrth symud ymlaen?
- Beth yw'r meysydd cydweithredu eraill a allai ysgogi cynhyrchiant a manteision o ran lleihau costau – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol? Beth yw'r ffactorau sy'n llesteirio cydweithredu?

- Beth yw'r cyfleoedd incwm ychwanegol ar gyfer eich heddlu?
- A oes unrhyw alluogwyr neu gyfyngiadau mawr i'w goresgyn wrth geisio sicrhau'r manteision hyn o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd?

7.7 Gwnaed ymdrechion sylweddol i gryfhau'r ffocws a'r cysylltiad rhwng yr DRhH a'r CATC. Gweithiodd Cyllid Corfforaethol gydag arweinwyr gwasanaethau i gostio risgiau a nodwyd yn yr DRhH. Yna cynhaliodd y Prif Swyddogion Ddiwrnod Blaenoriaethu ar 10 Tachwedd i adolygu a herio'r blaenoriaethau RAG presennol yr aseswyd eu risg ymhellach. Roedd y sesiynau wedi'u strwythuro gydag arweinwyr gwasanaeth yn paratoi ar y sail ganlynol:

- Disgrifiad byr o'r risg
- Amlinelliad o'r costau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r risg
- Opsiynau amgen y gellir eu hystyried/a ystyriwyd
- Amserlen ar gyfer rhoi'r cam gweithredu ar waith / ysgwyddo'r costau
- Rhestr o fanteision ymgymryd â'r cam gweithredu hwn
- Rhestr o ganlyniadau/risgiau gohirio gweithredu i 22/23 neu'n hwyrach
- Pam y dylai/y byddai'r cyhoedd yn fodlon talu mwy o Dreth Gyngor am y gwasanaethau ychwanegol hyn

7.8 Cynhaliodd y Tîm Cyllid Corfforaethol hefyd gyfres o sesiynau hyfforddi allanol a ddarparwyd gan CIPFA i wella eu sgiliau partneru busnes cyllid er mwyn cefnogi'r sefydliad yn well o safbwynt strategol a gweithredol, gwella'r berthynas â rheolwyr gwasanaethau a pharhau i ddatblygu sgiliau ymwybyddiaeth a rheoli ariannol ar draws y sefydliad.

7.9 Gosodwyd amserlen gynhwysfawr i lywio'r gwaith o baratoi'r Gyllideb a'r CATC, sydd hefyd yn cynnwys sesiynau adolygu, herio a chraffu amserol rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyda chefnogaeth gan y Cyfarwyddwr Cyllid (CC) a'r Prif Swyddog Cyllid (PSC). Cynhaliwyd y cyfarfodydd ffurfiol hyn ar 20 Hydref, 19 Tachwedd, 21 Rhagfyr a 7 Ionawr gan ystyried set fanwl o wybodaeth ariannol, gyda phob sesiwn yn caniatáu mireinio pellach. Mae'r gwaith paratoi cynnar hwn yn caniatáu i'r cyflwyniad yn y Seminar Cyllid ar 5 Rhagfyr fod â mwy o ffocws. Mae trafodaethau a chyfarfodydd ad hoc hefyd yn digwydd wrth i faterion godi neu yn wir ar ôl i gyhoeddiadau am gyllid ddigwydd.

## 8 Setliad Cyllid yr Heddlu ar gyfer 2021/22

8.1 Cyhoeddodd y Gweinidog Plismona, Kit Malthouse, Setliad Cyllid dros dro yr Heddlu ar gyfer 2021/22 ar 17 Rhagfyr mewn datganiad ysgrifenedig. Gellir dod o hyd i fanylion llawn y setliad ar dudalennau'r Swyddfa Gartref ar wefan gov.uk. Mae'r setliad blwyddyn hwn wedi'i osod yng nghyd-destun anawsterau economaidd difrifol oherwydd y Pandemig Covid-19 parhaus yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch Brexit. Roedd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y DU ar gyfer y flwyddyn wedi gostwng 11.3%, sef y dirwasgiad mwyaf a gofnodwyd erioed.

8.2 Yna, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Setliad ar gyfer Comisiynwyr yng Nghymru ar yr un diwrnod.

8.3 Mewn llythyr, yn amlinellu'r setliad, cydnabu'r Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog ddewrder ac ymrwymiad eithriadol gwasanaethau'r heddlu i wasanaeth cyhoeddus ynghyd â'r cyflymder a'r hyblygrwydd a ddangosodd swyddogion a staff yr heddlu wrth ymateb i'r heriau digynsail a achoswyd gan bandemig Covid-19. Roeddent hefyd yn cydnabod y cynnydd da yr oedd heddluoedd wedi'i wneud ym mlwyddyn gyntaf Rhaglen Uplift yr Heddlu ynghyd â'u disgwyliad i weld y momentwm yn parhau i mewn i'r ail flwyddyn o gyflawni'r rhaglen.

8.4 Roedd y setliad ariannu hefyd yn nodi pedwar maes blaenoriaethol i hybu effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac effeithiolrwydd gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd drwy gaffael ar y cyd, gwella cynhyrchiant drwy ddefnyddio datrysiadau technolegol, sicrhau'r gwerth gorau ar wariant technoleg yr heddlu a sicrhau bod heddluoedd yn cyflawni eu targedau recriwtio ar gyfer 2020/21.

8.5 Mae setliad 21/22 yn darparu cyfanswm o hyd at £15.8 biliwn ar gyfer plismona, gyda chyllid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cynyddu hyd at £703m ychwanegol, gan gynnwys yr hyblygrwydd lleol i gynyddu praesept y dreth gyngor:

- cynnydd o £415m yng nghyllid grant y Llywodraeth. Bydd yr arian ychwanegol hwn yn cefnogi blwyddyn 2 Rhaglen Uplift yr Heddlu gyda £100m yn cael ei neilltuo a'i ddyrannu yn ôl cyfranddaliadau fformiwla ariannu a'i dalu yn unol â'r cynnydd o ran recriwtio
- Hyd at £288m o gyllid ychwanegol o braesept y dreth gyngor, os bydd pob CHTh yn gwneud y mwyaf o'u hyblygrwydd o £15 ar gyfer eiddo sy'n cyfateb i Fand D.
- Disgwyliadau i adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant, gyda £120m o arbedion effeithlonrwydd i'w cyflawni ar draws sector gorfodi'r gyfraith.
- £1.1 biliwn ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol, cyllid adnoddau a chyfalaf, gan gynnwys ariannu'r frwydr yn erbyn troseddau difrifol a threfnedig gan gynnwys masnachu mewn cyffuriau a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant, gan geisio diogelu'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol er mwyn sicrhau ymateb cydlynol i orfodi cyfraith genedlaethol, ranbarthol a lleol.
- Parhad y Grant Pensiynau, sy'n aros ar £142.6m, ac nad yw wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu rhagolygon newydd.
- Cyllid o £914m ar gyfer gwrthderfysgaeth, yn ogystal â £32m ychwanegol ar gyfer Canolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth newydd, gyda'r buddsoddiad parhaus hwn yn ceisio sicrhau y gall y DU ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i gadw'r wlad yn ddiogel rhag amrywiaeth o fygythiadau, lle bynnag y maent yn digwydd.

8.6 Yn 2020-21 cyfanswm yr haenau uchaf/ailddyraniadau yw £1.033.5bn, £87.4m yn is na'r llynedd (£1.120bn). Yn bennaf, daw'r gwahaniaeth hwn o ostyngiad o £26m mewn grant arbennig, gostyngiad o £52m yn yr ychwanegiadau i Asiantaethau Troseddu Cenedlaethol (NCAs) ac Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol (ROCUs) (mae'n werth nodi mai dim ond i ROCUs y mae'r swm ychwanegol hwn bellach yn berthnasol), gostyngiad o £14m yn rhaglenni technoleg yr Heddlu a gostyngiad o £8m yn y rhaglenni Gallu Cenedlaethol.

**Tabl 3: Cyllid Cenedlaethol yr Heddlu – Ailddyraniadau/ Addasiadau**

| Police Funding | 2018/19 £m | 2019-20 £m | 2020-21 £m | 2021-22 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Reallocations and adjustments** | **945** | **1,029** | **1,120.90** | **1,033.50** |
| PFI | 73.0 | 73.0 | 72.8 | 71.6 |
| Police technology programmes | 495.0 | 495.0 | 498.4 | 484.7 |
| Arm's length bodies | 63.0 | 63.0 | 73.1 | 70.5 |
| Police Uplift Programme | | | 16.5 | 14.5 |
| National Operational Policing Units (including football policing and wildlife crime) | | | 2.9 | 2.9 |
| Top-ups to NCA and ROCUs | - | 56.0 | 56.8 | 4.9 |
| Strengthening the response to Organised Crime | 42.0 | 90.0 | 140.0 | 146.3 |
| Counter Terrorism | | | 32.4 | 32.5 |
| Police transformation fund | 175.0 | 175.0 | | |
| National Capability Programmes | | | 47.0 | 38.7 |
| Forensics | | | 28.6 | 25.6 |
| Special Grant | 93.0 | 73.0 | 80.9 | 54.8 |
| Pre-charge bail | 4.0 | 4.0 | 2.0 | 2.0 |
| Serious Violence | - | - | 38.9 | 38.9 |
| PRUM (Transition from EU Systems) | - | - | 1.8 | |
| HO STAR (Science Technology & Research) | - | - | 8.0 | |
| Blue Light Commercial | - | - | 3.7 | 5.0 |
| Police Now | | | 7.0 | 7.0 |
| Safer Streets Fund | | | 10.0 | 20.0 |
| Science Tecniology and Research | | | | 5.2 |
| International Crime Coordination Centre | | | | 5.0 |
| National Policing Capabilities (NPCC) | | | | 3.2 |

8.7 Mae Grantiau Cyfalaf yr Heddlu bellach yn cyrraedd cyfanswm o £76m ond dim ond £12.3m fydd yn cael ei ddyrannu'n lleol - o gymharu â £46.9m yn 2019-20 (gostyngiad o 74%). Mae'r Datganiad gan y Gweinidog yn cyfeirio at hyn fel "ailgydbwyso" gan ychwanegu y gall y Comisiynwyr wario eu hincwm refeniw yn hyblyg.

**Tabl 4 – Dyraniadau Grant Cyfalaf Cenedlaethol yr Heddlu**

| 2021-22 | £m |
|---|---|
| Police Capital Grant | 12.3 |
| Police Live Services | 9.2 |
| National Police Air Service | 11.5 |
| Arms Length Bodies | 4.0 |
| Police Technology Programmes | 15.0 |
| Counter Terrorism | 1.6 |
| Serious and Organised Crime Programmes | 9.0 |
| Football Policing | 2.0 |
| **TOTAL** | **64.6** |

8.8 Nid oedd y setliad yn cynnwys unrhyw sôn pellach am setliadau yn y dyfodol.

8.9 Daw cyllid dioddefwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ni ddisgwylir cyhoeddiadau tan yn ddiweddarach ym mis Ionawr 2021. Disgwylir i'r cyllid ychwanegol o £55k i gefnogi Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol barhau tan fis Mawrth 2022, a fyddai'n gweld cyfanswm y cyllid yn cael ei gynnal ar £661k ar gyfer 2020/21.

8.10 Mae'r setliad yn nodi disgwyliadau'r Llywodraeth i'r heddlu barhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed o ran gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn gyfnewid am y cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad, yn benodol:

- 6,000 yn rhagor o swyddogion – ar ben y gyfran gyntaf o 6,000 i'w recriwtio yn 2020/21 – i'w recriwtio erbyn diwedd mis Mawrth 2022. Bydd y Llywodraeth yn diogelu £100m o'r cyllid ar gyfer y broses recriwtio, a thelir hyn i heddluoedd yn unol â'u cynnydd o ran recriwtio.

- £120m o arbedion effeithlonrwydd o bob rhan o sector gorfodi'r gyfraith – sy'n cael eu hadlewyrchu yn y cyllid a nodir fel rhan o'r setliad – a ddarperir yn 2021/22. Disgwyliwn i'r rhain gael eu cyflawni drwy gyfuniad o arferion caffael gwell (gan gynnwys darparu £20m o arbedion drwy BlueLight Commercial) yn ogystal ag arbedion mewn meysydd fel ystadau, gweithio ystwyth a gwasanaethau a rennir/gwasanaethau galluogi. Disgwyliwn i'r sector plismona weithio gyda'r Swyddfa Gartref i sefydlu a chefnogi Bwrdd Effeithlonrwydd mewn Plismona newydd. Bydd y Bwrdd yn gwella'r sylfaen dystiolaeth ar arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd hyd yma, yn nodi cyfleoedd ar gyfer enillion dros y cyfnod hwn a chyfnodau Adolygu Gwariant yn y dyfodol, yn rhannu arferion gorau mewn perthynas â chyflawni arbedion effeithlonrwydd, ac yn monitro ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni enillion

- Mae angen i blismona sicrhau bod data o ansawdd uchel yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi darpariaeth leol, nodi arbedion effeithlonrwydd a chefnogi ymgyrch y Bwrdd Plismona Cenedlaethol i sicrhau'r canlyniadau plismona gorau posibl i'r cyhoedd. Bydd y Swyddfa Gartref a'r NPCC yn dwyn ynghyd mewn un ddogfen eu strategaethau, eu cynlluniau a'u mentrau ar gyfer gwella'r broses o gasglu a defnyddio data ar draws y sector a chyda phartneriaid cyflawni allweddol megis asiantaethau cyfiawnder troseddol.

8.11 Ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys amlinellir setliad 2021/22 yn y tabl isod:

**Tabl 5: Cyfanswm y Gyllideb ar gyfer 2021/22**

| | 2020/21 | 2021/22 | Change | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | % |
| Core Police Grant including rule 1 and floor funding | 40.967 | 44.497 | 3.530 | 8.6% |
| Welsh Government - RSG & NNDR | 13.150 | 13.030 | -0.120 | -0.9% |
| **Central Funding** | **54.116** | **57.527** | **3.411** | **6.3%** |
| **Pensions Grant** | **1.302** | **1.302** | **0.000** | **-** |
| **Uplift Grant** | **1.190** | **0.700** | **-0.490** | **-41.2%** |
| **Total** | **56.608** | **59.529** | **2.921** | **5.2%** |

8.12 Yn Lloegr, mae cyllid ychwanegol o £670m wedi'i gyhoeddi ar gyfer Grant Cymorth y Dreth Gyngor Leol i gefnogi awdurdodau lleol i liniaru effeithiau Covid-19 ar eu cronfeydd casglu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i Gymru.

8.13 Fel ardal ddatganoledig, derbyniodd Llywodraeth Cymru £766m ar gyfer 2021/22 ar gyfer symiau canlyniadol y cyhoeddiadau gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn Lloegr. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eto a fydd unrhyw fesurau lliniaru ond mae wedi dweud ei bod yn monitro cynllun rhyddhad y dreth gyngor a chyfraddau casglu yn ofalus gyda CLILC bob chwarter. Bydd sylwadau'n parhau i gael eu cyflwyno i sicrhau bod yr effaith ar blismona yn cael ei chydnabod. Gweler adran 11 am ragor o fanylion am yr effaith ar Heddlu Dyfed-Powys.

8.14 Mae'r setliad drafft a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr yn nodi "mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn yn ein hymdrechion parhaus i ymateb i'r pandemig a lliniaru effaith y pandemig. Er bod gennym obaith yn awr drwy'r brechlynnau, erys llawer o ansicrwydd ynghylch yr union lwybr y bydd y pandemig yn ei gymryd a'r effeithiau y bydd hyn yn parhau i'w cael ar ein gwasanaethau cyhoeddus a'r economi ehangach i'r flwyddyn nesaf. Er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n ymateb orau i'r heriau newidiol yn sgil y

pandemig, mae'n ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn awr a bwriadwn wneud dyraniadau pellach o'r cyllid hwn yn y Gyllideb derfynol, gan ein bod yn deall yn well effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd. Yn benodol, byddwn yn ystyried pa gyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r GIG a llywodraeth leol wrth iddynt sefyll ar flaen ein hymateb i'r pandemig.

## 9 Refferendwm/Capio'r Dreth Gyngor

9.1 Yn Lloegr, mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi egwyddorion refferendwm treth gyngor. Yn 2021/22 caniateir i Gomisiynwyr yn Lloegr gynyddu biliau band D o gymaint â £15 heb orfod galw am refferendwm lleol. Mae'r setliad dros dro wedi tybio bod Comisiynwyr yn manteisio ar yr hyblygrwydd hwn yn y prif ffigurau.

9.2 O dan drefniadau datganoli ar gyfer Cymru, mae'r pŵer i bennu lefelau capio ar y dreth gyngor yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru.

9.3 Mae dau fath o gapio – dynodiad ac enwebiad. Gall Llywodraeth Cymru ddynodi neu enwebu Awdurdod i gapio eu praesept os yw'n ystyried bod y gofyniad cyllideb yn ormodol.

9.4 Mae dynodiad yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod leihau ei ofynion cyllideb ac –ailfilio'r rhai sy'n talu'r Dreth Gyngor (drwy'r Awdurdodau Unedol). Mae enwebu, i bob diben, yn hysbysu Awdurdod y bydd Llywodraeth Cymru yn pennu terfyn cyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r meini prawf (yr egwyddorion) ar gyfer capio pob Awdurdod Lleol a Heddlu yng Nghymru. Rhaid i'r egwyddorion gynnwys cymhariaeth rhwng y gofyniad cyllidebol a gyfrifwyd â'r hyn a gyfrifwyd ar gyfer blwyddyn ariannol flaenorol. Yn yr egwyddorion, gall Gweinidogion gynnwys unrhyw faterion eraill sydd yn berthnasol yn eu tyb hwy.

9.5 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cyfathrebu'n effeithiol â Gweinidogion a Llywodraethau Cymru yn 2020, a welodd ymgorffori Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ymhellach, gyda'r Comisiynydd yn cadeirio Plismona yng Nghymru tan fis Gorffennaf 2020. Mae hyn, ynghyd â chryfhau perthynas Uned Cyswllt yr Heddlu wedi rhoi cyfle gwerthfawr ac ychwanegol i dynnu sylw at y pwysau ariannol a'r gofynion gweithredol sy'n wynebu Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth heddlu ehangach yng Nghymru, ac yn wir mae digwyddiadau 2020 wedi dangos esiampl o'r berthynas hon.


9.6 Mae'n fater i'r Comisiynwyr sy'n atebol yn lleol ymgynghori a gwneud penderfyniadau ar braesept lleol gan egluro i'w hetholwyr sut y bydd buddsoddiad ychwanegol yn helpu i ddarparu gwasanaeth heddlu gwell.

## 10 Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannol a'r Praesept Heddlu

10.1 Gwelodd Heddlu Dyfed-Powys ostyngiadau o 21% mewn cyllid grant, neu £13m rhwng 2010/11 a 2019/20, gyda chyllid ychwanegol yn cael


ei dderbyn yn 2020/21 i gefnogi ymrwymiadau'r Llywodraeth, fel y dangosir isod:

**Graff 6: Cyllid Grant 2010/11 i 2020/21**




10.2 Mae'r graff canlynol yn dangos sut mae'r gyfran o incwm y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei derbyn o ffynonellau canolog o'i chymharu â ffynonellau lleol wedi newid dros amser:

**Graff 7: Cyfran Praesept y Dreth Gyngor i Gyllid Llywodraeth Ganolog %**





10.3 Yn hanesyddol, cyllid canolog sydd wedi darparu'r rhan helaethaf o gyllid Heddlu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae'r gyfran a dderbynnir gan

ffynonellau canolog wedi lleihau'n sylweddol dros amser ac am y tro cyntaf yn 2018/19, roedd cyllid lleol yn fwy na chyllid canolog. Cynyddodd y ganran o drethiant lleol ar gyllid canolog i 52.1% ar gyfer 2020/21 gyda £58.793m yn cael ei godi'n lleol yn erbyn cyllid craidd o £54.116m. Bydd y rhaniad cyfrannol neu'r 'gerio' yn parhau i gynyddu wrth i'r cyllid gael ei fodloni fwyfwy gan drethdalwyr lleol.

10.4 Mae'r graff canlynol yn dangos (mewn £miliynau) swm y cyllid y mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ei dderbyn o ffynonellau lleol a chanolog dros amser:

**Graff 8: Y Praesept Treth Gyngor i Gyllid Grant Canolog £**





10.5 Mae'r tabl canlynol yn dangos bod y cyllid grant craidd y pen ar gyfer Dyfed-Powys yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru:

**Tabl 7: Cyllid Grant Craidd y pen**

| Grant Funding per head of population (£) | 2019/20 | 2020/21 | % |
|---|---|---|---|
| Dyfed Powys Police | 97.57 | 104.88 | 7.5 |
| Gwent Police | 124.82 | 134.15 | 7.5 |
| North Wales Police | 105.40 | 113.29 | 7.5 |
| South Wales Police | 121.98 | 131.11 | 7.5 |
| **Wales** | **114.77** | **123.36** | **7.5** |

10.6 Mae trigolion Dyfed-Powys wedi gweld y cynnydd isaf namyn pump yn y Praesept Heddlu band D ers 2012/13 fel y dangosir isod:

**Graff 9: % Cynnydd Praesept Band D yn Genedlaethol**




*nid yw hyn yn cynnwys grant Rhewi'r Dreth Gyngor ar gyfer Lloegr


10.7 Trigolion Dyfed-Powys sydd â'r Praesept Heddlu isaf yng Nghymru:

**Tabl 8: Lefelau Praesept yng Nghymru**

| Council Tax at Band D (£) | 2019/20 | 2020/21 | % |
|---|---|---|---|
| Dyfed Powys Police | 248.56 | 260.56 | 4.8 |
| Gwent Police | 255.53 | 272.96 | 6.8 |
| North Wales Police | 278.10 | 290.61 | 4.5 |
| South Wales Police | 257.52 | 272.71 | 5.9 |
| **Wales** | **260.44** | **260.44** | **5.5** |


10.8 Mae'r graff canlynol yn dangos y newid yn y lefelau praesept ar gyfer heddluoedd Cymru ers 2012/13.

**Graff 10: Cynnydd yn y lefelau Praesept ledled Cymru**




10.9 Dangosir canran y newid mewn lefelau praesept ar gyfer heddluoedd Cymru o flwyddyn i flwyddyn yn y graff canlynol.

**Graff 11: Y newidiadau i'r praesept o Flwyddyn i Flwyddyn ledled Cymru yn ôl canran**




## 11 Sylfaen y Dreth Gyngor

11.1 Pennir Praesept yr Heddlu, a godir drwy dalwyr y Dreth Gyngor lleol, i'r cynghorau bilio ar sail y sylfeini treth perthnasol a hysbysir ganddynt. Cyfrifir y sylfaen dreth o nifer yr eiddo ym mhob ardal a bennir i bob band eiddo, gyda gostyngiadau ar gyfer deiliadaeth sengl, y rhai nad ydynt yn talu, ac ati. Mae effaith pandemig Covid-19 wedi arwain at oblygiadau i awdurdodau lleol o ran eu rhagdybiaethau ynghylch cyfraddau casglu ac yn wir y ffactorau economaidd a datblygu, sy'n

cyfrannu at gyfrifo'r sylfaen drethu. Mynegir y sylfaen dreth fel band sy'n gyfwerth â Band D fel a ganlyn:

**Tabl 9: Lefelau'r Sylfaen Dreth**

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | variance |
|---|---|---|---|---|
| Carmarthenshire | 72,440.46 | 74,006.63 | 74,425.19 | 0.6% |
| Ceredigion | 31,648.30 | 31,936.27 | 31,911.26 | -0.1% |
| Pembrokeshire | 56,055.84 | 57,301.64 | 57,188.46 | -0.2% |
| Powys | 62,123.50 | 62,396.70 | 62,584.26 | 0.3% |
| Taxbase | **222,268.10** | **225,641.24** | **226,109.17** | **0.2%** |
| | 0.3% | 1.5% | 0.2% | |

11.2 Bydd y Praesept Heddlu'n cael ei ychwanegu at y ffigurau ar gyfer yr Awdurdodau Unedol a bydd yn ffurfio rhan o filiau galw cyffredinol y Dreth Gyngor.

11.3 O dan y rheoliadau, rhaid i'r awdurdod bilio benderfynu ar amserlen o randaliadau ar gyfer taliadau i'r awdurdodau praeseptu. Y cytundeb yw y bydd yr Awdurdodau Unedol yn talu'r Heddlu mewn 12 rhandaliad ar neu cyn diwrnod gwaith olaf pob mis.

11.4 Wrth gyhoeddi'r setliad heddlu, dylid nodi hefyd bod y Llywodraeth yn gwneud tybiaethau o ran newidiadau i'r sylfaen treth gyngor gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ar gyfer Cymru, tybiwyd y byddai cynnydd o 0.8%, fodd bynnag 0.2% yw'r cynnydd gwirioneddol ar gyfer Dyfed-Powys. Roedd CATC 2020/21 wedi tybio twf o 0.8%. Mae'r lefel is hon o gynnydd yn effeithio'n negyddol ar y ffigurau pennawd a gyhoeddwyd yn lleol ac yn genedlaethol o £368k i Heddlu Dyfed-Powys.

## 12 Materion Pensiynau Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu

12.1 Fel rhan o Brisiad Pensiynau 2016, cyhoeddodd Trysorlys ei Mawrhydi (TEM) 'Gyfarwyddiadau' Prisio Pensiynau Sector Cyhoeddus ar 6 Medi 2018, a fu'n fodd i gynyddu cyfradd Cyfraniad y Cyflogwr o 2019/20 ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Sector Cyhoeddus (gan gynnwys Cynllun Pensiwn yr Heddlu).

12.2 Mae effaith y Cyfarwyddiadau Prisio yn arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfraniad y cyflogwr ar gyfer swyddogion yr heddlu o 22.1% i 31%, er bod 24.2% wedi'i dalu ers yr ailbrisiad diwethaf. Aseswyd effaith y cynnydd hwn i fod yn £330m.

12.3 Gwnaed cyflwyniadau cenedlaethol a gwleidyddol mewn perthynas ag effaith y pwysau sylweddol ac annisgwyl hwn. Roedd y setliad terfynol ar gyfer 2019/20 yn cynnwys dwy elfen i liniaru'r effaith ariannol yn rhannol.

12.4 Dyrannwyd grant penodol newydd i bob Heddlu yn 2019/20, yn seiliedig ar gostau cyfartalog pensiynau swyddogion yr heddlu dros gyfnod o dair blynedd. Gosodwyd hyn ar £1.302m ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, er ei fod wedi gadael diffyg o £0.535 i'w dalu o'r cyllid refeniw. Mae'r grant penodol hwn wedi parhau yn 2021/22 ond mae'n rhaid nodi'r risg sydd mewn perthynas â'r ymrwymiad parhaus i'r grant penodol hwn.

12.5 Mae hefyd yn bwysig nodi bod ansicrwydd ynghylch goblygiadau ariannol dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos McCloud/Sargeant fod y broses amddiffyn wrth bontio yn rheoliadau Pensiwn y Farnwriaeth a Diffoddwyr Tân yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y llywodraeth ei bod yn derbyn bod y dyfarniad yn berthnasol i bob un o gynlluniau pensiwn y prif wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu.

12.6 Er y gallai gymryd tan yn ddiweddarach yn 2021 er mwyn penderfynu ar ateb terfynol, mae amcangyfrif actiwaraidd o'r effaith ariannol wedi'i gynnwys fel cost gwasanaeth a roddwyd ac mae'r effaith bosibl ar rwymedigaeth pensiynau wedi'i chynnwys yn y Fantolen a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020.

12.7 O ran Cynlluniau Pensiwn Llywodraethau Lleol ar gyfer Staff yr Heddlu, fel rhan o'r prisiad bob tair blynedd, cynyddwyd cyfradd cyfraniad y cyflogwr 1.2% o fis Ebrill 2020 er mwyn ystyried y costau ychwanegol rhagamcanol. O ran Cynllun Swyddogion yr Heddlu, mae'r broses brisio yn cael ei chychwyn yn 2020 ond nid oes disgwyl i newidiadau i gyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr swyddogion yr heddlu gael eu gweithredu tan 2023/24, ond gallai cyfraddau cyfrannu cyflogwyr godi i tua 45%.

## 13 Blaenoriaethau a Gofyniad Cyllideb ar gyfer 2021/22

13.1 Nod y gofyniad cyllidebol ar gyfer 2021/22 yw adeiladu ar y buddsoddiad sylweddol a wnaed yn 2020/21 sydd wedi arwain at rai cyflawniadau, gwelliannau a llwyddiannau mewn gwasanaethau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cam-drin Domestig a Bregusrwydd<br>• Newidiadau o ran Proses – Dan Arweiniad Cyfarwyddwr Cynorthwyol<br>• Desg Fregusrwydd / Asesiadau Risg / Hyfforddiant Staff Cynhwysfawr | Llwyr Weithredol |
| Plismona Bro<br>• Strwythurau cyson newydd ar draws yr Heddlu<br>• Ethos Datrys Problemau wedi'i ymgorffori gan gynnwys hyfforddiant<br>• Lleihau'r galw – cydbwysedd o resymoli gwelededd a datrys problemau | Llwyr Weithredol |

| | |
|---|---|
| Safonau Ymchwilio (Adolygiad o'r Broses o'r Dechrau i'r Diwedd)<br>• Hyfforddiant cynhwysfawr, ffocws goruchwylio | Yn parhau |
| Gwaith Galw<br>• Ymateb Cyflenwi, Ymchwiliadau, ymateb, traffig a Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu (CGH)<br>• Ailganoli cofnodi troseddau er mwyn cymryd gormodedd o ran galw o'r swyddogaeth hon<br>• Model canolfan / buddsoddi mewn Ymchwiliadau a Bregusrwydd<br>• Lleihau galw ac effeithlonrwydd rhagweledig sylweddol | Wedi'i gwblhau |
| Ymgyrch Uplift<br>• 82 o Swyddogion ychwanegol o fis Ionawr 20 hyd at fis Mawrth 22 | Ar y Trywydd Iawn |
| System Rheoli Cofnodion<br>• Caffael System Rheoli Cofnodion newydd a theledu cylch cyfyng | Caffael wedi'i Gwblhau – Cael ei weithredu Nawr |

13.2 Mae'r Heddlu wedi cael ei gydnabod a gall ddangos gwelliant sylweddol ar draws ystod o wasanaethau gan gynnwys y meysydd canlynol yn ystod 2020/21 mewn perthynas â ffocws:

- Buddsoddwyr mewn pobl – Gwobr Aur
- Prifysgol Durham - Canlyniadau'r Arolwg Staff
- 42 Swyddog Ychwanegol (88 o Recriwtiaid ers Ionawr 2020)
- Camau Gweithredu / Meysydd i'w Gwella AHEM - i lawr o 371 i 65
- Wedi'i ddewis fel Heddlu Peilot gan AHGTAEM ar gyfer Asesiad PEEL 2021
- Cwblhau Ymarfer Datblygu ac Arfarnu (YDA) i 98%
- Datganiad Rheoli'r Heddlu wedi'i Gwblhau gyda Chynllun Gweithredu
- Adolygiad o brosesau Llywodraethu'r Heddlu o ran effeithlonrwydd a lleihau biwrocratiaeth
- Ffocws ychwanegol ar wireddu buddion a rheoli risg
- Desg Cyfryngau Cymdeithasol / Digidol – wedi mynd yn fyw yn ddiweddar drwy "lansiad meddal"
- Adolygiad Troseddu o'r Dechrau i'r Diwedd yn parhau
- Cynnydd sylweddol yn erbyn y Strategaeth TG
    - Cartref Ar-lein Sengl / System Rheoli Cofnodion (RMS) / Camerâu Corff / Cyflwyno Dyfais Data Symudol / Cyflwyno Office 365 / Swyddog Buddion / Gweithio'n Glyfrach e.e. hwb bregusrwydd

13.3 Ochr yn ochr â hyn bu'n rhaid i'r Heddlu hefyd ymdopi â heriau a phwysau gweithredol sylweddol gan gynnwys:


- Ymgyrch Carlston – Llofruddiaeth
- Canolfan Ceiswyr Lloches - Penalun – Protestiadau / protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys
- Rêfs HDC – Cymorth Cydfuddiannol / Llwyddiant HDP wrth frwydro cyffuriau rheoledig yn ystod y pandemig
- Newid Mathau o Droseddau a chynnydd mewn cymhlethdod / Cynnydd mewn adroddiadau am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

13.4 Mae'r gofyniad cyllideb ar gyfer 2021/22 a'r CATC hwn yn ystyried blaenoriaethau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Amlinellwyd nodau a Strategaeth Reoli'r Heddlu yng nghyhoeddiad y Prif Gwnstabl yn y Seminar Cyllid ym mis Rhagfyr fel a ganlyn:

**Llun 2: Nodau'r Heddlu**




**Llun 3 – Strategaeth Rheoli'r Heddlu**




13.5 Ar gyfer y cyfnodau yn y dyfodol h.y. 2021 i 2022, tynnodd y Prif Gwnstabl sylw at y blaenoriaethau canlynol:

- Gofynion Buddsoddi Cyfalaf Sylweddol
  - Cynllun 10 mlynedd ar draws TGCh ac Ystadau – Llanelli / Aberhonddu a'r Cyd-uned Arfau Saethu
  - Buddsoddiadau TGCh a Seilwaith Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol
- Cyfleoedd ar gyfer arloesi
  - Cynaliadwyedd – Cerbydau Trydan / Adeiladau / Gweithio Ystwyth
  - Arbedion Caffael Pellach
  - Cydwasanaethau Cenedlaethol a chydweithio
  - Arbedion Goramser Grŵp Aur – mae arbedion sylweddol eisoes wedi'u sicrhau – Goramser / Cynhyrchu Incwm / Caffael
- Heriau a amlygwyd drwy Broses y DRhH
  - Ymchwiliadau ac Achrediad Arbenigol
  - Cynnydd yn y Llwyth Gwaith mewn meysydd Cymorth Busnes fel adrannau Cyfreithiol, Fetio a Rheoli Gwybodaeth
  - Gweithio Ystwyth / Symudol a Heriau Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (RhGB)

13.6 Byddai canlyniadau costau cyflawni'r blaenoriaethau hyn ynghyd â chostau ychwanegol Ymgyrch Uplift a phwysau o ran cost / chwyddiant yn gofyn am fuddsoddiad o ran refeniw'r flwyddyn nesaf a chyllidebau cyfalaf y dyfodol. O ran cyllidebau Refeniw, amcangyfrifwyd bod cyllideb net o £119.834m ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, sef cynnydd o

£6.924m neu 6.1% ar lefel 2020/21. Mae dadansoddiad o'r cynnydd hwn wedi'i gynnwys yn y tabl isod:

**Tabl 10 – Datganiad Amrywiad**

| | £m | % | Variance (%) |
|---|---|---|---|
| **Net Force & OPCC Budget 2020/21** | **112.910** | | |
| Pay and Price Inflation | 1.676 | 1.50% | 1.50% |
| Reserves / Capital Financing | 0.496 | 0.40% | 1.90% |
| Own Standstill Cost Pressures | 1.240 | 1.10% | 3.00% |
| One Off Cost Pressures | 1.149 | 1.00% | 3.00% |
| One Off Contributions From Reserves | -1.149 | -1.00% | 2.00% |
| Regional / National Standstill Pressures | 0.422 | 0.40% | 3.40% |
| Net Savings Plan 2020/21 | -1.594 | -1.40% | 2.00% |
| **Estimated Standstill Budget Requirement** | **115.152** | | **2.00%** |
| Own Investment Priorities | 1.784 | 1.60% | 3.60% |
| **Requirement Before Uplift Costs** | **116.936** | | **3.60%** |
| Estimated Costs of Operation Uplift | 2.898 | 2.60% | 6.10% |
| **Net Budget Requirement 2021/22** | **119.834** | **6.10%** | |

13.7 Mae disgrifiad a dadansoddiad pellach o'r eitemau unigol a gynhwysir yn y tabl uchod wedi'u nodi yn y paragraffau canlynol:

13.7.1 **Chwyddiant Cyflogau a Phrisiau -** roedd y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2020/21 yn cynnwys dyfarniad cyflog a thybiaeth chwyddiant cyffredinol o 2.5%. Roedd y dyfarniad cyflog a ddyfarnwyd mewn gwirionedd i swyddogion a staff yr heddlu fel y cyllidebwyd ar ei gyfer h.y. 2.5% o fis Medi 2020. Bu'n rhaid cynyddu'r gyllideb £1m ar gyfer effaith blwyddyn lawn dyfarniad cyflog 2020. Mewn perthynas â dyfarniad cyflog 2021, cyhoeddodd y Canghellor benderfyniad i rewi cyflogau swyddogion yr heddlu a staff gan rybuddio llai na £24,000 gyda chynnydd o £250m i staff o dan y trothwy hwn. Mae swm o £0.250 miliwn wedi'i ymgorffori yn y gyllideb ar gyfer 2021/22 er y bydd yr union swm yn cael ei bennu yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan Gorff Adolygu Taliadau'r Heddlu. Tybiwyd cynnydd cyffredinol mewn chwyddiant o 2.5% ar gyfer cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflog, ond rhagdybiwyd y byddai cyfnod segur mewn perthynas â grantiau a chafodd cynnydd o 5% ei wneud ar gyllidebau cyfleustodau a chyllidebau tanwydd. Mae cyfansymiau chwyddiant nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn cyfateb i £0.326m. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dod yn gynnydd o tua £1.676m neu 1.5% o gymharu â'r llynedd.

**Tabl 11: Chwyddiant Cyflogau a Phrisiau**

| | £'000 |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Effaith Blwyddyn Lawn dyfarniadau Cyflog y Llynedd @2.5% | 1,100 |
| Dyfarniad Cyflog 2021 i'r rhai sy'n ennill <£24K | 250 |
| Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Chyflog yn 2021/22 | 326 |
| **Cyfanswm Cynnydd mewn Cyflog a Phrisiau** | **1,676** |

13.7.2 **Cronfeydd Wrth Gefn ac Ariannu Cyfalaf** - roedd y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn ddibynnol ar gyfraniad o £0.703m o'r cronfeydd wrth gefn. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy ac mae strategaeth yn cael ei dilyn er mwyn lleihau dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant cyfredol dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae gostyngiad pellach o £0.277m wedi cael ei wneud gan adael cyfraniad blynyddol o £0.426m ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu, a fydd yn cael ei ostwng i £0.200m yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Ystyrir y bydd cyfraniad blynyddol o'r arian a ddelir gan y Comisiynydd mewn perthynas ag Ailhyfforddi Gyrwyr, dyfarniadau Enillion Troseddu a chymell / fforffedu a ddyfernir i'r Heddlu ar gyfartaledd yn ddigon i gadw'r lefel hon o gyfraniad i gefnogi costau penodol yr Heddlu sydd wedi'u cynnwys yn y llinell sylfaen. Mae hyn yn gynnydd net mewn incwm o £-0.050 miliwn ar y flwyddyn ariannol flaenorol.

Bu angen cynnwys gostyngiad o £0.030m hefyd mewn cymorth Grant MCP (Menter Cyllid Preifat). Mae'r flaenraglen gyfalaf yn rhagdybio costau benthyca ychwanegol o £0.240m a fydd yn codi wrth i'r Heddlu barhau i gyflawni yn mewn perthynas â'i Strategaeth Gyfalaf. Ymgorfforwyd Cyfraniadau Refeniw Ychwanegol i Gyfalaf mewn perthynas â Chostau Ymgyrch Uplift fel y nodir yn ddiweddarach yn yr Adroddiad hwn. Mae'r CATC wedi nodi mai dyma'r swm y mae angen ei neilltuo yn 2020/21 i ariannu'r flaenraglen gyfalaf. Bydd hyn yn parhau i gynyddu dros y blynyddoedd nesaf er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau sylweddol o ran cyllid cyfalaf a ragwelir dros y 10 mlynedd nesaf.

**Tabl 12: Cronfeydd Wrth Gefn ac Ariannu Cyfalaf**

| | **£'000** |
|---|---|
| Costau Benthyca – CATC | 240 |
| Gostyngiad yng Nghyfraniad y Cronfeydd Wrth Gefn | 277 |
| Cyfraniadau Ychwanegol o Gronfeydd | -50 |
| Gostyngiad Grant MCP | 30 |
| **Cyfanswm Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Chyllid Cyfalaf** | **497** |

13.7.4 **Ein Pwysau Digyfnewid**

13.7.4.1 Trwy ymarferion ymgynghori manwl ar y gyllideb gydag Adrannau mewnol a gwaith manwl a wnaed gan Adran Gyllid yr Heddlu, bydd peth o'r pwysau cost sylweddol a fydd yn effeithio ar sefyllfa ariannol 2021/22 yn anochel i raddau helaeth a bydd rhaid eu hymgorffori yn y gyllideb. Mae rhywfaint o hyn yn rheolaidd tra bod y gweddill yn bwysau cost untro sy'n effeithio ar flwyddyn 2021/22 yn unig.

13.7.4.2 O ran pwysau cost rheolaidd, bydd cynyddrannau swyddogion a staff yr Heddlu yn ychwanegu £0.573m at ofyniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd pwysau cost eraill o £0.667m yn bennaf o gostau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r System Rheoli Cofnodion (RMS) newydd, cynyddu costau Yswiriant, costau uwch mewn perthynas â Chanolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (CGYRh) a'r cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, effaith blwyddyn lawn newidiadau i'r gweithlu y cytunwyd arnynt gan yr Heddlu yn 2020/21, gostyngiadau mewn incwm wrth dderbyn llog yn ogystal â phwysau cost amrywiol eraill.

**Tabl 13: Pwysau Cost Rheolaidd**

| | **£'000** |
|---|---:|
| Cynyddrannau Staff a Swyddogion | 573 |
| Costau System Rheoli Cofnodion | 100 |
| SCHTh - CGYRh / Comisiynu | 54 |
| Cynnydd mewn Premiwm Yswiriant / Colledion Atal | 150 |
| Costau Blwyddyn Lawn Newidiadau i'r Gweithlu yn 20/21 | 151 |
| Cwnstabliaid Gwirfoddol - Tanysgrifiadau i'r Ffederasiwn | 49 |
| Llog a Dderbynnir | 70 |
| Gostyngiadau Incwm - Rheolaidd | 48 |
| Costau Archwiliad Meddygol | 37 |
| Pwysau Costau Eraill | 8 |
| **Cyfanswm Ein Costau Digyfnewid** | **1,240** |

13.7.4.3 Rhestrir Pwysau Costau Anrheolaidd yn y Tabl isod. Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau cost protestiadau plismona yn lleoliad y Ganolfan Ceiswyr Lloches ym Mhenalun, yn ogystal ag effaith Pandemig Covid-19 mewn perthynas â cholledion incwm ac ôl-groniadau hyfforddiant a achoswyd gan gyfnodau clo.

**Tabl 14: Pwysau Costau Untro**

| | **£'000** |
|---|---:|
| Pwysau Cost Covid-19 / Colledion incwm | 200 |
| Ymgyrch Asper - Penalun | 685 |
| Hyfforddiant - Gofyniad Ychwanegol | 264 |
| **Cyfanswm Pwysau Costau Untro** | **1,149** |

13.7.4.4 Mae'r pwysau costau hyn, sy'n untro o ran eu natur, yn achosi rhywfaint o anawsterau mewn perthynas â'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf a phenderfynwyd gyda'r Heddlu y bydd y rhain yn cael eu hariannu o gyfraniad untro o gronfeydd wrth gefn ar sail untro. Bydd yr Heddlu'n gweithio tuag at gyflawni tanwariant arfaethedig o £750K yn y flwyddyn gyfredol. Daw Gweddill y cyllid o ailgategoreiddio cronfeydd wrth gefn presennol, sy'n osgoi'r angen i gynyddu lefelau'r dreth gyngor yn rheolaidd.

**Tabl 15: Cyfraniad Cronfeydd Wrth Gefn Untro**

| | £'000 |
|---|---|
| Swm Trosglwyddo Hyfforddiant/Heddlu - Tanwariant cynlluniedig 20/1 | -750 |
| Ailgategoreiddio Cronfa Covid-19 - tuag at golledion incwm | -200 |
| Ailgategoreiddio Cronfa Weithredol / Cronfa Yswiriant | -199 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Untro** | **-1,149** |

13.7.5 **Pwysau Rhanbarthol a Cenedlaethol**

13.7.5.1 Mae'r gyllideb yn cynnwys swm ychwanegol o £0.422m a fydd yn deillio o weithgarwch cydweithredol yn Rhanbarthol a Chenedlaethol. Mae'r Heddlu'n wynebu cost ychwanegol o £0.126m am daliadau'r system TGCh Genedlaethol o ganlyniad i bwysau ar Raglenni Newid y Swyddfa Gartref e.e. Disodli Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Yn ogystal, mae hyn hefyd yn cynnwys costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chydweithio ar gyfer Canolfan Monitro Seiber Genedlaethol newydd ar gyfer yr Heddluoedd. Mae hyn yn rhoi gwerth da am arian o'i gymharu â chostau cyflwyno monitro 24/7 yn lleol. Rhagwelir costau ychwanegol o £0.246m oherwydd pwysau costau ar Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (GACH) o ganlyniad i symud i Fodel Ariannu Rhanbarthol. Mae costau ychwanegol o £0.500m yn cael eu hysgwyddo mewn perthynas â gwaith cydweithredu i recriwtio o fewn Adnoddau Dynol, sy'n gysylltiedig â mwy o geisiadau am swyddi staff a swyddogion yr heddlu gan gynnwys o ganlyniad i gynnydd mewn swyddogion gweithredol.

**Tabl 16: Pwysau Costau Rhanbarthol a Cenedlaethol**

| | £'000 |
|---|---|
| Cynnydd yn Nhâl Rhanbarthol Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 246 |
| Taliadau Systemau Cenedlaethol | 126 |
| System Recriwtio / Cydweithio | 50 |
| **Cyfanswm Pwysau Costau Rhanbarthol / Cydweithredu** | **422** |

13.7.6 **Arbedion effeithlonrwydd net i leihau'r gyllideb**

13.7.6.1 Mae Cyllidebau Adrannol wedi cael eu lleihau o £1.594m gan adlewyrchu gweithgarwch cynilo ar draws yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae'r Grŵp CATC wedi bod yn allweddol wrth nodi a chyflawni'r arbedion hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

13.7.6.2 Caiff y rhain eu categoreiddio fel y dangosir yn y tabl canlynol:

**Tabl 17: Crynodeb o Ostyngiadau Costau 2021/22**

| Cynllun Arbedion | £'000 |
|---|---|
| Canolfan Reoli'r Heddlu - Rhaglenni Newid | -110 |
| Adran Newid Busnes. - Targed Effeithlonrwydd Arian Parod | -70 |

| | |
|---|---|
| Prosiect Newydd a Thrawsnewidiol | -50 |
| Rhaglen TGCh | -60 |
| Targed Cynaliadwyedd | -220 |
| Cynhyrchu Incwm | -50 |
| Her Gwasanaeth a Rennir / Swyddfa Gefn | -547 |
| Adferiad Ystwyth / Talla | -237 |
| Arbedion yn y Gweithlu | -250 |
| **Cyfanswm y Cynllun Arbedion** | **-1,594** |

13.7.6.3 Goruchwylir y gwaith o Gyflawni Arbedion gan y Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a’r Dyfodol ac fe'i cefnogir gan waith manwl y Grŵp CATC, y Grŵp Newid a Thrawsnewid a'r Grŵp Cyllid a Chaffael Strategol. Gellir gweld bod y Rhaglen arbedion yn canolbwyntio'n fawr ar dechnoleg a mentrau a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chydweithredu.

### 13.7.7 Ein Blaenoriaethau Buddsoddi

13.7.7.1 Fel y nodwyd eisoes, cwblhaodd yr Heddlu ei DRhH ym mis Medi 2020 ac mae hyn wedi galluogi Prif Swyddogion i ystyried a blaenoriaethu'n llawn y broses o ailfuddsoddi arbedion mewn meysydd lle mae mwy o alw a phwysau gweithredol. Gwnaed cryn dipyn o waith ac ymdrech er mwyn cyrraedd y rhestr o flaenoriaethau. Caiff y rhain eu categoreiddio fel risgiau Coch ac Oren gan ystyried y galw yn y meysydd hyn o gymharu â chapasiti a gallu o ran gweithlu, asedau a galluoedd yr Heddlu yn y meysydd hyn.

13.7.7.2 Gellir gweld bod y buddsoddiad sydd ei angen i fodloni argymhellion y DRhH yn canolbwyntio ar Ymchwiliadau Arbenigol a gofynion Achredu yn ogystal â rhai penawdau seilwaith a staff cymorth. Mae’r rhain yn cyrraedd cyfanswm o £1.785m fel y nodir yn y tabl canlynol:

**Tabl 18: Blaenoriaethau Buddsoddi**

| | **£’000** |
|---|---:|
| Troseddau Seiber / Digidol - Pwysau Galw | 73 |
| Troseddau Economaidd | 173 |
| Rheoli Troseddwyr | 20 |
| Cudd-wybodaeth - ANPR nad yw’n ymwneud â Chyflog | 95 |
| Cudd-wybodaeth - Staff ANPR | 35 |
| Staff Gwybodaeth - IID BI / Ymchwilwyr | 90 |
| Troseddau Mawr - Patholeg | 50 |
| Swydd Ymchwilydd – Tîm Troseddau Difrifol a Threfnedig | 70 |
| Troseddau Difrifol a Threfnedig - Cynhyrchion TGCh Newydd | 50 |
| Hyfforddiant Troseddau Difrifol a Threfnedig | 30 |

| | |
|---|---|
| Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu | 238 |
| Arfau Saethu | 200 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 91 |
| Adnoddau Dynol - Cynghorydd Meddygol - Meddyg llawnamser | 62 |
| Cymorth Adnoddau Dynol - Achosion Meddygol - Staff Adnoddau Dynol | 23 |
| Adran Safonau Proffesiynol - Fetio a Gweinyddu | 65 |
| Uned Cefnogaeth Wyddonol | 145 |
| System Rheoli Cofnodion (RMS) gan gynnwys Cyfiawnder Troseddol | 142 |
| TGCh - Roboteg | 40 |
| Rheoli Gwybodaeth | 95 |
| **Cyfanswm Cynnydd ym mhrif feysydd Datganiad Rheoli'r Heddlu 21/2** | **1,785** |

## 14 Cynllunio'r Gweithlu ac Ymgyrch Uplift – 20,000 o swyddogion

14.1 Mae'r Heddlu'n cynllunio'r newidiadau sylweddol i'w lwyth gwaith o ganlyniad i Ymgyrch Uplift ac o ganlyniad i'r DRhH a phrosesau Asesu Strategol.

14.2 Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu nifer y swyddogion o 20,000 yng Nghymru a Lloegr dros y tair blynedd nesaf, dyrannwyd 42 o Swyddogion ychwanegol i'r Heddlu allan o'r gyfran gychwynnol o 6,000. Dyrannwyd dyraniad pellach o 42 o swyddogion o'r ail gyfran o 6,000 o swyddogion yn genedlaethol, i'w recriwtio erbyn mis Mawrth 2022, sydd wedi'u hymgorffori yn y gyllideb. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys dau swyddog ychwanegol a fydd yn cael eu recriwtio i'r ROCU.

14.3 Mae recriwtio'r gyfran gyntaf gychwynnol 42 o swyddogion eisoes wedi digwydd yn ystod 2020 a bydd cyfran arall o swyddogion yn cael eu recriwtio ym mis Mawrth 2021 (22), Mehefin 2021 (20), Medi 2021 (20) ac ym mis Mawrth 2022 (22) er mwyn bodloni'r gofyniad i gynyddu niferoedd swyddogion a chymryd lle'r rhai sy'n debygol o adael y gwasanaeth dros y cyfnod hwn. Daeth y 22 o recriwtiaid ychwanegol a ddechreuodd hyfforddi ar 20 Ionawr 2020 yn weithredol ym mis Tachwedd 2020 ar ôl cyfnod o hyfforddiant cychwynnol. Mae'r Heddlu hefyd yn bwriadu derbyn wyth trosglwyddai ym mis Chwefror 2021 er mwyn sicrhau bod lefelau recriwtio targed yn cael eu cyrraedd.

14.4 Cyhoeddodd yr NPCC ganllawiau cynhwysfawr ar y rhagdybiaethau costio y dylai Heddluoedd eu mabwysiadu wrth asesu goblygiadau costau Ymgyrch Uplift yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys goblygiadau costau cyflogau ynghyd ag argostau'r swyddogion eu hunain, costau recriwtio a hyfforddi ynghyd â chostau seilwaith a staff heddlu ychwanegol. Nodir y costau amcangyfrifedig yn y tabl.

**Tabl 19: Cost Ymgyrch Uplift 2021/22**

| | **£'000** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Effaith Blwyddyn Lawn Ychwanegol Recriwtiaid y Llynedd (+42) | 193 |
| Cyflogau Ychwanegol Recriwtiaid 2021 (+42) | 933 |
| Taliadau Refeniw Uniongyrchol mewn Perthynas â TGCh, Cerbydau ac Adeiladau | 1,002 |
| Gweithredu Cadarnhaol a Fetio | 100 |
| Costau Hyfforddi Recriwtiaid | 40 |
| Costau Eraill | 40 |
| Costau Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona (PEQF) Ychwanegol (Nicola Workings) | 100 |
| Grant Incwm i'r Llinell Sylfaen Grant llai penodol | 490 |
| **Cyfanswm y Cynnydd yng Nghostau Ymgyrch Uplift** | **2,898** |

14.5 Mewn perthynas â 2021/21, cyhoeddwyd grant yn seiliedig ar berfformiad o £1.190m ar gyfer Dyfed Powys. Mae hyn bellach wedi'i integreiddio'n llawn yn setliad sylfaenol yr Heddlu. Mae Grant Penodol newydd o £0.700m wedi'i neilltuo gan y Swyddfa Gartref fel Grant Perfformiad yn 2021/22. Bydd hyn yn daladwy yn chwarterol fel ôl-daliadau a bydd yn dibynnu ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn erbyn y cynnydd yn nifer y swyddogion (i 1,225 o staff cyfwerth ag amser llawn neu gyfanswm o 1,249) ac unrhyw feini prawf perfformiad eraill a allai fod yn berthnasol. Nid oes meini prawf wedi'u cyfleu mewn perthynas â hyn ar hyn o bryd; fodd bynnag, disgwylir canllawiau ar hyn dros y misoedd nesaf.

14.6 O ganlyniad i Ymgyrch Uplift, bydd ffocws parhaus ar niferoedd Swyddogion yr Heddlu dros y blynyddoedd nesaf, ac mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r lefelau recriwtio a ragwelir ar gyfer 2021/22:

**Tabl 20: Lefelau recriwtio Swyddogion yr Heddlu ar gyfer 2021/22**

| | **Niferoedd Swyddogion cyfwerth ag amser llawn** |
|---|---|
| Niferoedd disgwyliedig Swyddogion fel net ymadawyr rhagamcanol yn ystod 2021/22 (heb gynnwys secondiad) | 1,133 |
| Swyddogion wedi'u Trosglwyddo (Chwefror 21) | 8 |
| Niferoedd Arfaethedig i'w Derbyn (Medi 21 / Mawrth 22) | 42 |
| **Niferoedd cyn Ymgyrch Uplift 2021/22** | **1,183** |
| Uplift – Swyddog Ychwanegol Mawrth 2021 | 22 |
| Uplift – Swyddogion Ychwanegol Mehefin 2021 | 20 |
| **Targed y Swyddfa Gartref – cyfwerth ag amser llawn (Cyfrif Pennau 1,249)** | **1,225** |

14.7 Mae blwyddyn ariannol 2021/22 yn parhau i adeiladu ar 2020/21 gyda newid sylweddol ac uchelgeisiol ar gyfer yr Heddlu, a fydd yn hanfodol o ran dangos gwelliannau yn erbyn blaenoriaethau DRhH, cydnerthedd ariannol a gweithredol, argymhellion AHGTAEM a meysydd i'w gwella yr ydym wedi'u nodi ein hunain. Rhagwelir y bydd y cynlluniau hyn yn cael effaith gadarnhaol o ran cynnal a gwella'r safonau gwasanaeth y gall y cyhoedd eu disgwyl yn ogystal â chael effaith wirioneddol ar lwyth gwaith a lles staff a swyddogion.

## 15 Cyllideb Arfaethedig ar gyfer 2021/22

15.1 Canlyniad cyffredinol y setliad a'r praesept arfaethedig yw cyfanswm cynnydd o £6.436m mewn cyllid yn 2021/22 o'i gymharu â 2020/21 fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 21: Cyfanswm y Gyllideb ar gyfer 2021/22**

| | 2020/21 | 2021/22 | Change | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | % |
| Core Police Grant including rule 1 and floor funding | 40.967 | 44.497 | 3.530 | 8.62% |
| Welsh Government - RSG & NNDR | 13.150 | 13.030 | -0.120 | -0.91% |
| **Central Funding** | **54.116** | **57.528** | **3.412** | **6.30%** |
| **Pensions Grant (specific grant not core)** | **1.302** | **1.302** | **0.000** | **-** |
| **Uplift Grant (specific grant not core)** | **1.190** | **0.700** | **-0.490** | **2.10%** |
| | **number/ £** | **number/ £** | **number /£** | **%** |
| Council Tax Base (Band D number) | 225641 | 226109 | 468 | 0.21% |
| Council Tax at Band D (£) | 260.56 | 275.56 | 15.00 | 5.76% |
| **Precept** | **58.793** | **62.307** | **3.514** | **5.98%** |
| | | | | |
| **Total Funding** | **115.401** | **121.837** | **6.436** | **5.58%** |

15.2 Mae hyn wedi arwain at baratoi'r gyllideb gytbwys ganlynol ar gyfer 2021/22:

**Tabl 22: Cyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2021/22**

| | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £M | £M |
| OPCC and Commissioning (net of reserves movement) | 2.098 | 2.095 |
| Estates | 4.099 | 4.119 |
| Force (net of reserve movements) | 106.713 | 113.619 |
| | | |
| **Total** | **112.910** | **119.834** |

15.3 Ceir dadansoddiad llawn o'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2021/22 (hyd at 2025/26) yn Atodiad C.

## 16 Cyllid yn y Dyfodol

16.1 Mae cryn ansicrwydd wedi bodoli erw peth amser dros setliadau ariannol yn y dyfodol. Mae'r cythrwfl gwleidyddol dros y blynyddoedd diwethaf, ansicrwydd mewn perthynas ag effaith Brexit, yr oedi yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a goblygiadau economaidd sylweddol pandemig Covid-19 i gyd yn faterion sy'n peri pryder. Gobeithiwyd y byddai ACW20 yn rhoi rhywfaint o sicrwydd tymor hwy ond, wrth gyhoeddi setliad blwyddyn yn unig, dywedodd y Canghellor "yn y byd sydd ohoni, mae'n hanfodol ein bod yn rhoi sicrwydd...... gan ganolbwyntio'n llwyr ar fynd i'r afael â Covid a chyflawni ein Cynllun Swyddi".

16.2 Yn ogystal â hyn, mae perygl o hyd y byddai adolygiad o fformiwla ariannu'r heddlu yn cael effaith andwyol ar Heddlu Dyfed-Powys.

16.3 Mae llawer o waith wedi'i wneud yn lleol ac yn genedlaethol i gyflwyno dulliau effeithlonrwydd ac arbedion effeithiolrwydd eang drwy broses drylwyr o graffu ar brosesau ariannol a darparu gwasanaethau a'u trawsnewid. Bydd y gofynion hyn yn parhau o ddifrif.

16.4 Mae gwaith yn parhau drwy Bwyllgor Cyllid yr NPCC a Chymdeithas Trysoryddion Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i geisio sicrhau ymagwedd gyson tuag at fodelu ariannol ac i ddwyn dylanwad ariannol mewn perthynas ag ystyriaethau'r Swyddfa Gartref a'r Llywodraeth o ran cyllid heddluoedd.

16.5 Mae cyllid parhaus ac yn wir gyllid ychwanegol drwy grantiau penodol gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru hefyd yn cario risgiau cynhenid o ran eu parhad. Yn absenoldeb eglurder, mae'r CATC wedi tybio eu parhad ar yr un lefelau, ond nid oes unrhyw warantau hirdymor.

16.6 Er y bydd lefelau'r praesept yn cael eu hystyried yn fanwl gan y Comisiynydd bob blwyddyn gan gymryd sylw llawn o'r ystod o ffactorau sy'n cael effaith, at ddibenion cynllunio, mae'r CATC wedi rhagdybio cynnydd blynyddol o 5%.

16.7 Dangosir y sefyllfa bresennol dybiedig o ran cyllido yn y tymor canolig isod:

**Tabl 23: Cyfanswm y Gyllideb ar gyfer 2020/21 i 2025/26**

| | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£M** | **£M** | **£M** | **£M** | **£M** | **£M** |
| Central Grants | -54.117 | -57.527 | -57.527 | -57.527 | -58.390 | -59.266 |
| Pensions Grants | -1.302 | -1.302 | -1.302 | -8.130 | -8.130 | -8.130 |
| Uplift Grant | -1.190 | -0.700 | -3.379 | -3.822 | -3.822 | -3.822 |
| Precept | -58.793 | -62.307 | -66.142 | -69.935 | -73.946 | -78.186 |
| **Total Funding** | **-115.402** | **-121.836** | **-128.349** | **-139.414** | **-144.288** | **-149.404** |
| **Variance to prior year** | **-8.505** | **-6.434** | **-6.514** | **-11.065** | **-4.874** | **-5.117** |
| **% Change** | **7.96%** | **5.58%** | **5.35%** | **8.62%** | **3.50%** | **3.55%** |

16.8 Mae'r sefyllfa gyllido hon uchod yn cymryd y bydd y cynnydd canlynol yn y praesept treth gyngor ac yn cynnwys tybiaeth y bydd y sylfaen dreth gyngor yn cynyddu 1.1% ac yna 0.7% y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â thybiaethau'r Swyddfa Cyfrifoldebau Cyllidebol o 0.8%:

**Tabl 24: Lefel Praesept Arfaethedig 2020/21 i 2025/26**

| | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Council Tax Precept | 260.56 | 275.56 | 289.34 | 303.80 | 319.00 | 334.94 |
| Increase from prior year £ | 12.00 | 15.00 | 13.78 | 14.47 | 15.19 | 15.95 |
| **% Change** | **4.8%** | **5.8%** | **5.0%** | **5.0%** | **5.0%** | **5.0%** |

## 17 Cyllideb Tymor Canolig 2021/22 – 2025/26

17.1 Disgwylir y bydd chwyddiant cyflogau a phrisiau yn parhau i roi pwysau ar gostau darparu gwasanaethau plismona dros y cyfnod a gwnaed y tybiaethau canlynol mewn perthynas â'r rhain:

**Tabl 25: Tybiaethau Chwyddiant ar gyfer 2021/22 i 2025/26**

| **Budget Assumptions (%)** | **21/22** | **22/23** | **23/24** | **24/25** | **25/26** |
|---|---|---|---|---|---|
| Police Officers | 0.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Police Staff | 0.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Inflation | 2.5% | 2.0% | 2.0% | 2.0% | 2.5% |
| Premises Fuel | 5.0% | 4.5% | 2.0% | 2.5% | 2.5% |
| Vehicle Fuel | 5.0% | 4.5% | 2.0% | 2.5% | 2.5% |
| Grants | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 1.5% | 1.5% |
| Income | 2.5% | 2.0% | 2.0% | 2.0% | 2.5% |
| Pension | 2.0% | 1.5% | 1.5% | 1.5% | 2.0% |

17.2 Yn ogystal â'r cynnydd hwn mewn costau sylfaenol, mae cynllun effeithlonrwydd ac arbedion wedi'i ddatblygu er mwyn cyflawni arbedion a ddaw i gyfanswm o £5.908m dros y pum mlynedd nesaf. Manylir ar yr arbedion hyn yn y tabl isod:

**Tabl 26: Crynodeb o Leihau Costau ar gyfer 2021/22 i 2025/26**

| Programme Activity | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| End to End Project | 0 | -100 | -125 | -50 | 0 | -275 |
| FCC - Change Programmes | -110 | -155 | -105 | 0 | 0 | -370 |
| Business Change Dept. - Cashable Efficiency Target | -70 | -70 | -70 | -70 | -70 | -350 |
| Emerging and Transformational Project | -50 | -50 | -50 | -50 | -50 | -250 |
| ICT Programme | -60 | -50 | -400 | 100 | 0 | -410 |
| Sustainability Target | -220 | -175 | -144 | -60 | -60 | -659 |
| Income Generation | -50 | -100 | -25 | -25 | -25 | -225 |
| Shared Service / Back Office Challenge | -547 | -275 | -250 | -250 | -250 | -1,572 |
| Agile / Talla Recovery | -237 | 0 | 0 | 0 | 0 | -237 |
| Workforce Savings | -250 | -200 | -390 | -480 | -240 | -1,560 |
| | -1,594 | -1,175 | -1,559 | -885 | -695 | -5,633 |

17.3 Manylir ar effaith cyfuno'r cynyddiadau chwyddiannol, newidiadau a ragwelir o ran pwysau a'r bylchau canlyniadol mewn cyllid fel a ganlyn:

**Tabl 27 – Datganiad Amrywiad Costau 2021/22-2025/26**

| | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Baseline Carry Forward Budget** | **112,910** | **119,834** | **123,669** | **127,462** | **132,336** |
| Prior Year Pay Awards @ 2.5% | 1,350 | 237 | 1,126 | 1,187 | 1,212 |
| Staff and Office Increments | 573 | 500 | 500 | 500 | 500 |
| **Add Cost Pressures** | | | | | |
| Reversal of Contribution from Reserves | 277 | 277 | 0 | 0 | 0 |
| Increase in Transfer from Funds (POCA etc) | -50 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Additional Capital Financing Costs | 240 | 910 | 1,701 | 1,072 | 449 |
| Additional Direct Revenue Financing / PFI | 30 | 30 | 30 | 530 | 530 |
| Pay and Non Pay Inflation | 326 | 1,558 | 1,643 | 1,678 | 1,725 |
| Estimated Pension Cost Increase | 0 | 0 | 6,828 | 0 | 0 |
| Non Pay Cost Pressures | 1,090 | 754 | 352 | 792 | 1,394 |
| One Off Cost Pressures | 1,149 | -1,149 | 0 | 0 | 0 |
| One Off Reserves Contribution | -1,149 | 1,149 | 0 | 0 | 0 |
| **Developments** | | | | | |
| Operational Uplift Costs | 2,831 | 2,679 | 443 | 0 | 0 |
| Estimated Cost of FMS3 Actions Taken Forward | 1,361 | 744 | 0 | 0 | 0 |
| Police Operational Uplift Funding (100%) | 490 | -2,679 | -443 | 0 | 0 |
| Police Pensions Funding (100%) | 0 | 0 | -6,828 | 0 | 0 |
| **Efficiency and Productivity Plan (Cashable)** | | | | | |
| End to End Project | 0 | -100 | -125 | -50 | 0 |
| FCC - Change Programmes | -110 | -155 | -105 | 0 | 0 |
| Business Change Dept. - Cashable Efficiency Target | -70 | -70 | -70 | -70 | -70 |
| Emerging and Transformational Project | -50 | -50 | -50 | -50 | -50 |
| ICT Programme | -60 | -50 | -400 | 100 | 0 |
| Sustainability Target | -220 | -175 | -144 | -60 | -60 |
| Income Generation | -50 | -100 | -25 | -25 | -25 |
| Shared Service / Back Office Challenge | -547 | -275 | -250 | -250 | -250 |
| Agile / Talla Recovery | -237 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Workforce Savings | -250 | -200 | -390 | -480 | -240 |
| | **119,834** | **123,669** | **127,462** | **132,336** | **137,453** |
| | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Funded By** | | | | | |
| **Baseline Carry Forward Funding** | **-112,910** | **-119,834** | **-123,669** | **-127,462** | **-132,336** |
| Additional Settlement | -3,410 | 0 | 0 | -863 | -876 |
| Council Tax Increase @ £15 + Taxbase (5% from 2021) | -3,514 | -3,835 | -3,793 | -4,011 | -4,241 |
| **Total Funding** **0** | **-119,834** | **-123,669** | **-127,462** | **-132,336** | **-137,452** |
| **Funding Gap** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

17.4 O ystyried maint yr effaith y gallai adolygiad o'r fformiwla ariannu ei chael, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cytuno i gofnodi'r posibilrwydd hwn ar y Gofrestr Risg Strategol. Nid oes amheuaeth y byddai unrhyw ostyngiadau sylweddol mewn cyllid grant canolog yn effeithio'n ddifrifol ar wasanaethau heddlu a chymunedau Dyfed-Powys. Caiff y broses o ailddechrau'r gwaith cenedlaethol ei fonitro'n agos gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid a byddai Grŵp Aur penodol yn cael ei sefydlu i ddatblygu modelau gweithredol a chynlluniau cyflawni cynaliadwy er mwyn bodloni'r senarios posibl.

17.5 Mae hefyd yn werth tynnu sylw at y gwrthdaro a'r ymraniad posibl a allai godi yn sgil gofynion yn y dyfodol o ran cyflawni gofynion rhaglen Ymgyrch Uplift.

17.6 Mae'r gwaith yn parhau yn genedlaethol a thrwy Gymru gyfan i chwilio am bob cyfle i gydweithio, i fod yn gyson ein dull ac i sicrhau effeithlonrwydd masnachol. Y Dirprwy Brif Gwnstabl sydd ar hyn o bryd yn cadeirio Bwrdd Cydweithredu Cymru Gyfan, sy'n goruchwylio holl waith cydweithredu presennol yr heddlu.

## 18 Adran 25 a Risg Gyllidebol

18.1 Mae adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd i'r Comisiynydd, ar yr adeg y mae'r

gyllideb yn cael ei phennu, ar y risgiau a'r ansicrwydd a allai olygu bod angen gwario mwy ar y gwasanaeth nag a gynlluniwyd, a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn. Dangosir yr adroddiad hwn yn Atodiad D

18.2 Caniateir ar gyfer y risgiau hyn drwy:

- gynnwys lwfans darbodus yn yr amcangyfrifon; a hefyd
- sicrhau bod cronfeydd wrth gefn digonol ar gael os bydd yr amcangyfrifon ar gyfer y gwasanaeth yn annigonol.

18.3 Mae'n bwysig bod y risg gyllidebol wedi cael ei lleihau pan gaiff y gyllideb ei phennu. Rhaid i lefel y risg gyllidebol gael ei hystyried yn ffurfiol gan y Comisiynydd ar sail cyngor a barn ei PSC.

18.4 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2021/22 yn adlewyrchu'r risgiau a nodwyd ac sydd yn fesuradwy. Fodd bynnag, nid yw wedi bod yn bosibl cynnwys y risgiau canlynol:

- Diwygiadau i hysbysiad grant terfynol y llywodraeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod;
- Newidiadau i bolisïau'r llywodraeth nad oes modd eu rhagweld;
- Canlyniadau ariannol nad ydynt yn hysbys sy'n deillio o adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit);
- Goblygiadau ariannol lleol a cenedlaethol sy'n codi o ganlyniad i bandemig Covid-19;
- Effaith bellach adolygiadau o'r cynllun pensiwn ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol.
- Canlyniadau ariannol heriau ac achosion cyfreithiol cenedlaethol mewn perthynas â phensiynau'r heddlu a phlismona cudd.

18.5 Mae Atodiad E hefyd yn amlinellu asesiad effaith risg ar draws penawdau cyllideb amrywiol ac yn seiliedig ar ganran y gyllideb refeniw net a'r ffactorau sy'n hysbys a allai ddylanwadu ar lefelau incwm neu wariant gwirioneddol.

## 19 Cronfeydd wrth gefn

19.1 Yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref (FMCoP), mae'r Comisiynydd yn ystyried rôl cronfeydd wrth gefn wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb flynyddol. Gyda chymorth ei PSC, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau digonolrwydd cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn fel bod modd bodloni pwysau a achosir gan alw ar y gyllideb heb effeithio'n andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol.

19.2 Yn ôl Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd sefydlu strategaeth ar gronfeydd wrth gefn mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Dangosir y strategaeth hon yn Atodiad F ac mae'n rhoi manylion am y dull gweithredu ar gyfer 2021/22 a thu hwnt.

19.3 Dangosir y sefyllfa agoriadol ac amcangyfrif o'r sefyllfa derfynol ar gyfer cronfeydd wrth gefn yn ystod 2020/21 yn y tabl isod.

**Tabl 28: Defnydd a Balansau Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2020/21**

| | Balance at 31st March 2020 Actual £000k | Net Movement in year Estimated £000k | Balance at 31st March 2021 Estimated £000k |
|---|---|---|---|
| General Reserve | 4,032 | 0 | 4,032 |
| Earmarked Revenue Reserves | 3,571 | -453 | 3,117 |
| Ringfenced Revenue and Capital Reserves | 1,582 | 0 | 1,582 |
| Capital Grants | 426 | -426 | 0 |
| Capital Reserves | 4,964 | -3,333 | 1,631 |
| **Total** | **14,574** | **-4,212** | **10,362** |

19.4 Mae'r CATC yn cynnwys defnyddio nifer o gronfeydd wrth gefn i gefnogi mentrau a nodwyd a buddsoddiad cyfalaf ac mae'r tabl isod yn nodi sut y bydd y rhain yn effeithio ar gronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd nesaf.

**Tabl 29: Amcangyfrif o'r Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn**

| Use of Reserves | 20/21 £000k | 21/22 £000k | 22/23 £000k | 23/24 £000k | 24/25 £000k | 25/26 £000k |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Earmarked Reserves | -453 | -1,626 | -294 | -90 | -90 | -90 |
| Ringfenced Revenue and Capital Reserves | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Capital Grants | -426 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Capital Reserves | -3,333 | -1,631 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total use of Reserves** | -4,212 | -3,257 | -294 | -90 | -90 | -90 |
| | | | | | | |
| **Balance at year end** | **10,362** | **7,105** | **6,811** | **6,721** | **6,631** | **6,541** |

19.5 Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r cronfeydd wrth gefn amcangyfrifedig sy'n sail i'r CATC ar gyfer 2021/22-2024/25:

**Tabl 30: Cronfeydd wrth gefn amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn**

| | Balance at 31st March 2021 £000k | Balance at 31st March 2022 £000k | Balance at 31st March 2023 £000k | Balance at 31st March 2024 £000k | Balance at 31st March 2025 £000k | Balance at 31st March 2026 £000k |
|---|---|---|---|---|---|---|
| General Reserve | 4,032 | 4,032 | 4,032 | 4,032 | 4,032 | 4,032 |
| Earmarked Revenue Reserves | 3,117 | 1,492 | 1,198 | 1,108 | 1,018 | 928 |
| Ringfenced Revenue and Capital Reserves | 1,582 | 1,582 | 1,582 | 1,582 | 1,582 | 1,582 |
| Capital Grants | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Capital Reserves | 1,631 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total** | **10,362** | **7,105** | **6,811** | **6,721** | **6,631** | **6,541** |

19.6 Ar ddiwedd 2025/26, disgwylir i'r gronfa wrth gefn gyffredinol aros ar £4.032 miliwn, gyda chyfanswm y cronfeydd wrth gefn yn £6.541m – noder bod hyn yn cynnwys refeniw a chronfeydd cyfalaf wedi'u diogelu a ddelir ar ran Partneriaeth 'Gan Bwyll' ac ar gyfer mentrau cydweithredol. Bydd canran y gronfa wrth gefn gyffredinol yn erbyn cyllideb refeniw net yn syrthio o 3.6% ar ddiwedd 2020/21 i 2.9% erbyn 2025/26 wrth i'r gyllideb refeniw net gynyddu. Ceir manylion pellach am y cronfeydd wrth gefn yn Atodiad G yn ogystal â gwybodaeth sy'n unol â gofynion gweinidogol a gofynion y Swyddfa Gartref.

19.7 Mae'r lefelau cronfeydd wrth gefn uchod wedi'u hystyried yng nghyd-destun risg, sy'n cydymffurfio â chanllawiau CIPFA, sy'n datgan: *"er mwyn asesu digonolrwydd cronfeydd cyffredinol heb eu dyrannu....ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r awdurdod."*

19.8 Er nad yw wynebu risg a lliniaru'r risg honno o reidrwydd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn gwariant, bydd yn dylanwadu ar lefel y cronfeydd cyffredinol o flwyddyn i flwyddyn.

19.9 Mae pedair risg allweddol yn berthnasol i lefel y cronfeydd cyffredinol a chronfeydd wedi'u clustnodi yn awr ac yn y dyfodol, a chânt eu hamlinellu isod.

- Ansefydlogrwydd economaidd – y perygl y bydd amodau economaidd sy'n gwaethygu, gostyngiadau termau real yn lefelau grantiau'r llywodraeth, a mwy o ofynion o ran adnoddau yn cael effaith sylweddol ar adnoddau ariannol sydd eisoes dan bwysau. Bydd hyn yn arwain at gyfyngu ar weithgarwch a datblygiadau gweithredol dros y pedair blynedd nesaf a thu hwnt, er enghraifft, lleihau'r gallu i gynnig y lefel o blismona cymunedol y mae'r cyhoedd yn ei disgwyl oni bai yr awdurdodir mwy o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn;
- Risgiau Allanol - megis Brexit, Covid-19 ac effeithiau'r marchnadoedd ariannol byd-eang ehangach sydd wedi eu hystyried wrth bennu cronfeydd wrth gefn;
- Digwyddiadau mawr gweithredol a chynlluniau cyfalaf a reolir yn lleol ac yn genedlaethol – ystyriwyd tebygolrwydd ac effaith digwyddiad mawr a allai ddigwydd o fewn ardal yr Heddlu a'r

peryglon sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyfalaf sylweddol wrth bennu lefel briodol o gronfeydd wrth gefn;

- Y Dreth Gyngor – mae cadw'r dreth gyngor dan reolaeth dal yn flaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth.

19.10 Wrth ystyried yr ystod hon o ffactorau cydnerthedd a chynaliadwyedd, mae'r Comisiynydd yn parhau i adolygu ei ystyriaethau ar gyfer cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, nid yn unig yn ffurfiol wrth gwblhau'r Datganiad o Gyfrifon ond hefyd yn ystod y flwyddyn wrth ystyried mewn adroddiadau rheoli ariannol a hefyd paratoi'r CATC.

## 20 Cyfalaf

20.1 Mae asedau sydd wedi'u cynnal a'u rheoli'n dda a seilwaith hanfodol yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o ddarparu gwasanaethau plismona effeithlon. Felly, mae'n gwneud synnwyr cynllunio sut y bydd yr asedau hyn yn cael eu cynnal a'u rheoli. Dangosir y Strategaeth Gyfalaf yn Atodiad H ac mae'n sail i'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2021/22.

20.2 Gwnaed llawer o waith yn ystod 2020/21 i ystyried gofynion buddsoddi yn y dyfodol dros gyfnod hwy, er bod hyn yn naturiol yn cynnwys nifer o ragdybiaethau. Mae'r Grŵp Ystadau Strategol a'r Grŵp Ystadau Gweithredol hefyd wedi datblygu mecanwaith sgorio risg i helpu i flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw a buddsoddi ystadau ar y cyd. Amlinellir y rhaglen ddeng mlynedd o fewn y Strategaeth Gyfalaf a chaiff y rhaglen ar gyfer y pum mlynedd nesaf ei hamlinellu yn y tabl isod:

**Tabl 31: Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2020/21 i 2025/26**

| Capital Programme | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k |
| Land and Buildings | 3,739 | 8,612 | 23,203 | 11,206 | 3,175 | 3,367 | 53,300 |
| Vehicles | 1,201 | 1,297 | 1,505 | 1,121 | 1,320 | 1,225 | 7,669 |
| IT and Other Strategic Spending | 3,221 | 5,076 | 6,398 | 4,603 | 3,233 | 3,304 | 25,834 |
| **Capital Expenditure** | 8,160 | 14,985 | 31,106 | 16,929 | 7,728 | 7,895 | 86,803 |
| Grant Funding | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -511 |
| Borrowing | -3,296 | -11,036 | -28,213 | -13,940 | -4,238 | -4,156 | -64,879 |
| Capital Grants | -426 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -426 |
| Contribution from Revenue Account | -850 | -1,852 | -2,604 | -2,604 | -3,104 | -3,604 | -14,619 |
| Capital Receipts | 0 | -210 | -50 | -300 | -300 | -50 | -910 |
| Sustainability Reserve | -170 | -170 | -154 | 0 | 0 | 0 | -494 |
| Capital Reserve | -3,333 | -1,631 | 0 | 0 | 0 | 0 | -4,964 |
| **Capital Financing** | -8,160 | -14,985 | -31,106 | -16,929 | -7,728 | -7,895 | -86,803 |

20.3 Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft yn gofyn am gyfanswm cyllid o £86.8m ar gyfer 2020/21-2025/26 gyda bwriad bellach o wario £8.1m yn 2020/21. Er mwyn i'r rhaglen gyfalaf gyfredol gael ei hariannu'n llawn dros y chwe blynedd nesaf, caiff y cronfeydd cyfalaf wrth gefn eu lleihau erbyn diwedd 2021/22. Ar ben hynny, rhagwelir y bydd angen benthyca allanol o £64.9m dros yr un cyfnod. Bydd y rhan fwyaf o'r benthyca hwn yn ariannu adeiladu dalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yn cynnig datrysiad ar gyfer y cyfleuster heddlu sydd angen ei moderneiddio yn Aberhonddu, a'r cyfleuster hyfforddi newydd ar gyfer y Gyd-uned Arfau Saethu. Ar hyn o bryd, disgwylir i gost y tri phrosiect cyfalaf hyn fod o gwmpas £35.1 miliwn. Bydd angen benthyca hefyd i gefnogi'r gofynion buddsoddi helaeth mewn seilwaith hanfodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona'n effeithiol.

## 21 Ymgynghoriad Cyhoeddus a Barn y Cyhoedd

21.1 Ar 7 Rhagfyr 2020, lansiodd y Comisiynydd ei ymgynghoriad cyhoeddus ar gyllid yr heddlu ar gyfer 2021/22. Roedd yn bwysig i'r Comisiynydd ei fod yn ceisio barn y cyhoedd a gweithlu Heddlu Dyfed-Powys. Anogodd bawb i fynegi eu barn ynglŷn â'r mater hollbwysig hwn er mwyn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys, fel Gwasanaeth Heddlu, yn gallu parhau i ddiogelu ei gymunedau â'r safon gwasanaeth uchaf posibl.

21.2 Er mwyn cynorthwyo aelodau'r cyhoedd i fynegi eu barn, crëwyd arolwg a gafodd ei rannu a'i hyrwyddo'n eang. Dangosodd y Comisiynydd yr effaith ar Heddlu Dyfed-Powys a'i ddefnyddwyr gwasanaeth pe bai Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn £1, £1.50 a £2 ychwanegol y mis drwy'r Praesept Heddlu Caeodd yr arolwg ddydd Sul 3 Ionawr 2021.

21.3 Gwelodd ymgynghoriad eleni lefel anghyson o ymatebion mewn perthynas â'r 617 ymateb a gafwyd llynedd.

**Tabl 32 – 2021/22 Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Praesept**

| Faint yn fwy fyddech chi'n fodlon ei dalu bob mis drwy'r Praesept Heddlu? | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr ymatebion** | **% yr ymatebion** |
| **Dim mwy** | 123 | 20% |
| **£1 yn fwy** | 101 | 16% |
| **£1.50 yn fwy** | 83 | 14% |
| **£2 yn fwy** | 307 | 50% |
| **Cyfanswm** | **614** | **100%** |

21.4 Byddai mwy na chwech o bob deg (64%) o'r rhai a ymatebodd i arolwg y Comisiynydd yn gefnogol ac yn fodlon talu £1.50 neu £2 yn ychwanegol bob mis drwy Braesept yr Heddlu, gyda 40% o'r rhai sy'n weddill yn fodlon talu £1 ychwanegol bob mis.

## 22 Casgliad

22.1 Fel yr amlinellir yng nghrynodeb y Comisiynydd, o ystyried penderfyniadau ariannu a wnaed yn y gorffennol a maint yr heriau ariannol a'r heriau gweithredol y mae Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth heddlu'n gyffredinol yn eu hwynebu, mae'n hollbwysig sicrhau praesept heddlu a fydd yn diogelu plismona ac yn cefnogi'r gallu i barhau i gyflenwi'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

22.2 Mae'r adroddiad uchod yn nodi'r ystod o ystyriaethau a ffactorau mewnol ac allanol, sydd wedi llywio datblygiad y CATC.

22.3 Mae'r Comisiynydd yn cyflwyno cynnig praesept ar gyfer 2021/22 a thybiaethau sy'n sail i'r CATC hyd 2025/26.


22.4 Gan hynny, mae'r Comisiynydd yn cyflwyno cynnig praesept er mwyn i PHTh Dyfed-Powys graffu arno, a bydd yn codi'r praesept ar gyfer eiddo cyfartalog band D £1.25 y mis neu £15 y flwyddyn i £275.56, sef cynnydd o 5.76%. Mae'r cynnydd hwn yn unol â'r hyblygrwydd a amlinellir gan y Llywodraeth a bydd yn codi cyfanswm praesept o £62.307m. Bydd hyn yn rhoi cyfanswm cyllid canolog craidd a lleol o £119.834m sy'n cynrychioli cynnydd o 6.13% ar lefelau ariannu yn 2020/21.

22.5 Dangosir effaith y Praesept Heddlu hwn ar bob band eiddo isod:

**Tabl 33 - Bandiau'r Dreth Gyngor**

| Tax Band | Basis | 2020/21 | 2021/22 | Increase |
|---|---|---|---|---|
| A | 6/9ths | £173.71 | £183.71 | £10.00 |
| B | 7/9ths | £202.66 | £214.32 | £11.66 |
| C | 8/9ths | £231.61 | £244.94 | £13.33 |
| **D** | **9/9ths** | **£260.56** | **£275.56** | **£15.00** |
| E | 11/9ths | £318.46 | £336.80 | £18.34 |
| F | 13/9ths | £376.36 | £398.03 | £21.67 |
| G | 15/9ths | £434.27 | £459.27 | £25.00 |
| H | 18/9ths | £521.12 | £551.12 | £30.00 |
| I | 21/9ths | £607.97 | £642.97 | £35.00 |

22.6 Bydd y lefel hon o gyllid yn caniatáu i'r Heddlu barhau i ddarparu cyllid penodol i fodloni ei gynlluniau cyflawni gweithredol a strategol gan ddangos gwelliannau yn erbyn blaenoriaethau’r DRhH, cydnerthedd ariannol a gweithredol, argymhellion AHGTAEM a meysydd i'w gwella yr ydym wedi’u nodi ein hunain. Rhagwelir hefyd y bydd y cynlluniau hyn yn cael effaith gadarnhaol o ran cynnal a gwella'r safonau gwasanaeth y gall y cyhoedd eu disgwyl yn ogystal â chael effaith wirioneddol ar lwyth gwaith a lles staff a swyddogion.



Safeguarding our communities together: Working together to provide a first class service that is visible and accessible, ensuring that our communities remain safe. We will be there when the public need us and we will act with fairness and respect in all that we do.
Heddlu Police
DYFED-POWYS
How we will deliver
Supporting victims
Public engagement
Working together
Strong leadership
Value for money
Priority one
Keeping our communities safe
Prevent crime and anti-social behaviour (ASB)
Tackle the harm caused by substance misuse
Reduce and manage offending behaviour
Promote problem-solving approaches to address community issues
Work with partners to improve road safety
Priority two
Safeguarding the vulnerable
Recognise and deal with vulnerability and prevent victimisation
Protect people from domestic abuse and gender-based violence
Enhance our understanding and our response to people with mental ill health
Safeguard children from sexual exploitation and support those who are vulnerable
Encourage positive citizenship in young people
Values
Behaviours
Culture
Beliefs
Code of Ethics
Priority three
Protecting from serious harm
Deliver the Strategic Policing Requirement and respond to emerging threats
Work with communities and partners to disrupt serious and organised crime activity
Address the threat of violent extremism and support those vulnerable to exploitation
Strengthen our ability to deal with the increased threat of cyber-crime
Make the best use of combined resources in our approach to emergency planning
Priority four
Connecting with communities
Adopt an engagement strategy to meet the specific needs of communities
Ensure that the public receive a visible and accessible service
Strengthen opportunities for the community to help deliver policing
Provide a professional response to dealing with complaints and compliments
The difference we will make
Victim satisfaction
Public confidence
Organisational health & well-being
Her Majesty's Inspectorate of Constabulary
Office for Police Conduct
Intelligence
Dyfed-Powys Police & Crime Panel
Commissioned services
Office of the Police & Crime Commissioner
Corporate communications
Criminal Justice
Procurement
Vehicle Maintenance Unit
Integrated Offender Management
Equality & Diversity
Local Policing
Business Support Unit
Continuous Improvement
Custody
Armed Response
School's Liaison
Criminal Investigation Department Operations
Legal & Compliance
Force communications
Specialist Operations
Partnerships
Finance
Collaboration & Efficiency
Public Protection
Professional Standards
People Services
Information, Communication, Technology
Crime Recording
Scientific Support
Roads policing
Special Const. & Volunteers
Civil Contingencies
POLICE & CRIME DELIVERY PLAN 2017-2021

# Heddlu Dyfed-Powys Police TOWARDS 2025




**Building a service fit for 2025 and beyond means working together, working smarter and striving for continuous improvement.**

**We will develop a police service that is forward thinking, innovative and engaged - guided by community needs, demand and intelligence.**

**Mark Collins, Chief Constable**

## Local Policing

**Local policing will be tailored to the needs of our communities - Informed by their priorities and our evidence.**

- Police Officers and PCSOs will be located in the places where our analysis tells us they are needed.
- We will also be visible and accessible online - Available to engage with our communities in ways that suit their needs.
- We will adopt a multi-agency problem solving approach to community problems, focusing on early intervention from the most appropriate agency.

## Specialist Capabilities

**We will build our capacity and continue to test ourselves, so that we are prepared and ready to respond to existing and emerging crime types.**

- We will build specialist capability with other Welsh forces to respond to existing and emerging threats e.g. terrorism, serious and organised crime and cybercrime.
- We will exercise for these threats together, ensuring we are ready to respond when needed.
- We will develop one approach to accreditation of specialist services within Wales (e.g. Collision Investigation), reducing costs and avoiding duplication of effort.

## Workforce

**We will work to retain and recruit confident and capable professionals, empowered to do their best for the communities we serve.**

- We will have a skilled and agile workforce that reflects our communities and look to standardise staff terms and conditions to allow regionalised service delivery.
- We will develop a more responsive approach to workforce planning and use sophisticated demand analysis to inform resource decisions.
- We will embed the Transformational Leadership Programme across Dyfed Powys Police as part of our leadership approach.

## Digital Policing

**New technology will make it easier for our communities to speak with us. It will remove waste from our work and improve processes.**

- We will develop, improve and integrate our digital policing programme to support operational policing and to improve accessibility for the public.
- We will implement a new records management system, reducing bureaucracy and enhancing the scope for collaboration with other Welsh forces.
- We will make best use of digital and mobile services, maximising the time that officers remain operational within their community.

## Business Delivery

**We will be flexible in the way we work - Looking for opportunities to do more with others, reducing waste and duplication.**

- Our procurement processes will seek to maximise on economies of scale, deliver efficiencies and secure ethical arrangements with local suppliers.
- We will actively explore delivery mechanisms for shared services across public sector, balancing the need for high quality cost effective services with the retention of local employment.
- With other public sector bodies we will reduce the public sector estate in Wales and the associated costs, by exploring co-location and limiting our carbon footprint.

## Governance & Accountability

**Clear arrangements for accountability and transparency will make us more agile and adaptable as circumstances change.**

- We will be open to robust scrutiny and challenge, through internal quality assurance arrangements, external audit and inspection.
- We will play an active role within each Public Service Board to improve the economic, social, environmental and cultural well-being.
- We will recognise and address gaps in service through the annual production of a Force Management Statement.

| Category | Original Budget 20/21 £'000 | Revised Budget 20/21 £'000 | 21/22 £'000 | 22/23 £'000 | 23/24 £'000 | 24/25 £'000 | 25/26 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Budgets Managed by the Police and Crime Commissioner** | | | | | | | |
| PCC Office Costs | 1,034 | 1,034 | 1,093 | 1,109 | 1,131 | 1,154 | 1,177 |
| PCC Commissioning | 1,797 | 1,797 | 1,663 | 1,720 | 1,755 | 1,790 | 1,826 |
| Estates Spending | 4,803 | 4,803 | 4,874 | 4,910 | 4,903 | 4,971 | 5,041 |
| Estates Income | -705 | -705 | -755 | -771 | -787 | -803 | -819 |
| PCC Income | -633 | -633 | -661 | -661 | -661 | -661 | -661 |
| PCC Reserves | -100 | -100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Net Costs OPCC** | **6,197** | **6,197** | **6,214** | **6,308** | **6,342** | **6,452** | **6,565** |
| **Budgets Managed by the Chief Constable** | | | | | | | |
| Police Officer | 69,944 | 69,944 | 72,731 | 74,574 | 83,972 | 85,373 | 87,095 |
| Police Staff | 32,640 | 32,540 | 34,467 | 35,315 | 35,756 | 36,404 | 37,217 |
| Police Pensions | 1,644 | 1,644 | 1,682 | 1,713 | 1,741 | 1,770 | 1,799 |
| Indirect Staff Costs | 1,433 | 1,058 | 1,945 | 1,853 | 1,566 | 1,598 | 1,630 |
| Premises Related | 450 | 450 | 485 | 497 | 507 | 517 | 528 |
| Transport Related | 2,049 | 1,974 | 2,050 | 2,117 | 2,068 | 2,079 | 2,091 |
| Supplies and Services | 10,804 | 10,754 | 11,067 | 11,407 | 11,260 | 11,731 | 11,815 |
| Agency and Contracted | 3,584 | 3,434 | 3,994 | 4,560 | 4,853 | 5,305 | 6,771 |
| Capital Borrowing Costs | 181 | 181 | 421 | 1,331 | 2,782 | 4,104 | 4,554 |
| Direct Capital Financing | 850 | 850 | 1,852 | 2,604 | 2,604 | 3,104 | 3,604 |
| **Total Gross Spending - Force** | **123,578** | **122,828** | **130,695** | **135,971** | **147,111** | **151,986** | **157,104** |
| Income | -5,516 | -5,516 | -5,325 | -5,637 | -5,775 | -5,917 | -6,061 |
| PUP | -1,190 | -1,190 | -700 | -3,379 | -3,822 | -3,822 | -3,822 |
| Pensions | -1,302 | -1,302 | -1,302 | -1,302 | -8,130 | -8,130 | -8,130 |
| Specific Grants | -7,963 | -7,963 | -7,933 | -7,903 | -7,873 | -7,843 | -7,813 |
| Recharges and Apportionments | -190 | -190 | -190 | -190 | -190 | -190 | -190 |
| **Net Spending - Force** | **107,417** | **107,417** | **115,245** | **117,561** | **121,320** | **126,084** | **131,088** |
| Use of (-) / Contribution to (+) Balar | -703 | 47 | -1,626 | -200 | -200 | -200 | -200 |
| **Total Spending OPCC and Force** | **112,910** | **112,910** | **119,834** | **123,669** | **127,462** | **132,336** | **137,452** |
| **Financing** | | | | | | | |
| Police Grant | -40,967 | -40,967 | -44,497 | -44,497 | -44,497 | -45,164 | -45,842 |
| NNDR | -9,514 | -9,514 | -13,030 | -13,030 | -13,030 | -13,225 | -13,424 |
| RSG | -3,635 | -3,635 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Precept | -58,793 | -58,793 | -62,307 | -66,142 | -69,935 | -73,946 | -78,186 |
| **Total Central Grants and Precept** | **-112,910** | **-112,910** | **-119,834** | **-123,669** | **-127,462** | **-132,336** | **-137,452** |
| **Difference - Annual Surplus (-) o** | **-0** | **-0** | **0** | **-0** | **0** | **0** | **-0** |
| **Taxbase** | 225,641 | 225,641 | 226,109 | 228,596 | 230,197 | 231,808 | 233,431 |
| **COUNCIL TAX LEVEL** | **£260.56** | **£260.56** | **£275.56** | **£289.34** | **£303.80** | **£319.00** | **£334.94** |
| Council Tax Increase | 4.83% | 4.83% | 5.76% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% |
| **Taxbase @ Band D** | **2020/21** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
| Carmarthenshire | 74,007 | 74,007 | 74,425 | 75,244 | 75,771 | 76,301 | 76,835 |
| Powys | 62,397 | 62,397 | 62,584 | 63,273 | 63,716 | 64,162 | 64,611 |
| Ceredigion | 31,936 | 31,936 | 31,911 | 32,262 | 32,488 | 32,716 | 32,945 |
| Pembrokeshire | 57,302 | 57,302 | 57,188 | 57,818 | 58,222 | 58,630 | 59,040 |
| Taxbase | **225,641** | **225,641** | **226,109** | **228,596** | **230,197** | **231,808** | **233,431** |

1. Mae adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar y materion canlynol i'r Comisiynydd ar adeg pennu'r gyllideb:
   - sicrwydd yr amcangyfrifon a wnaed at ddibenion cyfrifiadau;
   - a digonolrwydd y cronfeydd ariannol arfaethedig.
2. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd a Phanel yr Heddlu a Throseddu ystyried yr adroddiad hwn wrth ystyried a gwneud penderfyniadau mewn cysylltiad â'r gyllideb.
3. Mae'r gyllideb arfaethedig a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ffigurau cadarn, a baratowyd gan y CC ond mewn ymgynghoriad â mi, y PSC. Mae'r amcangyfrifon manwl wedi cael eu paratoi ar sail realistig ac o ganlyniad i waith cynhwysfawr a wnaed gan Gyllid Corfforaethol ar y cyd ag uwch swyddogion ar draws yr Heddlu ac maent wedi bod yn destun adolygiad a thrafodaeth drwy gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.
4. Mae'r is-grŵp CATC, a sefydlwyd yn ystod 2018, wedi parhau o ddifrif i ystyried yr amrywiaeth o faterion a thybiaethau ariannol, sydd wedi llywio'r gyllideb hon. Mae llawer o waith wedi'i wneud hefyd o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol i ystyried gofynion cyfalaf dros gyfnod hirach gan ganolbwyntio'n benodol ar ofynion buddsoddi a chynnal a chadw Ystadau a fydd yn parhau dros y misoedd nesaf. Er bod y rhaglen gyfalaf yn cynnwys nifer o dybiaethau ac ansicrwydd; mae wedi tynnu sylw at y gofynion tymor hwy a'r goblygiadau canlyniadol i'r gyllideb refeniw.
5. Mae'r CATC hefyd yn cymryd sylw o'r adolygiad beirniadol o'r galw am wasanaethau a wnaed ac mae hefyd yn mynd i'r afael â materion yr aseswyd eu risg a materion â blaenoriaeth a nodwyd yn y DRhH. Gwnaed ymdrechion sylweddol yn ystod 2020/21 i gryfhau'r cysylltiad rhwng yr DRhH a'r CATC. Bu'r tîm Cyllid Corfforaethol yn gweithio gydag arweinwyr swyddogaethol i gostio'r DRhH a chynhaliodd y Prif Swyddogion sesiynau her i asesu risg a blaenoriaethu'r blaenoriaethau i'w cynnwys yn y cyflwyniad cyllideb ar gyfer 2021/22. Cymerais ran yn y sesiynau hyn, a oedd yn ddefnyddiol o ran darparu mewnwelediad a sicrwydd. Mae manylion pellach am y gwaith hwn yn adran 7 ynghyd ag amlinelliad o'r bylchau a'r heriau mwyaf sylweddol a nodwyd yn y DRhH yn adran 5. Mae'r goblygiadau ariannol sy'n codi o'r DRhH sydd wedi'i flaenoriaethu a'i asesu ar gyfer risgiau wedi'u hadlewyrchu o fewn y CATC hwn lle bo'n briodol
6. Mae darpariaeth briodol wedi'i gwneud ar gyfer cynnydd realistig mewn cyflog a phrisiau, a lefelau incwm y gellir eu cyflawni. Er mwyn llywio'r tybiaethau, mae'r CC a minnau wedi cymryd sylw o ystod eang o ddata ariannol ac economaidd, cyhoeddiad y Canghellor mewn perthynas â rhewi cyflogau sector cyhoeddus yn ogystal â pharhau i ymgysylltu'n agos â rhwydweithiau proffesiynol i lywio tybiaethau.
7. Mae'r Prif Gwnstabl yn parhau i adrodd ar berfformiad ariannol yn fisol drwy'r Bwrdd Plismona ac yn chwarterol drwy Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Darperir diweddariadau hefyd i'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol sydd newydd ei sefydlu a hefyd drwy'r Grŵp Cyllid a Chaffael.

Mae cyllid hefyd yn eitem safonol ar yr agenda ar gyfer grwpiau llywodraethu eraill er mwyn sicrhau bod materion yn codi'n briodol ac yn amserol. Rwy'n cwrdd unwaith bob pythefnos â'r CC a cheir cydweithio agos â'r tîm Cyllid Corfforaethol mewn perthynas â nifer o feysydd penodol, sy'n effeithio ar baratoi'r gyllideb a'r CATC. Darparodd Cyllid Corfforaethol hefyd gyfres o sesiynau hyfforddiant rheolaeth ariannol i uwch reolwyr ar draws y sefydliad yn ystod 2019, ac maent hwy eu hunain wedi ymgymryd â hyfforddiant Partneru Busnes ychwanegol a ddarparwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

8. Bu llawer o ganolbwyntio ar y gofynion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd dros y 10 mlynedd diwethaf, ac mae'r Llywodraeth wedi nodi disgwyliadau penodol iawn yn hyn o beth. Felly, mae'r Cynllun Effeithlonrwydd yn ffordd strwythuredig o leihau gwariant mewn modd rheoledig. Mae'r tybiaethau ar gyfer arbedion, effeithlonrwydd a thrawsnewid gwasanaethau yn uchelgeisiol ond dylai fod yn bosibl eu cyflawni trwy reolaeth a monitro agos drwy'r strwythur llywodraethu diwygiedig, er y cydnabyddir bod peth risg yn perthyn i'r cynllun o ran cyrraedd y nod.

9. Rhagwelir y bydd y Cynllun Effeithlonrwydd ar gyfer 2021/22 yn cyflawni arbedion digonol er mwyn mantoli'r gyllideb ond dylid cydnabod ei bod yn anos cyflawni arbedion ac amcanion effeithlonrwydd. Cymerodd yr Heddlu ran mewn ymarfer gan y Swyddfa Gartref ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn ystod 2020. Roedd y canlyniadau'n rhoi dadansoddiad defnyddiol o'r darlun ar draws plismona ac yn caniatáu croesgyfeirio mewnol i sicrhau bod yr holl gyfleoedd yn cael eu harchwilio. Er mwyn bodloni disgwyliadau'r Llywodraeth a heriau ariannol y dyfodol dros gyfnod y CATC, bydd angen parhau i ganolbwyntio ar nodi cyfleoedd effeithlonrwydd pellach. Bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio gan y Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol gydag ymdrech ar y cyd i hyrwyddo ac ymgorffori egwyddorion effeithlonrwydd ym mhob rhan o'r sefydliad.

10. Fel rhan annatod o gyflawni'r cynllun effeithlonrwydd hwn, sefydlodd yr heddlu swydd Gwireddu Buddion Busnes i weithio gydag uwch reolwyr i sicrhau bod manteision yn cael eu gwireddu a'u cipio'n briodol. Mae llawer o waith wedi'i wneud yn ystod 2020/21 i asesu a mesur manteision busnes ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi'u cyflawni neu sydd eisoes ar waith. Mae templed cynnig prosiectau newydd wedi'i ddatblygu i sicrhau bod pob agwedd ar brosiectau yn cael ei hystyried mewn modd cyson. Mae'r Grŵp Newid a Thrawsnewid yn adolygu holl gynigion y prosiect yn feirniadol cyn rhoi cymeradwyaeth i ddatblygu achosion busnes manylach. Mae Cyllid Corfforaethol yn gweithio gyda'r Swyddog Buddion Busnes ac uwch reolwyr i sicrhau bod arbedion a manteision ariannol yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiadau ariannol.

11. Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn unigryw, yn enwedig wrth i effeithiau pandemig Covid-19 barhau i ddatblygu. Mae graddfa ymyriadau ariannol y Llywodraeth wedi bod yn enfawr a bydd hyn yn sicr o gael effaith ganlyniadol ar yr economi a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r cefndir economaidd hwn yn effeithio ar

gynllunio ariannol gydag ansicrwydd ariannu parhaus. Mae'n hanfodol tynnu sylw at yr anawsterau o ran cynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir pan fydd cyhoeddiadau cyllid y llywodraeth yn cael eu cyhoeddi ar gyfer un flwyddyn yn unig ac weithiau'n cael eu hysbysu'n hwyr. Mae yna hefyd nifer o grantiau penodol, sy'n sail i weithgarwch plismona craidd yn lleol ac yn rhanbarthol, gan gynnwys y grantiau penodol i gefnogi'r broses recriwtio ar gyfer Ymgyrch Uplift, yn ogystal â'r grant Pensiynau. Nid yw'r ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid yn y dyfodol o gymorth mawr ar gyfer darparu gwasanaethau a chynllunio ariannol. Mae tybiaethau gofalus wedi'u gwneud ar gyfer y CATC, ond bydd angen ailedrych ar y blynyddoedd i ddod wrth i wybodaeth ddod i'r amlwg.

12. Rhagwelwyd y byddai'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) a gychwynnwyd yn ystod haf 2020 yn darparu setliad tair blynedd ond, o ystyried digwyddiadau 2020, nid yw'n syndod mai dim ond setliad blwyddyn a gafwyd unwaith eto. Mae'r diffyg eglurder ynghylch cyllid yn y dyfodol yn ei gwneud yn amhosibl cynllunio'n gynaliadwy ac mae risg gynhenid iddo.

13. Er na chafwyd unrhyw arwyddion diweddar, efallai y bydd y Llywodraeth yn ailddechrau ei gwaith ar yr adolygiad o fformiwla ariannu'r heddlu. Awgrymodd fersiwn blaenorol y gwaith hwn effaith sylweddol ar Heddlu Dyfed-Powys gyda cholled o tua £8 miliwn o gyllid grant. O ystyried yr ansicrwydd a maint y gostyngiadau hyn, nid yw'r CATC yn adlewyrchu unrhyw dybiaethau ar hyn o bryd ond mae'r risg wedi'i chofnodi ar y cofrestrau risg corfforaethol. Bydd y CC a minnau yn cyfrannu at unrhyw waith cenedlaethol ar hyn, a gweithio ar opsiynau ar gyfer datblygu modelau cyflawni dichonadwy yn ôl yr angen.

14. Er y croesawyd y cynnydd mewn cyllid craidd a'r grant penodol i gefnogi'r broses o recriwtio swyddogion drwy Ymgyrch Uplift, mae pryderon o hyd na fydd costau'r dyfodol yn cael eu talu yn eu cyfanrwydd gan grant y llywodraeth. Mae pryderon hefyd y gallai dewisiadau trawsnewidiol y gwasanaeth yn y dyfodol gael eu rhwystro'n ormodol gan y ddeuoliaeth a'r gwrthdaro yn erbyn gofynion a disgwyliadau'r llywodraeth mewn perthynas â niferoedd Swyddogion yr Heddlu. Fodd bynnag, mae elfennau cynnil y materion cymhleth hyn yn parhau i gael eu codi ar lefel genedlaethol.

15. Mae hefyd yn bwysig nodi bod ansicrwydd ynghylch goblygiadau ariannol dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos McCloud/Sargeant fod y amddiffyniad a gynhwysir ar gyfer pontio yn y Farnwriaeth a Diwygiad Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y llywodraeth ei bod yn derbyn bod y dyfarniad yn berthnasol i bob un o gynlluniau pensiwn y prif wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu. Mae gwaith cynnar yn awgrymu y gallai cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer Swyddogion yr Heddlu gynyddu i tua 45% yn 2023/24 ac nid oes sicrwydd y bydd y gost ychwanegol sylweddol hon yn cael ei thalu drwy gyllid grant.

16. Mae angen monitro digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ofalus er mwyn sicrhau y caiff ei gynnal ar lefel gynaliadwy. Mae proffil

tybiedig cyllid a chost gwasanaethau o fewn y CATC yn rhagweld gostyngiad yn y Cronfeydd Cyffredinol o 3.57% o Wariant Refeniw Net ar ddiwedd 2020/21 i 2.93% erbyn diwedd 2025/26. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r cynnydd yn y gyllideb refeniw net yn hytrach na'r defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae'r lefelau hyn yn cymryd nad oes gofynion i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol fodloni beichiau ariannol annisgwyl.

17. Mae'r penderfyniad blaenorol i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gynnal costau refeniw blynyddol yn ddiau wedi achosi straen o ran cynaliadwyedd dros y tymor canolig. Wrth bennu CATC y llynedd rhagwelwyd y byddai'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael ei liniaru erbyn diwedd 2020/21, fodd bynnag o ystyried y pwysau ariannol a'r galwadau a wynebwyd, mae'r cyfnod hwn bellach wedi'i ymestyn hyd at 2021/22.

18. Drwy'r adolygiad parhaus o'r ystod o ystyriaethau ynghylch cronfeydd wrth gefn, sefydlir cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i helpu i gyflawni mentrau penodol neu i liniaru yn erbyn risgiau penodol. Wrth baratoi'r CATC, rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith monitro ariannol yn ystod y flwyddyn ac mae nifer o symudiadau wedi'u cynnig i'r Comisiynydd. Ar gyfer 2020/21 bydd hyn yn arwain at greu cronfa gyfreithiol wrth gefn i helpu i liniaru amlygiad o ganlyniad i gynnydd mewn premiymau yswiriant a therfynau hunanyswirio, gostyngiad bach i Gronfa Wrth Gefn Gweithrediadau'r Prif Gwnstabl sydd wedi'i chlustnodi i helpu i liniaru effeithiau ariannol uchafbwyntiau ac isafbwyntiau blynyddol mewn digwyddiadau critigol a mawr. Mae'r CATC hefyd yn cynnwys defnyddio'r gronfa Cynaliadwyedd a Thrawsnewid i gefnogi mentrau sefydliadol arloesol a fydd hefyd yn helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

19. Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi hefyd a ddelir gan y Comisiynydd i ariannu mentrau Cymunedol a Diogelwch ar y Ffyrdd ynghyd â rhai cronfeydd wrth gefn wedi'u diogelu a ddelir i bob pwrpas ar ran trydydd partïon ar gyfer y bartneriaeth 'Gan Bwyll' ac ar gyfer y Trefniadau Cydweithredu.

20. Fel y nodir yn y strategaeth cronfeydd wrth gefn, bydd digonolrwydd y gronfa Gyffredinol a chronfeydd wrth gefn penodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

21. Mae'r dull gweithredu cadarn o ran rheoli risg a blaenoriaethu buddsoddi wedi galluogi datblygiadau seilwaith hanfodol a sicrhau gwasanaeth heddlu cynaliadwy. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol ond yn ogystal â galluogi arbedion effeithlonrwydd, mae yna hefyd oblygiadau o ran costau yn sgil gwneud hynny.

22. Mae cryn ffocws o hyd ar y Rhaglen Gyfalaf a'r Strategaeth o dan gyfarwyddyd y Grŵp Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol, ac er ei fod yn cynnwys nifer o dybiaethau ac ansicrwydd, mae'r CATC yn ystyried y gofynion buddsoddi am gyfnod o ddeng mlynedd. Mae ariannu'r rhaglen hon yn heriol o gofio bod y Grant Cyfalaf wedi'i ostwng o £325k i £85 y flwyddyn ac mae cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn cael eu defnyddio. Mae'r CATC hwn yn ceisio cynyddu'r cyfraniad refeniw blynyddol i gyfalaf yn raddol i lefel gynaliadwy a chadw'r gofyniad benthyca allanol at

isafswm fforddiadwy, ond mae hyn yn naturiol yn achosi pwysau blynyddol ychwanegol o fewn y gyllideb refeniw.

23. Mae tri datblygiad cyfalaf mawr y bydd angen eu hariannu drwy fenthyca – yn arbennig cyfleuster Dalfa/Gorsaf Llanelli, cyfleusterau gorsaf newydd/wedi'u hadnewyddu yn Aberhonddu a chyfleuster hyfforddi newydd gofynnol ar gyfer y Gyd-unedau Arfau Saethu cydweithredol. Mae gwasanaethu'r gofynion benthyg yn ychwanegu pwysau blynyddol ychwanegol i'r gyllideb refeniw. Mae'r holl brosiectau hyn yn destun llywodraethu ffurfiol a diwydrwydd dyladwy priodol ond, oherwydd nifer o faterion, mae costau pob un wedi cynyddu ers iddynt gael eu cydnabod o fewn y rhaglen gyfalaf i ddechrau. Mae gwaith yn cael ei wneud i asesu cyflwr y cyfleuster presennol yn Aberhonddu yn feirniadol. Bydd opsiynau datblygu wedyn yn cael eu gwerthuso ymhellach maes o law. Cryfhawyd prosesau llywodraethu o amgylch Ystadau dros y misoedd diwethaf a bydd gwaith pellach yn parhau hyd at 2021/22 mewn perthynas â rheoli prosiectau, contractau, perfformiad ac arian.

24. Er gwaethaf y cynnydd tybiedig yn y praesept treth gyngor, y grant craidd a'r defnydd o gronfeydd refeniw, mae angen gofynion effeithlonrwydd parhaus dros dymor y CATC ac mae'r ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn y dyfodol yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd ehangach yn golygu y bydd yr amgylchedd ariannol yn debygol o barhau i fod yn heriol hyd y gellir rhagweld.

25. Mae'r CATC hwn wedi ystyried a dogfennu'n llawn yr amrywiaeth o faterion a thybiaethau hysbys sydd ag effaith dros y cyfnod cynllunio ac rwy'n fodlon bod y cynigion ar gyfer 2021/22 yn cynhyrchu cyllideb gytbwys a bod lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. Fodd bynnag, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i wynebu heriau ariannol ac mae angen ffocws parhaus er mwyn sicrhau cadernid ariannol a chynaliadwyedd i arhau i amddiffyn cymunedau Dyfed-Powys.

**Beverley Peatling**

**Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cyflogau Swyddogion yr Heddlu | 48.1% | Uchel | Nid yw goramser a ysgwyddir ar ddigwyddiadau/gweithrediadau/ymchwiliadau mawr yn cael ei reoli a'i fonitro ac felly mae'n mynd y tu hwnt i'r gyllideb.<br>Gallai'r lwfansau a delir ar gyfer taliadau bonws ac ati fod y tu hwnt i'r gyllideb.<br>Mae nifer y swyddogion mewn swyddi yn cynyddu uwchlaw lefel cyllid cymeradwy'r sefydliad.<br>Mae tybiaethau wedi'u gwneud mewn perthynas â dyfarniadau cyflog yn y dyfodol ond nid oes sicrwydd yn eu cylch hyd nes y cânt eu pennu'n derfynol.<br>Ni chaiff costau llawn Ymgyrch Uplift eu hariannu'n llawn gan Grant y Llywodraeth.<br>Bydd disgwyliadau'r Llywodraeth ac amodau'r grant i gefnogi Ymgyrch Uplift yn gwrth-ddweud ac yn llesteirio'r heddlu yn ei broses drawsnewid a'i allu i fodloni gofynion effeithlonrwydd ac arbedion yn y dyfodol. | Sefydlodd y Grŵp Aur ar gyfer Cyllid is-grŵp Goramser yn ystod 2018 a roddodd reolaethau ychwanegol ar waith mewn perthynas â phob agwedd ar reoli ariannol a rheoli goramser, gan gryfhau'r gwaith o adrodd ar faterion ariannol i hwyluso monitro amserol a chywir.<br>Mae'r gwaith bellach wedi'i gynnwys yn ffurfiol yng Ngrŵp Adnoddau'r Heddlu, ac mae cryfhau'r trefniadau wedi helpu i ymgorffori ethos cryf ac ymwybyddiaeth o'r angen ar gyfer rheolaeth ariannol drwy'r holl sefydliad.<br>Sefydlwyd Cronfa Wrth Gefn y Prif Gwnstabl i leddfu uchafbwyntiau ac isafbwyntiau digwyddiadau mawr a thyngedfennol. Ar ôl ystyried y risg a'r gofynion, rhagwelir y bydd y gronfa hon yn cyrraedd lefel o £311k ddiwedd 2020/21.<br>Mae cynrychiolaeth cyllid ar yr holl grwpiau aur a grwpiau ymchwilio gweithredol eraill yn digwydd bellach fel rhan o'r drefn arferol. Mae hyn yn golygu bod modd monitro goramser a chostau eraill yn ofalus ym mhob cyfarfod, gydag adroddiadau amserol sy'n hwyluso gwneud penderfyniadau.<br>Caiff y sefydliad ei fonitro drwy brosesau llywodraethu ffurfiol ac mewn manylder gan Grŵp Adnoddau'r Heddlu. barhaus fel rhan o'r broses rheoli cyllidebol. |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae gan Adnoddau Dynol gynllun recriwtio ar gyfer y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar y nifer a ragamcanir o swyddogion heddlu sy'n ymddeol, yn ymadael, yn cael eu trosglwyddo a swyddogion ychwanegol fel rhan o Raglen Uplift yr Heddlu. Caiff y nifer gofynnol o dderbyniadau troseddwyr ar brawf ei gynllunio a'i bennu yn unol â hynny, gan gryfhau trefniadau i sicrhau bod targedau'r Swyddfa Gartref yn cael eu diwallu, gydag adroddiadau ychwanegol i'r Swyddfa Gartref drwy gydol y flwyddyn.<br>Sefydlwyd Grŵp Aur i reoli Rhaglen Uplift yr Heddlu a bydd yr effaith a'r goblygiadau yn cael eu codi drwy'r strwythur llywodraethu diwygiedig. Mae cyflwyniadau yn parhau i gael eu cyflwyno mewn perthynas â'r goblygiadau ehangach a chanlyniadau anfwriadol, o bosib, Ymgyrch Uplift. Mae'r Grŵp hwn bellach yn cael ei fonitro'n llwyr gan Grŵp Adnoddau'r Heddlu.<br>Mae'r cyllidebau cyflog yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses rheoli cyllidebol. Gydag adroddiadau ffurfiol drwy'r strwythur llywodraethu i gyd. Trafodir perfformiad ariannol yn rheolaidd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn y Bwrdd Plismona, y Bwrdd Atebolrwydd Plismona ac o fewn Seminarau Cyllid penodedig gyda Phanel yr Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru. Mae materion ariannol hefyd yn cael eu trafod mewn perthynas â'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyfodol, y Grŵp Cyllid Strategol a Chaffael a Grŵp CATC. |
| Costau Cyflogau Staff yr Heddlu (gan gynnwys Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) | 29.7% | Uchel | Mae nifer y staff mewn swyddi yn cynyddu uwchlaw lefel cyllid cymeradwy'r sefydliad.<br>Pennir costau prosiectau lle mae angen staff y tu allan i oriau gwaith arferol yn gywir ar gyfer costau ychwanegol fel goramser ac ati.<br>Mae cyllid ar gyfer SCCHau wedi'i leihau neu ei ddirwyn i ben. | Caiff y sefydliad ei fonitro drwy drefniadau llywodraethu ffurfiol ac mewn manylder gan y Bwrdd Rheoli Adnoddau. barhaus fel rhan o'r broses rheoli cyllidebol. Mae proses Porth wedi'i sefydlu i fonitro a rheoli'r holl newidiadau i'r sefydliad ac yn wir caiff pob swydd ei hadolygu a'i hystyried yn llawn cyn ei hysbysebu.<br>Caiff y cyllidebau cyflog eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses rheoli cyllidebau. Gydag adroddiadau ffurfiol drwy'r strwythur llywodraethu. Caiff perfformiad ariannol ei drafod yn rheolaidd gan y CHTh a'r PG ar y Bwrdd Plismona, y Bwrdd Atebolrwydd Plismona ac mewn Seminarau Cyllid penodedig gyda'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru. Trafodir materion ariannol hefyd mewn perthynas â'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol, y Grŵp Cyllid Strategaethol a Chaffael a'r Grŵp CATC.<br>Mae sylwadau blynyddol yn parhau i gael eu gwneud i Lywodraeth Cymru o ran cyllid SCCHau. |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | 13.1% | Uchel | Arweiniodd effaith y Cyfarwyddyd Prisio pensiynau yn 2018 at gost ychwanegol sylweddol gyda chyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn cynyddu o 22.1% i 31%. Derbyniwyd arian ychwanegol i helpu i liniaru'r effaith ond nid oes sicrwydd o barhad | Cysylltiedig â chostau cyflog swyddogion yr heddlu uchod.<br>Y gallu i ddiwygio proffiliau recriwtio yn ystod y flwyddyn, er bod rhaid cydnabod y gwrthdaro o ran gofynion Ymgyrch Uplift. |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | | y grant penodol. Mae newidiadau i brisiadau pensiwn yn y dyfodol yn parhau i fod yn risg.<br>Yn ogystal â hyn, mae cryn ansicrwydd mewn perthynas â goblygiadau ariannol dyfarniad y Goruchaf Lys mewn perthynas ag achos McCloud/Sargeant, a ganfu wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Derbyniodd y llywodraeth fod y dyfarniad hwn yn berthnasol i holl brif gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus gan gynnwys yr Heddlu. Ni ddisgwylir yr ateb terfynol tan yn ddiweddarach yn 2021 ond mae arwyddion y gallai hyn wneud i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr gynyddu i tua 45%. Ni chafwyd unrhyw arwyddion y bydd y pwysau hyn yn cael eu talu o gyllid grant ychwanegol hyd yma. | Yn hanesyddol, mae newidiadau mawr sydd â goblygiadau ariannol sylweddol wedi cael eu hariannu drwy'r Swyddfa Gartref ac yna wedi'u hystyried mewn adolygiadau actiwaraidd diweddarach. |
| Costau Staff Anuniongyrchol | 1.6% | Canolig | Gallai'r rhain gynyddu y tu hwnt i'r gyllideb.<br>Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch yr ariannu parhaus ar gyfer recriwtio i'r heddlu ar gyfer Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (PEQF).<br>Mae pwysau costau yswiriant yn cael eu monitro | Mae cyllidebau hyfforddi wedi'u pennu i adlewyrchu gofynion sy'n hollbwysig yn weithredol. Caiff cyllidebau eu monitro'n fisol a bydd Grŵp Blaenoriaethu Hyfforddiant yn ystyried blaenoriaethau hyfforddi cyn cyflwyno hyfforddiant.<br>Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i drafod a monitro gofynion hyfforddi ar y Bwrdd Plismona.<br>Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â chyllid yn y dyfodol i |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gefnogi Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu.<br>Mae pwysau yswiriant wedi'u cydnabod o fewn y gyllideb ar gyfer 2021/22 ac mae cronfa newydd yn cael ei chynnig i liniaru yn erbyn cynnydd mewn amlygiad sy'n gysylltiedig ag yswiriant. |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Costau Safleoedd | 3.8% | Canolig | Er gwaethaf rhaglen waith i fynd i'r afael â chyflwr yr ystâd, efallai y bydd angen cynyddu costau refeniw i sicrhau bod yr ystâd yn cael ei chynnal fel amgylchedd gwaith diogel i staff a swyddogion.<br>Gallai amrywiadau mewn costau trydan a nwy barhau o ganlyniad i amodau'r farchnad ac amodau tywydd mwy eithafol. | Caiff gofynion ystadau'r rhaglen gyfalaf eu hystyried yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses pennu cyllideb flynyddol ac mae wedi bod yn destun adolygiad penodol gan y Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol gyda golwg 10 mlynedd estynedig ar gyfer y CATC hwn.<br>Cryfhawyd trefniadau llywodraethu o ran Ystadau yn ystod diwedd 2020 Mae'r Grŵp Ystadau Strategol yn dod â staff allweddol o fewn Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu ynghyd bob mis i drafod materion yn ymwneud ag ystadau, gan gynnwys cyllid. Gwnaed cryn dipyn o waith gan y grŵp hwn i ddatblygu methodoleg flaenoriaethu seiliedig ar risg ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Caiff y materion eu trosglwyddo i'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol a gaiff ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.<br>Adolygiad o'r defnydd o ynni er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd buddsoddi i arbed.<br>Cyflwyno cais grant mewn perthynas â chyllid ar gyfer mentrau cynaliadwyedd.<br>Bydd y Grŵp Cynaliadwyedd yn ystyried cyfleoedd pellach ac yn goruchwylio'r Gronfa Cynaliadwyedd a Thrawsnewid. |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Costau Trafnidiaeth | 1.7% | Canolig | Er bod newidiadau arfaethedig i faint y fflyd, mae costau tanwydd yn aml yn destun amrywiadau sylweddol yn y farchnad a gallai hynny gynyddu'r costau rhedeg.<br>Gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd arwain at gostau tanwydd uwch yn y dyfodol a chael effaith ar argaeledd a chostau darnau sbâr. | Caiff gofynion fflyd y rhaglen gyfalaf eu hystyried yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses pennu cyllideb flynyddol ac mae wedi bod yn destun adolygiad penodol gan y Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol gyda golwg 10 mlynedd estynedig ar gyfer y CATC hwn.<br>Mae'r Grŵp Cerbydau Strategol yn cyfarfod i drafod y fflyd cerbydau – caiff y grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid a chaiff materion eu trosglwyddo i'r Grŵp Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol.<br>Caiff prisiau tanwydd eu monitro a chaiff eu heffaith ei hasesu'n rheolaidd drwy'r gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn sydd ar waith.<br>Mae data telemateg yn caniatáu i'r Heddlu fonitro defnydd cerbydau a gwneud y gorau o faint y fflyd.<br>Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys darpariaeth er mwyn parhau i fabwysiadu cerbydau trydan a fydd yn golygu enillion o ran effeithlonrwydd ac arbedion eraill.<br>Mae effeithiau posibl gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu monitro ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Cyflenwadau a Gwasanaethau a Chomisiynu | 10.6% | Canolig | Gallai archebion nad ydynt yn bryniadau arwain at orwario yn erbyn y gyllideb.<br>Gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd arwain at brinder o ran cyflenwad a chynnydd mewn costau. | Caiff archebion prynu eu prosesu gyda gwiriad cyllideb cynwysedig ar gyfer eitemau o werth uchel.<br>Mae'r Adran Gaffael yn sicrhau bod y broses o gaffael nwyddau a gwasanaethau yn cael ei gwneud yn unol â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol.<br>Mae gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn wedi eu sefydlu ac yn cael eu dilyn.<br>Dylai sefydlu BlueLight Commercial yn ystod 2020/21 hwyluso a sicrhau rhai arbedion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r Heddlu'n ymwneud yn llawn â'r gwaith.<br>Caiff y gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ac fe'u goruchwylir gan y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu. |
| Gwasanaethau dan Gontract gydag Asiantaethau | 3.3% | Canolig | Costau ychwanegol a chynyddol sy'n deillio o'r trefniadau cydweithredu – yn benodol yr Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol, y Gyd-uned Arfau Saethu a'i chyfleuster hyfforddi. | Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gryfhau'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol sy'n gysylltiedig â chydweithredu, ac mae trefniadau adrodd gwell bellach ar waith. |
| Ariannu Cyfalaf | 1.9% | Uchel | Mae graddfa'r gofynion buddsoddi cyfalaf yn sylweddol a byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cynyddu costau benthyg. | Cyngor allanol gan Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys<br>Mae'r Strategaeth gyfalaf, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'u cysoni. |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae gofynion buddsoddi cyfalaf yn parhau i gael eu hadolygu. |
| Grant Penodol | -8.2% | Uchel | Ni ellir cynnal y gwasanaethau hanfodol sy'n cael eu cefnogi gan grant.<br>Beichiau ariannol ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad i golli/ gostwng cyllid grant.<br>Dylid defnyddio grantiau yn unol â thelerau ac amodau'r grant.<br>Gall darparwyr grantiau ddod â thaliadau grant i ben heb fawr ddim rhybudd. | Mae cynrychiolaethau lleol, rhanbarthol a cenedlaethol yn parhau i gael eu cyflwyno mewn perthynas â'r ystod o grantiau penodol sy'n sail i blismona craidd.<br>Caiff y tybiaethau mewn perthynas â phob grant penodol eu hystyried yn flynyddol ac fel mater o drefn fel rhan o fonitro ariannol.<br>Dylai swyddi sy'n cael eu hariannu gan grantiau gael eu recriwtio ar sail dros dro am gyfnod y grant lle bynnag y bo modd, gyda'r Grŵp Rheoli Sefydliad yn craffu ar yr holl newidiadau i'r swyddi hyn, a'r newidiadau'n cael eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Phennaeth Adnoddau Dynol.<br>Awdurdodir yr holl delerau grant gan y PSC.<br>Mae cynlluniau ymadael cynhwysfawr yn parhau i gael eu datblygu ar gyfer pob gweithgaredd penodol a gefnogir gan grant allanol.<br>Caiff gwasanaethau a gomisiynir a gefnogir gan grant penodol eu hawdurdodi gan y Comisiynydd a'r Cyfarwyddwr Comisiynu ar ôl ymgynghori â'r PSC. |
| Incwm Arall | -4.4% | Canolig | Mae targedau incwm yn cael eu tangyflawni o ganlyniad i lefelau gweithgarwch sy'n is na'r hyn a ragwelwyd. | Mae'r Grŵp CATC a Chyllid Strategol a Chaffael yn ystyried cyfleoedd i uchafu cynhyrchu incwm gyda deiliaid cyllideb yn cael eu hannog yn frwd i ddatblygu cyfleoedd. |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Caiff incwm ei adolygu a'i fonitro fel rhan o drefniadau rheolaeth ariannol a rheolaeth gyllidebol. |
| Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn | -1.3% | Uchel | Mae cronfeydd wrth gefn yn sail i'r gyllideb refeniw sy'n achosi anawsterau o ran cynaliadwyedd yn y blynyddoedd i ddod.<br>Ni ellir bodloni'r pwysau annisgwyl ar gyllidebau a achosir yn bennaf gan alw heb gael effaith andwyol arnynt. | Adolygiad blynyddol ac ystyriaeth o'r Strategaeth cronfeydd wrth gefn sy'n amlinellu'r dull a'r trefniadau<br>Mae'r CATC yn lleihau lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n sail i'r gyllideb refeniw dros y flwyddyn nesaf.<br>Creu cronfa wrth gefn weithredol i liniaru'r uchafbwyntiau gyda digwyddiadau difrifol a mawr.<br>Cafodd cronfa yswiriant ei chreu i liniaru yn erbyn cynnydd mewn lefelau amlygiad hunanyswirio.<br>Mae'r Grŵp CATC yn parhau i adolygu gofynion y tymor canolig, cronfeydd wrth gefn a chyllid gyda materion yn cael eu trosglwyddo i'r Grŵp Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol lle bo'n briodol.<br>Mae'r broses o fonitro'r sefyllfa ariannol yn rheolaidd yn digwydd drwy'r strwythur llywodraethu ffurfiol. |

| Maes cyllideb | % o'r costau net | Lefel risg | Risg a Nodwyd | Ffactor lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | Amh. | Uchel | Mae maint, cost uchel a chymhlethdod prosiectau cyfalaf yn cynyddu'r risg o fynd y tu hwnt i gyllidebau a therfynau amser, a pheidio â chyflawni amcanion yr achos busnes gwreiddiol. | Caiff y rhaglen gyfalaf ei chymeradwyo a'i monitro drwy drefniadau llywodraethu ffurfiol.<br>Canolbwyntiwyd yn sylweddol ar hyn drwy'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol, Grŵp CATC ac o fewn y Grwpiau Ystadau Strategol, TGCh a Fflyd er mwyn adolygu gofynion seilwaith yn feirniadol dros gyfnod o 10 mlynedd.<br>Bu prosesau cryfhau parhaus mewn perthynas â chynigion prosiect ac achosion busnes a bydd y gwaith hwn yn parhau o ddifrif i sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau'n cael eu hystyried yn llawn a bod opsiynau'n cael eu gwerthuso gyda manteision busnes yn cael eu nodi'n glir. |

## STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN

## CRONFEYDD WRTH GEFN, BALANSAU A DARPARIAETHAU

### 1 Cyflwyniad

1.1. Cydnabyddir y gofyniad am gronfeydd ariannol wrth gefn yn statudol. Adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i dalu am wariant amcangyfrifedig yn y dyfodol wrth gyfrifo eu gofyniad cyllideb.

1.2. Mae'r Cod Ymarfer ar Reolaeth Ariannol yn datgan y dylai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) sefydlu strategaeth ar gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys sut y gallai'r Prif Gwnstabl eu defnyddio) a darpariaethau mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Dylai hyn roi sylw priodol i'r angen i sicrhau y caiff gweithgareddau plismona eu hariannu'n barhaus a'r gofyniad i gyflawni gweithrediadau plismona eithriadol neu anghyffredin.

1.3. Mae cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reolaeth ariannol. Maent yn helpu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i ymdopi â phwysau ariannol anrhagweladwy a chynllunio ar gyfer ymrwymiadau gwariant yn y dyfodol.

1.4. Caiff yr holl gronfeydd wrth gefn eu dal gan y Comisiynydd a'u rheoli er mwyn mantoli cyllid a blaenoriaethau gwario ac i reoli risgiau. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses cynllunio ariannol tymor canolig.

### 2. Diffiniadau

2.1. Mae cronfeydd wrth gefn a balansau yn wahanol i ddarpariaethau o safbwynt cyfrifyddu. Yn achos cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio (yn hytrach na chronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio) a darpariaethau, dylai'r ddau swm a gynrychiolir ar y fantolen gael eu cyfateb â balansau arian parod ffisegol, oni bai bod benthyca mewnol wedi digwydd.

2.2. **Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** – sef balansau sy'n cael eu dal yn gyffredinol at dri diben penodol ac sydd wedi'u categoreiddio fel cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd:

- Balans gweithio i helpu i leddfu effaith llif arian anghyson – cronfeydd wrth gefn cyffredinol;
- Arian wrth gefn i ddelio â digwyddiadau annisgwyl – cronfeydd wrth gefn cyffredinol;
- Ffordd o gronni arian i fodloni gofynion hysbys neu a ragwelir – cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

2.3. **Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi** – mae'r rhain yn falansau a ddelir ar gyfer mentrau a phwrpasau penodol.

2.4. **Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Diogelu -** mae'r rhain yn falansau sy'n cael eu dal gan y Comisiynydd ar ran trydydd partïon ac felly ni ellir eu defnyddio heb gyfarwyddyd penodol.

2.5. **Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio** - nid oes ganddynt falansau arian parod cyfatebol a chânt eu dal at ddibenion cyfrifo.

2.6. **Darpariaethau** – maent yn ofynnol ar gyfer unrhyw rwymedigaethau o ran amseriadau neu symiau ansicr a ysgwyddwyd.

## 3. Trefniadau Llywodraethu

3.1. Dyma'r gofynion llywodraethu sylfaenol o ran cronfeydd wrth gefn a balansau:

- Mae gan y Comisiynydd strategaeth gadarn ar lefel a natur y cronfeydd wrth gefn a'r balansau y mae arno eu hangen a fydd yn cael eu hystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio;
- Dylid adlewyrchu'r lefelau gofynnol o gronfeydd wrth gefn a balansau yn y gyllideb flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC);
- Mae'r Comisiynydd yn monitro ac yn cynnal lefel y cronfeydd wrth gefn a'r balansau o fewn yr ystod a bennir gan ei bolisi cytunedig, wedi'i gynghori gan y Prif Swyddog Cyllid a fydd yn sicrhau bod protocolau clir ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio;
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cronfeydd digonol wrth gefn fel bod pwysau annisgwyl ar gyllidebau a achosir yn bennaf gan alw yn gallu cael eu bodloni heb effaith andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol;
- Mae strategaeth y Comisiynydd ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a risgiau, ac fe'i nodir yn gywir ac yn glir ar yr adeg y pennir y gyllideb a'r praesept. Caiff lefel y balansau ei hadolygu a'i rheoli er mwyn sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn gadarn a'i bod yn helpu'r Comisiynydd i gyflawni eu hamcanion hirdymor;
- Lle eir y tu hwnt i lefelau targed ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau, mae costau cyfle ar gyfer cynnal y lefelau hyn wedi cael eu sefydlu, o gymharu â'r budd a gronnwyd.

3.2. Dylai Rheoliadau Ariannol y cytunwyd arnynt yn lleol a'r Cynllun Cydsynio:

- Gynnwys manylion llawn am sut y bydd y strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn a balansau yn gweithredu'n lleol;
- Sicrhau bod y gyllideb flynyddol yn cynnwys swm realistig o arian gweithredol wrth gefn sydd ar gael i'r Prif Gwnstabl ar gyfer blaenoriaethau gweithredol heb fod angen cymeradwyaeth ychwanegol; a

- Darparu, lle y bo'n briodol, ar gyfer cario cyllidebau ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

**Cyfrifoldebau Statudol**

3.3. Mae "Datganiad CIPFA ar Rôl Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl" yn nodi'r pum egwyddor sy'n diffinio'r gweithgareddau a'r ymddygiadau craidd sy'n perthyn i rôl y Prif Swyddog Cyllid a'r trefniadau sefydliadol sydd eu hangen i'w cefnogi.

3.4. Ar gyfer pob egwyddor, mae'r Datganiad yn nodi'r trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol o fewn sefydliad er mwyn sicrhau bod y Prif Swyddogion Cyllid yn gallu gweithredu'n effeithiol a chyflawni eu dyletswyddau craidd.

3.5. Y trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol o ran cronfeydd wrth gefn a balansau ac sy'n gyfrifoldeb y Prif Swyddog Cyllid yw:

- Sicrhau bod cyngor yn cael ei ddarparu ar lefelau'r cronfeydd wrth gefn a balansau yn unol â chanllawiau arfer da;
- Adrodd ar adeg ystyried y gyllideb a phennu'r praesept, ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a digonolrwydd cronfeydd ariannol wrth gefn, fel sy'n ofynnol o dan a25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn unol â chanllawiau CIPFA.

3.6. Dylid ymgymryd â'r ddau drwy ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cyllid (Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl).

3.7. Mae amrywiaeth o fesurau diogelwch ar waith hefyd sy'n llesteirio gallu’r Comisiynydd i orymrwymo'n ariannol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Y gofyniad cyllideb cytbwys;
- Pwerau Prif Swyddogion Cyllid o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 Adran 114 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid roi gwybod os oes neu os yw'n debygol y bydd gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anghytbwys; a
- Mae cyfrifoldeb yr archwilydd allanol i adolygu ac adrodd ar sefyllfa ariannol yn cynnwys adolygiad o lefel y cronfeydd wrth gefn gan ystyried eu gwybodaeth am berfformiad y sefydliad dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb archwilwyr yw rhagnodi'r lefel optimwm neu isaf o gronfeydd wrth gefn ar gyfer sefydliadau unigol.

**5. Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Gronfeydd Wrth Gefn yr Heddlu**

5.1 Ar 31 Mawrth 2018 cyhoeddodd y Gweinidog dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân ganllawiau newydd ar y wybodaeth y mae'n rhaid i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei chyhoeddi o ran cronfeydd wrth gefn yr heddlu.

5.2 Un o'r gofynion allweddol yw y dylai'r wybodaeth am bob cronfa wrth gefn ei gwneud yn glir faint o'r cyllid sy'n perthyn i bob un o'r tri chategori canlynol:

- Cyllid ar gyfer gwariant arfaethedig ar brosiectau a rhaglenni dros gyfnod y cynllun ariannol tymor canolig presennol
- Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni penodol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol
- Fel cronfa wrth gefn gyffredinol i fodloni anghenion gwariant eraill a ddelir yn unol ag egwyddorion cadarn rheolaeth ariannol dda.

5.3 Amlinellodd y Gweinidog hefyd y byddai lefelau cyllid grant yn y dyfodol yn ystyried y ffaith i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi'n glir ar draws y gwasanaeth.

## 6. Asesu'r Lefel Briodol o Gronfeydd Wrth Gefn

6.1 Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn briodol ar gyfer amgylchiadau lleol, ac mae'n atebol i drethdalwyr am y penderfyniadau a wneir. Mae'n ddyletswydd ar y PSC (Comisiynydd) i roi'r cyngor i'r Comisiynydd y mae ei angen arnynt i wneud penderfyniadau da.

6.2 Caiff cronfeydd wrth gefn eu cynnal fel mater o ofal. Maent yn galluogi'r sefydliad i ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn llif arian a digwyddiadau drud annisgwyl ac felly'n helpu i'w ddiogelu rhag gorwario'r gyllideb flynyddol, pe bai digwyddiadau o'r fath yn digwydd. Gellir cynnal cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol hefyd lle y bo'n debygol y bydd gofyniad gwario yn digwydd yn y dyfodol.

6.3 Mae cymeradwyaeth y cyhoedd o'r praesept yn dibynnu'n rhannol ar y ddealltwriaeth bod y praesept yn cael ei wario ar blismona ac mai dim ond swm rhesymol a darbodus o unrhyw arian wrth gefn sy'n cael ei storio fel cronfa gyffredinol. I'r gwrthwyneb, pan fydd gwariant nas rhagwelwyd yn codi, mae'n debygol y byddai'r cyhoedd yn disgwyl y byddai gan y sefydliad ddigon o adnoddau i dalu'r gost heb orfod troi at orwario.

6.4 Er mwyn asesu digonolrwydd cronfeydd wrth gefn, dylai'r PSC (Comisiynydd) gynnwys asesiad cyfredol o'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r sefydliadau.

6.5 Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig y mae'n rhaid eu gwneud wrth baratoi'r CATC a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol benodol.

6.6 Dylai'r gwaith o asesu'r lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn gynnwys cynnal dadansoddiad o'r Fantolen yn flynyddol a rhagamcanu eitemau allweddol y Fantolen. Mae'r rhagamcaniad hwn yn cynnwys rhagolygon

ar gyfer lefelau o gronfeydd wrth gefn a balansau dros gyfnod o dair blynedd i dalu am y CATC a'r rhaglen gyfalaf.

6.7 Wrth asesu lefel y cronfeydd wrth gefn, rhoddir ystyriaeth briodol hefyd i drefniadau cymorth y Llywodraeth:

- Cynllun cymorth Ariannol Brys Llywodraeth Cymru i helpu Heddluoedd sy'n wynebu baich ariannol o ganlyniad i ddarparu gwasanaethau wrth gefn a gwneud gwaith brys mewn ymateb i argyfyngau mawr. Mae gan y cynllun drothwy sydd wedi'i bennu ar 0.2% o'r gyllideb refeniw.
- Grant Arbennig y Swyddfa Gartref i dalu'r costau ychwanegol a fyddai'n deillio o blismona digwyddiadau annisgwyl ac eithriadol o fewn eu hardaloedd. Os caiff ei gymeradwyo, disgwylir i heddluoedd dalu costau ychwanegol y digwyddiad hyd at 1% o'r gyllideb refeniw

6.8 Dylai strategaeth cronfeydd wrth gefn a balansau effeithiol ystyried dull y sefydliad o reoli trysorlys, cynlluniau gwariant cyfalaf a'r angen am fenthyca allanol, yn erbyn y defnydd o falansau a chronfeydd wrth gefn.

6.9 Mae canllawiau CIPFA yn awgrymu, yn ogystal â'r gofynion o ran llif arian, y dylid ystyried y ffactorau canlynol:

| Tybiaethau Cyllideb | Sefyllfa a Rheolaeth Ariannol |
|---|---|
| Dull o ymdrin â chwyddiant a chyfraddau llog | Sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliadau (lefel y benthyca, dyledion sy'n ddyledus, cyfraddau casglu'r dreth gyngor ac ati) |
| Amcangyfrifon o lefel ac amseriad derbyniadau cyfalaf | Hanes y sefydliad o ran cyllideb a rheolaeth ariannol, gan gynnwys cadernid y cynlluniau tymor canolig. |
| Dull o ymdrin â phwysau a achosir yn bennaf gan alw | Gallu'r sefydliad i reoli pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn |
| Dull o ymdrin ag arbedion effeithlonrwydd cynlluniedig/ enillion cynhyrchiant | Cryfder y wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd |
| Y risgiau ariannol sy'n gynhenid mewn unrhyw bartneriaethau ariannu newydd, trefniadau contract allanol sylweddol neu ddatblygiadau cyfalaf mawr | Proses drosglwyddo'r sefydliad a gweithdrefnau diwedd y flwyddyn mewn perthynas â than/gorwario'r gyllideb ar lefel sefydliadol ac adrannol |
| Argaeledd cronfeydd eraill i ymdrin â hapddigwyddiadau mawr a digonolrwydd darpariaethau | Digonolrwydd trefniadau yswiriant y sefydliad i ymdrin â risgiau mawr nas rhagwelwyd. |

6.10 Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyladwy i'r angen i sicrhau cyllid parhaus ar gyfer gweithgareddau plismona (gan gynnwys y gofyniad i ariannu gweithrediadau eithriadol neu anghyffredin). Dylai'r gyllideb flynyddol

gynnwys swm realistig o arian wrth gefn gweithredol i fod ar gael i'r Prif Gwnstabl i gyflawni blaenoriaethau gweithredol heb fod angen cymeradwyaeth ychwanegol.

6.11 Bydd y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y gyllideb refeniw flynyddol yn ddigonol i ariannu anghenion gweithredol rhagweladwy drwy gyflwyno achos busnes fel rhan o'r broses CATC a phennu'r gyllideb flynyddol i'r PSC (Comisiynydd) a'r Comisiynydd ar gyfer eitemau gwariant untro i'w hariannu o gronfeydd wedi'u clustnodi.

6.12 Dylai'r achos busnes gynnwys ystyriaeth o lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer ymchwiliadau i ddigwyddiadau mawr a gofynion gweithredol eraill, faint o gronfeydd sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer eu defnyddio.

6.13 Bydd cymeradwyo achosion busnes ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn yn amodol ar y terfynau awdurdodi a nodir yn y Rheoliadau Ariannol, i helpu gyda gwneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd.

## 7. Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol

7.1 Mae'r "Nodyn Cyfarwyddyd ar Gronfeydd a Balansau Awdurdodau Lleol" gan CIPFA yn nodi ei bod yn ofynnol i Gronfa Gyffredinol weithredu fel *"balans gweithio i helpu i liniaru effaith llifoedd arian anwastad ac osgoi benthyca dros dro diangen – mae hyn yn rhan o gronfeydd wrth gefn cyffredinol ".* Mae'n ofynnol hefyd bod Cronfa Gyffredinol yn gweithredu fel *"cronfa wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau – mae hyn hefyd yn rhan o gronfeydd wrth gefn cyffredinol."*

7.2 Er nad yw CIPFA yn pennu lefel isafswm neu optimwm ar gyfer arian wrth gefn cyffredinol, ei gyngor cyffredinol yw sefydlu cronfa wrth gefn sy'n cynrychioli "adnoddau wedi'u neilltuo at ddibenion megis hapddigwyddiadau cyffredinol a rheoli llif arian."

7.3 Mae pennu lefel y cronfeydd a glustnodir a’r rhai cyffredinol yn un o nifer o benderfyniadau cydgysylltiedig wrth lunio'r CATC a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn benodol. Dylid ystyried y tybiaethau ariannol allweddol sy'n sail i'r gyllideb ynghyd ag ystyriaeth o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad.

## 8. Cronfeydd Wrth Gefn wedi’u Clustnodi gan gynnwys Cronfeydd wedi’u Diogelu

8.1 Mae'r Cod cyfrifo cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol bod pwrpas, defnydd a sail trafodion cronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi yn cael eu nodi'n glir. Cynhelir adolygiad o ddiben a lefel y cronfeydd wrth gefn yn flynyddol yn ystod y broses o bennu'r gyllideb a chaiff manylion ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn eu cynnwys yn y nodyn perthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon.

8.2 Caiff cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi eu categoreiddio fel cronfeydd "y gellir eu defnyddio" neu gronfeydd "na ellir eu defnyddio". Gellir rhoi cronfeydd y gellir eu defnyddio ar waith i ariannu gwariant, ni chaiff cronfeydd na ellir eu defnyddio eu cefnogi gan adnoddau ac felly nid oes balansau arian parod cyfatebol ar eu cyfer.

8.3 Polisi'r Comisiynydd yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu pryniannau anrheolaidd i leihau'r effaith ar y praesept treth gyngor. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cronfeydd cyfalaf wrth gefn i leihau'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), os yw'n briodol, a fydd yn ei dro yn lleihau'r Isafswm Darpariaeth Refeniw a godir ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn.

8.4 Felly, bydd lefel darged cronfeydd wrth gefn a glustnodir yn amrywio'n flynyddol, ond bydd bob amser yn bosibl ei chyfiawnhau a'i monitro i sicrhau nad yw lefelau'r cronfeydd wrth gefn a glustnodir yn rhy uchel nac yn rhy isel. Os bydd y Comisiynydd o'r farn bod lefel y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio uwchlaw a thu hwnt i'r lefelau sydd eu hangen yn rhesymol ac a glustnodwyd yn benodol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, gall y Comisiynydd ddychwelyd cronfeydd wrth gefn i'r cyhoedd. Mae hyn i'w gyflawni drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu buddsoddiadau untro yn gyntaf.

8.5 Bydd y rheswm dros gadw cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn cael ei ddosbarthu yn unol â dosbarthiadau newydd y Swyddfa Gartref fel yr amlinellir uchod.

8.6 Mae’r cronfeydd na ellir eu defnyddio a ddelir ar hyn o bryd yn cynnwys:

- **Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn** - Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth Eiddo, Offer a Pheiriannau ac Asedau Anniriaethol. Caiff y balans ei leihau pan gaiff asedau ag enillion cronedig eu hailbrisio yn llai neu eu hamharu, eu defnyddio drwy ddibrisiant, neu eu gwaredu ac y caiff yr enillion eu gwireddu;
- **Cyfrif Addasu Cyfalaf -** Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn lleddfu’r gwahaniaethau amseru sy'n codi o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo'r defnydd o asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu'r broses o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol;
- **Cyfrif Absenoldebau Cronedig -** Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn lleddfu’r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau iawndal a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. yr hawl i wyliau blynyddol a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod yr effaith ar Falans Cyffredinol y Gronfa yn cael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r Cyfrif neu allan ohono;
- **Cronfa Wrth Gefn Pensiynau -** Mae'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau’n lleddfu’r gwahaniaethau amseru sy'n codi o'r trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi ystyriaeth i fuddion ôl-

gyflogaeth ac am fuddion ariannu yn unol â darpariaethau statudol.

## 9 Fframwaith Adrodd

9.1 Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd ymddiriedol i drethdalwyr lleol a rhaid iddo fod yn fodlon bod y penderfyniadau a wneir ar falansau a chronfeydd wrth gefn yn cynrychioli stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

9.2 Bydd lefel y cronfeydd wrth gefn a'r defnydd a wneir ohonynt yn cael eu llywio gan gyngor a barn y PSC (Comisiynydd). Er mwyn galluogi'r Comisiynydd i wneud eu penderfyniad, bydd y PSC (Comisiynydd) yn adrodd ar y ffactorau a ddylanwadodd ar eu barn ac yn sicrhau bod y cyngor a roddir yn cael ei gofnodi'n ffurfiol o fewn y CATC. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys o leiaf ddatganiad:

- sy'n nodi lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol ac unrhyw ddatblygiadau gyda'r gronfa;
- ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, o'u cymharu â gwariant ac amcangyfrif o ddarpariaethau mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sydd i ddod a'r CATC;
- sut mae cronfeydd wrth gefn wedi newid dros amser;
- ar yr adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi gan gynnwys amcangyfrifon o falansau diwedd y flwyddyn. Bydd y datganiad yn rhestru'r gwahanol gronfeydd wrth gefn, eu diben, pryd y cânt eu defnyddio a'r lefel briodol; ac
- asesiad o'r risg y bydd digwyddiadau mawr (gweithredol ac anweithredol) yn digwydd, a gaiff ei adlewyrchi yn y gyllideb a'r CATC.

9.3 Darperir yr adroddiad hwn yn flynyddol yn seiliedig ar amcangyfrifon i'r Comisiynydd cyn cymeradwyo praesept y dreth gyngor, a chaiff sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn hefyd ei ystyried yn flynyddol fel rhan o gymeradwyaeth y Comisiynwyr o'r Datganiad o Gyfrifon.

9.4 Fel yr amlinellwyd uchod, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau penodol ar Gronfeydd Cyllid yr Heddlu ym mis Ionawr 2018 sy'n ceisio sicrhau mwy o dryloywder ym mhob rhan o'r gwasanaeth er mwyn dangos cynlluniau defnydd clir. Mae'r fframwaith adrodd a nodir uchod yn ymdrin â'r gofynion hyn.

## 10 Y "Gost Cyfle" o Ddal Cronfeydd Wrth Gefn

10.1 Mae'r archwiliwr allanol yn annog datganiad o fewn y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn ynghylch cost cyfle dal cronfeydd wrth gefn. Mae "Cost Cyfle" yn derm o faes theori economaidd, sy'n golygu os ydych yn gwario rhywbeth ar un peth na allwch ei wario ar rywbeth arall.

10.2 O ran cronfeydd wrth gefn, mae hyn yn golygu os cedwir cronfeydd wrth gefn sy'n rhy uchel, yna mae sefydliad yn ildio'r cyfle i ostwng y Dreth Gyngor. Nid yw'r ddamcaniaeth hon, fodd bynnag, yn addas iawn yn ymarferol lle gellir capio lefelau'r cynnydd yn y dreth gyngor.

10.3 Yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, mae'r Comisiynydd yn ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau untro. Ystyrir bod hyn yn ddefnydd mwy cynaliadwy o gronfeydd wrth gefn 'gormodol' ac mae'n lleihau'r effaith ar y praesept treth gyngor. Wrth i'r cronfeydd wrth gefn ostwng mae'r cyfle i wneud hyn yn lleihau.

10.4 Mae'n hanfodol bod penderfyniadau'r Comisiynydd ar gronfeydd wrth gefn yn cael eu cyfleu'n glir i drethdalwyr lleol i hyrwyddo atebolrwydd.

## 11 Darpariaethau

11.1 Mae angen darpariaethau ar gyfer unrhyw rwymedigaethau o ran amseriadau neu symiau ansicr a ysgwyddwyd. Mae'n ofynnol cydnabod darpariaethau pan:

- mae gan yr awdurdod lleol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; ac
- y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

11.2 Ystyrir bod trosglwyddo buddion economaidd neu ddigwyddiad arall yn debygol os yw'r digwyddiad yn fwy tebygol na pheidio o ddigwydd. Os na fodlonir yr amodau hyn, ni ddylid cydnabod unrhyw ddarpariaeth.

11.3 Bydd y gofyniad ar gyfer darpariaethau yn cael ei asesu'n rheolaidd.

# Atodiad G – Cronfeydd wrth Gefn 2020/21 - 2025/26

| **Revenue & Capital Reserves** | **Narrative Comment** | Home Office Classification<br><br>see below | Actual 31st March 2020<br><br>£000k | Estimated Reserves at 31st March 2021<br>£000k | Estimated Reserves at 31st March 2022<br>£000k | Estimated Balance at 31st March 2023<br>£000k | Estimated Reserves at 31st March 2024<br>£000k | Estimated Reserves at 31st March 2025<br>£000k | Estimated Reserves at 31st March 2026<br>£000k |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| **General Reserves** | The requirements of operational policing vary significantly from year to year. This General Reserve ensures that funds are available to respond to and mitigating the in year financial impacts of major incidents or unknown events. The PCC considers a number of factors in determining the level of reserves namely: Overall financial position and adequacy of financial control; Risk exposure and risk assessment; and Public opinion. This reserve which equates to 3.8% of the 19/20 revenue budget may also assist in mitigating any detrimental impact as a result of the Comprehensive Spending Review and changes to the police funding formula. Further information can be found within the published Reserves Strategy. | **C** | **4,032** | **4,032** | **4,032** | **4,032** | **4,032** | **4,032** | **4,032** |
| General Reserve as % of net revenue budget | | | | 3.57% | 3.36% | 3.26% | 3.16% | 3.05% | 2.93% |
| Go Safe' Road Safety Partnership Reserve | This earmarked reserve is held on behalf of the all Wales 'Go Safe' Road Safety Partnership and will be utilised in line with their business requirements which **may** be beyond the life of the current planning period. | **B** | 313 | - | - | - | - | - | - |
| Regional Collaboration Reserve | This reserve represents the fair share of funds held for collaborative police services which include the Regional Organised Crime Unit and Regional Task Force. These funds will be utilised in line with business requirements to support operational delivery and subject to decisions by the Wales Collaboration Board **may** go beyond the life of the current planning period. | **B** | 261 | - | - | - | - | - | - |
| **Total Ring-fenced Revenue Reserves** | | | **574** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Earmarked Revenue Reserve | This reserve is being held to support the revenue budget over the next 3 years to mitigate future funding gaps and detrimental impact on service delivery as a direct result of the previous PCC's decision to reduce the council tax precept for 2015/16 by 5% and to utilise reserves to underpin the revenue budget. | **A** | 775 | 1,286 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 |
| Driver Retraining Scheme | This reserves is being held specifically to support activities in relation to road safety initiatives. Further opportunities will be explored to ensure that these reserves are utilised to optimal effect for the communities of Dyfed-Powys. | **B** | 870 | 870 | 740 | 640 | 490 | 320 | 135 |
| Proceeds of Crime Act | This reserve comes from funds which have been allocated to Dyfed-Powys as a result of confiscation orders arising from proceeds of crime. These reserves are then utilised to support operational activities which assist in bringing criminals to justice e.g. financial investigators. | **A** | 162 | 162 | 92 | 22 | 2 | 2 | 2 |
| Chief Constable Operational Fund | This is a new reserve being established to assist in mitigating against the consequential costs of notable peaks in operational activity. | **A** | 485 | 311 | 311 | 311 | 311 | 311 | 311 |
| Sustainability & Transformation Fund | This is a new reserve being established to assist in funding invest to save, sustainability and transformational initiatives. | **A** | 494 | 324 | 154 | - | - | - | - |
| Covid 19 Reserve | This reserve was created at the end of 19/20 to assist in mitigating against financial implications arising as a result of the Covid19 pandemic | **A** | 650 | 200 | - | - | - | - | - |
| Legal/ Insurance Reserve | As a consequecne of increases in insurance premiums and self insured limits, this reserve has been established to assist in mitigtaing against high claim exposure | **A** | - | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 |
| Drug Intervention | This reserve will be utilised to support drug testing. | **A** | 135 | 95 | 95 | 65 | 35 | 5 | - 10 |
| **Total Earmarked Revenue Reserves** | | | **3,571** | **3,447** | **1,652** | **1,298** | **1,098** | **898** | **698** |

# Atodiad G – Cronfeydd wrth Gefn 2020/21 - 2025/26

| Revenue & Capital Reserves | Narrative Comment | Home Office Classification see below | Actual 31st March 2020 £000k | Estimated Reserves at 31st March 2021 £000k | Estimated Reserves at 31st March 2022 £000k | Estimated Balance at 31st March 2023 £000k | Estimated Reserves at 31st March 2024 £000k | Estimated Reserves at 31st March 2025 £000k | Estimated Reserves at 31st March 2026 £000k |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Capital Grants | These capital grants are held to specifically support IT projects within the capital programme | **A** | 426 | - | - | - | - | - | - |
| Capital Reserve | This reserve will be utilised to support the significant capital investment in Estates, Information Technology and Fleet including a new custody and station facility within Carmarthenshire, providing a solution to ageing police facility in Brecon and will support a range of both national and local technological developments. | **A** | 4,964 | 1,631 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total Capital Reserves** | | | **5,390** | **1,631** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Total Reserves** | | | **13,566** | **9,110** | **5,684** | **5,330** | **5,130** | **4,930** | **4,730** |

| Home Office Police Finance Res | Classifications |
|---|---|
| Funding for planned expenditure on projects and programmes over the period of the current medium term financial plan | **A** |
| Funding for specific projects and programmes beyond the current planning period | **B** |
| A general contingency or resource to meet other expenditure needs held in accordance with sound principles of good financial management | **C** |

Classifications as outlined in the Home Office guidance on Police Finance Reserves which was issued on the 31st January 2018

| How reserves support the priorities of the Police & Crime Plan | General Reserve | Capital Reserve |
|---|---|---|
| **Keeping our communities safe** | ✓ | ✓ |
| **Safeguarding the vulnerable** | ✓ | ✓ |
| **Protecting our communities from serious threat** | ✓ | ✓ |
| **Connecting with communities** | | ✓ |

Strategaeth Gyfalaf

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Cod Materion Ariannol 2017 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth gyfalaf i ddangos bod gwariant cyfalaf a phenderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud yn unol â'r canlyniadau a ddymunir ac yn ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, gochelgarwch, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

1.2 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i gynhyrchu blaenraglen gyfalaf y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd). Mae'n darparu trosolwg lefel uchel o'r ffordd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau dymunol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cymeradwyo a monitro gwariant cyfalaf, yn amlinellu sut y caiff risg gysylltiedig ei rheoli ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

1.3 Manylir ar y blaenoriaethau ar gyfer plismona yn yr ardal leol yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu (CHTh). Llunnir y ddogfen hon gan y Comisiynydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Mae'r blaenoriaethau'n ystyried barn partneriaid a phobl leol yn ogystal â blaenoriaethau'r Comisiynydd fel y cynrychiolydd etholedig. Cyhoeddodd y Comisiynydd ei Gynllun Heddlu a Throseddu ar 31 Mawrth 2017. Ei flaenoriaethau yw:

- Blaenoriaeth Un: Cadw ein cymunedau'n ddiogel;
- Blaenoriaeth Dau: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed;
- Blaenoriaeth Tri: Amddiffyn ein cymunedau rhag niwed difrifol;
- Blaenoriaeth Pedwar: Chysylltu â chymunedau.

1.4 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn ystyried Gofynion Plismona Strategol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac mae wedi datblygu Cynllun Cyflawni Heddlu a Throseddu i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae ei drefniadau cyflawni gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Bydd pum egwyddor cyflawni allweddol yn cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu:

- Cyflwyno gwerth am arian
- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cydweithio
- Cefnogi dioddefwyr
- Arweinyddiaeth gref

1.5 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn offeryn i gefnogi cynllunio a gweithio corfforaethol ar draws y ddwy Gorfforaeth Undyn gan helpu i sicrhau bod asedau'n cael eu defnyddio a'u rheoli'n dda. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn

dangos sut rydym yn blaenoriaethu, yn monitro, yn cyflawni ac yn gwerthuso ein rhaglen gyfalaf gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol methodoleg y prosiect.

1.6 Yn ddaearyddol, Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr, gan ymestyn dros hanner tir Cymru. Mae'n cael ei effeithio'n arbennig gan yr heriau sy'n gysylltiedig â phlismona ardal wledig yn bennaf sy'n cynnwys dau Borthladd pwysig, y gweithfeydd mawr yn Aberdaugleddau a diwydiant twristiaeth ffyniannus. Mae Asedau Cyfalaf, boed yn Orsafoedd Heddlu, Tai Heddlu, Mastiau Radio, Cerbydau neu Dechnoleg Gwybodaeth a chyfarpar gweithredol arall yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau plismona ledled yr ardal ac o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

## 2 Partneriaethau Allweddol

2.1 Wrth gyflawni pob elfen o'r strategaeth, mae'r Comisiynydd yn bwriadu rhoi ystyriaeth briodol i'r agenda cydweithio sy'n parhau a bydd yn achub ar bob cyfle i ymgysylltu â Heddluoedd cyfagos ac Awdurdodau cyfansoddol eraill wrth ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn ystyried yr angen parhaus i fuddsoddi yn y meysydd blaenoriaeth allweddol hyn gan weithio gyda phartneriaid yn y dyfodol.

## 3. Cynaliadwyedd Ariannol

3.1 Ers blynyddoedd mae Heddlu Dyfed-Powys wedi elwa ar lefelau sylweddol o gronfeydd cyfalaf wrth gefn sydd wedi'u hategu drwy werthu adeiladau gweithredol neu dai heddlu.

3.2 Yn hanesyddol, mae'r cronfeydd hyn wedi bod yn sail i fuddsoddi cyfalaf ond yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae'r sefyllfa'n symud oddi wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i sefyllfa o gyllid naill ai drwy ariannu refeniw uniongyrchol neu fenthyca. Mae hyn felly'n ychwanegu pwysau at y gyllideb refeniw ac felly, o ganlyniad, at y praesept treth gyngor hefyd. Rhaid nodi hefyd ei fod hefyd mewn cyfnod parhaus o bwysau refeniw, galw cynyddol ac ansicrwydd ynghylch ariannu.

3.3 Felly, bydd y dull strategol yn cynnwys buddsoddi mewn seilwaith craidd, gan y bydd hynny nid yn unig yn cynnig gwelliannau cyffredinol i wasanaethau'r cyhoedd, ond bydd hefyd yn sicrhau'r arbedion refeniw mwyaf posibl yn y dyfodol drwy ddefnydd mwy effeithlon a symudol o bersonél yr heddlu, wedi'i alluogi gan well systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a seilwaith craidd arall, er enghraifft, fflyd gerbydau gysylltiedig ac asedau adeiladu.

3.4 Dylanwadir ar fuddsoddiad cyfalaf hefyd gan ystyried gweledigaethau cenedlaethol ar gyfer plismona, y gofyniad plismona strategol a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol.

## 4 Rhaglen Gyfalaf

4.1 Mae asedau yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau effeithlon a dylid eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae strategaethau ar gyfer Rheoli Ystadau, TGCh ac amnewid Cerbydau yn tanategu'r Strategaeth Gyfalaf wrth ddarparu'r manylion ar gyfer hirhoedledd a'r cylchoedd amnewid gorau ar gyfer yr eitemau hyn.

4.2 Crynhoir isod y Rhaglen Gyfalaf a'r cyllid sy'n ymdrin â'r sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 hyd at 2024/25:

**Tabl 1- Rhaglen Gyfalaf 2019/20 – 2024/25**

| Capital Programme | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k |
| Land and Buildings | 1,365 | 10,774 | 17,500 | 5,100 | 1100 | 600 | 36,439 |
| Vehicles | 1,035 | 1,085 | 1,050 | 1,050 | 1,050 | 1,170 | 6,440 |
| IT and Other Strategic Spending | 3,576 | 4,364 | 4,070 | 6,423 | 2,734 | 5,423 | 26,590 |
| **Capital Expenditure** | 5,976 | 16,223 | 22,620 | 12,573 | 4,884 | 7,193 | 69,469 |
| Grant Funding | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -510 |
| Borrowing | -1,365 | -10,773 | -20,499 | -10,338 | -2,149 | -3,958 | -49,082 |
| Driver Retraining Contribution | -243 | | | | | | |
| Capital Grants | -242 | -183 | | | | | -425 |
| Contribution from Revenue Account | -500 | -850 | -1,600 | -2,100 | -2,600 | -3,100 | -10,750 |
| Capital Receipts | -1,787 | | -250 | -50 | -50 | -50 | -2,187 |
| Sustainability Reserve | -170 | -170 | -154 | | | | -494 |
| Capital Reserve | -1,584 | -4,162 | -32 | | | | -5,778 |
| **Capital Financing** | -5,976 | -16,223 | -22,620 | -12,573 | -4,884 | -7,193 | -69,469 |

4.3 Ymgymerwyd â llawer o waith yn ystod 2019/20 gan y grŵp Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a’r Dyfodol i ystyried gofynion ariannol a buddsoddi dros gyfnod hwy o amser. Er ei fod yn cynnwys nifer o dybiaethau ac ansicrwydd, mae’r Strategaeth Gyfalaf hon yn cynnwys rhaglen gyfalaf, a ddangosir yn Atodiad 1, sydd wedi cael ei hymestyn i gwmpasu cyfnod o 10 mlynedd. Byddwn yn edrych ar y rhaglen hon eto wrth i bethau ddod yn fwy eglur, ac yn flynyddol, fel rhan o'r broses ffurfiol o bennu’r gyllideb a’r praesept.

4.4 Mae'r buddsoddiadau cyfalaf yn ceisio cyfrannu at arbedion effeithlonrwydd arian parod yn y dyfodol wrth ddarparu gwasanaeth plismona yn ardal Dyfed-Powys yn y ffyrdd canlynol:

- Gostyngiad mewn gwariant refeniw drwy raglen o resymoli ac ailwampio posibl ar adeiladau, fel yr amlinellwyd yn y strategaeth ystadau;
- Sicrhau bod gwaith cynnal a chadw arfaethedig ar adeiladau yn cael ei flaenoriaethu ar sail risg a chydymffurfiaeth statudol;

- Canoli cyfleusterau'r ddalfa yn Sir Gaerfyrddin;
- Cyfleusterau partneriaeth newydd yn Aberhonddu;
- Maes arfau saethu cydweithredol newydd i gefnogi anghenion a gofynion hyfforddiant y Gyd-uned Arfau Saethu;
- Cyflawni yn erbyn y Strategaeth Blismona Ddigidol a'r Map Ffordd sy'n golygu buddsoddi yn y Rhaglen Alluogi Genedlaethol, data Symudol, y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, y system rheoli cofnodion, plismona digidol a buddsoddiad parhaus mewn systemau TG, Camerâu Corff, a thechnoleg Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig i gynnal lefelau cynhyrchiant a pherfformiad;
- Croesawu ffyrdd newydd o weithio ystwyth a fydd yn cyflawni ac yn gwireddu dulliau effeithlonrwydd sefydliadol ond yn gofyn am rywfaint o fuddsoddiad ymlaen llaw ar gyfer ystadau a TG;
- Sicrhau bod cyfleoedd i gydweithio gyda gwasanaethau a pharhau i ystyried rhannu adeiladau ac asedau eraill.

## 4.5 **Ystadau**

4.5.1 Mae gan y Comisiynydd Strategaeth Ystadau sy'n rhoi arweiniad a chyfeiriad clir o ran gofynion Ystadau strategol a gweithredol yn y dyfodol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, ac yn rhoi eglurder ar gyfer dyrannu cyllideb a gofynion buddsoddi yn y dyfodol. Adolygwyd y strategaeth hon yn ddiweddar a disgwylir ei chwblhau yn gynnar yn 2021.

4.5.2 Nod y strategaeth hon yw:

- Creu ystâd effeithlon, addas i'r diben a chynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian ac yn hwyluso gweithio hyblyg yn unol â Chynllun yr Heddlu a Throseddu
- Sicrhau ystâd sy'n darparu lefel briodol o ddiogelwch i swyddogion a staff a gwybodaeth
- Darparu gwasanaeth gweladwy a hygyrch sy'n galluogi gwaith amlasiantaethol ac yn hyrwyddo plismona gweladwy

4.5.3 Y prif ffocws fydd:

- Buddsoddi yn y portffolio yn ôl y gofyn i sicrhau bod yr adeiladau'n dychwelyd i fod yn unol ag effeithiolrwydd gweithredol llawn.
- Gwerthu eiddo gwag a segur.
- Caffael tir ac adeiladu Dalfa Sir Gaerfyrddin.
- Cyfuno a chydweithio ag aelodau a phartneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol.
- Cynnal adolygiad o gyfleuster Aberhonddu er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen
- Cytundeb ar ddyfodol adeiladau a allai fod angen buddsoddiad/newid mawr
- er mwyn parhau i wasanaethu anghenion y gymuned

4.5.4 Mae trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag Ystadau wedi'u cryfhau yn ystod 2020/21 i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu cynrychioli'n well ac i sicrhau'r cysylltiad cynhenid rhwng gofynion gweithredol a darpariaeth

ystadau. Bydd y rhain yn parhau i ddatblygu a chael eu hymgorffori yn ystod 2021/22.

4.5.5 Bydd yr holl fuddsoddiadau a phenderfyniadau arfaethedig yn cael eu hasesu i ystyried y meini prawf canlynol:

- Lleoliad: Yn Weithredol Addas i'r Diben
- Statws Cyhoeddus - Ymwneud â Chwsmeriaid
- Cyflwr Cyffredinol Eiddo a Baich Ariannol

4.5.6 Mae'r Grŵp Ystadau Strategol wedi datblygu Meini Prawf Asesu seiliedig ar Risg Prosiectau i helpu i flaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf:

- Risg i effeithiolrwydd gweithredol (gan gynnwys gweithio'n glyfrach)
- Risg i beidio â bodloni gofyniad deddfwriaethol neu statudol gan gynnwys achrediad ISO
- Risg i adeiladu ffabrig/system sy'n cynyddu cost gyda goblygiadau hirdymor
- Risg i Enw Da'r Heddlu a'r Comisiynydd (gan gynnwys trefniadau partneriaeth)
- Risg i Iechyd a Diogelwch
- Risg i Ddiogelwch y Safle

4.5.7 Mae'r gofyniad am well cyfleusterau dalfeydd a gorsafoedd yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn hanfodol i ddarparu plismona yn Nyfed-Powys. Mae'r prosiect hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers nifer o flynyddoedd ac mae wedi wynebu nifer o heriau ar hyd y ffordd. Mae'r prosiect yn bwriadu darparu cyfadeilad 18 cell gyda swyddfeydd atodol a chyfleusterau gorsafoedd yr Heddlu ar gyrion Llanelli. Mae'r prosiect wedi cyrraedd diwedd cam dylunio 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) sydd, mewn egwyddor, yn dynodi bod yr holl ddyluniadau ac arolygon ecolegol, geodechnegol a daear eisoes wedi'u cynnal ac y ceisir cymeradwyaeth cynllunio ar hyn o bryd. Derbyniwyd costau cyn adeiladu ac mae hyn ar hyn o bryd yn destun diwydrwydd dyladwy ac adolygiad gan dîm y prosiect a syrfewyr meintiau. Bydd y gwaith hwn wedyn yn arwain at y cam cymeradwyo a symud ymlaen i'r gwaith adeiladu. Mae amserlenni'n dal i fod ar y trywydd iawn i'r gwaith adeiladu ddechrau ddiwedd mis Mehefin 2021 a'u cwblhau yn ystod haf 2022. Disgwylir i'r prosiect gostio tua £18.1m erbyn hyn. Bu nifer o ffactorau sydd wedi arwain at gynnydd mewn costau gan gynnwys newidiadau/gwelliannau dylunio, mwy o ofynion diogelwch, mwy o gostau ar gyfer offer arbenigol, a chynnydd anochel mewn costau adeiladu a deunyddiau o ganlyniad i'r economi ehangach gan gynnwys effaith Brexit a Covid-19. Cynhaliwyd proses helaeth hefyd i chwilio am gyfleoedd peirianneg gwerth. Mae gan y Prosiect drefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith o dan gyfarwyddyd y Dirprwy Brif Gwnstabl.

4.5.8 Mae gwaith adnewyddu a buddsoddiad sylweddol wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn mynd i'r afael â rhaglen sylweddol o waith

arolygu cyflwr ar draws yr ystâd, ond mae graddau a dirywiad cynhenid yr ystâd yn golygu bod angen buddsoddiad parhaus ar draws y pedair sir.

4.5.9 Mae'r arolwg cyflwr diwethaf wedi helpu i lywio'r Strategaeth Ystadau wrth benderfynu pa eiddo i'w gadw a lle y mae angen cynllunio symudiadau a newidiad adeiladau yn y dyfodol i fodloni gofynion gweithredol. Mae'r gofynion gweithredol ar gyfer darparu ystadau yn cael eu hailasesu ar hyn o bryd gan gomanderiaid is-adrannol a thîm y Prif Swyddogion.

4.5.10 Oherwydd dirywiad y cyfleuster presennol yn Aberhonddu, mae'r ddarpariaeth o £8.8m wedi'i chynnwys ar gyfer adeilad newydd posibl. Y gobaith gwreiddiol oedd y gellid datblygu cyfleuster cydweithredol ond yn anffodus nid yw partneriaid wedi gallu ymrwymo, am nifer o resymau. O ystyried y newid hwn ynghyd â'r cynnydd yn y costau adeiladu, mae'r tîm Cyfalaf Adeiladu wedi penderfynu ailwerthuso'r opsiynau sydd ar gael i ategu’r cyfeiriad a phenderfyniadau yn y dyfodol. Mae arolwg cyflwr yn cael ei gychwyn ar hyn o bryd i ddarparu asesiad mwy cywir o ofynion a chostau adnewyddu. Mae'r gofynion gweithredol wedi'u hadolygu'n feirniadol ac wedi asesu bod angen ôl troed llawer llai yn Aberhonddu. Felly, mae angen ystyried costau adnewyddu'r cyfleuster mwy presennol yn ofalus ochr yn ochr â chostau adeilad newydd ar gyfer cyfleuster llai a allai hefyd ganiatáu gwerthu'r safle presennol/tir dros ben. Er bod hyn yn achosi oedi, o ystyried maint y buddsoddiad, ystyriwyd bod sicrhau diwydrwydd dyladwy llawn o opsiynau o'r pwys mwyaf.

4.5.11 Nodwyd y gofyniad am gyfleuster hyfforddi arfau saethu i gefnogi Cyd-uned Arfau Saethu Heddluoedd De Cymru yn ystod 2018/19. Barnwyd nad yw'r maes tanio presennol yn addas i'r diben a bod angen cyfleuster newydd i ddiwallu'r anghenion hyfforddi a'r gofynion cyfreithiol helaeth iawn ar gyfer swyddogion arfau saethu. Cafwyd cryn drafod rhwng Comisiynwyr a’r Heddluoedd a chynhyrchwyd achos busnes llawn i ystyried amrywiaeth o opsiynau a lleoliadau posibl ar gyfer cyfleuster newydd. Mae diwydrwydd dyladwy helaeth wedi'i wneud ac mae trafodaethau ar brynu tir yn cael eu cwblhau. Mae cyfanswm costau o tua £30 miliwn wedi'u nodi gydag £8.1 miliwn yn gyfran Heddlu Dyfed-Powys o'r costau dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

4.5.12 Yn ogystal â'r datblygiadau mawr hyn, bydd rhaglen asesu risg ar gyfer gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ac adweithiol. Adolygir y broses o flaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chyflwr yr adeiladwaith a'r meddiannydd, gofynion deddfwriaethol ac ystyriaethau o ran parhad busnes sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau a'r amserlenni. Mae arolygon cyflwr wedi'u cynnal yn flaenorol ar draws yr ystâd gyfan gan bennu'r lefel o fuddsoddiad sydd ei angen ym mhob lleoliad yn ôl pob elfen o'r isadeiledd. Mae uwchraddiadau i’r ddalfa yn cael eu cynnal yn raddol yn seiliedig ar risg a chamau unioni fel y nodwyd yn ystod archwiliadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.

4.5.13 Mae'r gyllideb gyfalaf yn ategu cyllideb refeniw ganolog ar gyfer gwaith adeiladau mawr cynlluniedig a chylchol sy'n cael eu rhaglennu yn seiliedig ar risg a strategaethau'r dyfodol ar gyfer pob adeilad. Mae adnoddau refeniw hefyd yn cael eu cynnal a'u rheoli'n lleol ar gyfer gwaith atgyweirio,

cynnal a chadw, a mentrau/rhaglenni ar raddfa lai. Rhoddwyd blaenoriaeth i fuddsoddi yn y rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac achub ar y cyfle i leihau gwariant refeniw o fewn yr ystâd.

4.5.14 Mae'r Cyfarwyddwr Ystadau wedi parhau i weithio'n agos gyda'r heddlu i ddatblygu a chyflawni'r gofynion niferus sy'n deillio o Covid-19. Mae'r sefydliad yn ceisio ymgorffori ffyrdd ystwyth ac effeithlon o weithio. Bydd y dull gweithredu hwn yn golygu goblygiadau mwy hirdymor i'r ystâd ac ar gyfer TG a bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad ymlaen llaw i hwyluso effeithlonrwydd tymor hwy. Mae asesiadau o'r rhain wedi'u cynnwys gyda'r rhaglen gyfalaf.

4.5.15 Sefydlwyd Grŵp Cynaliadwyedd yn ystod 2019 gyda chylch gorchwyl sy'n ceisio archwilio a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cynaliadwyedd. Cafodd y gwaith hwn ei oedi er mwyn blaenoriaethu'r ymateb y sefydliad i Covid-19 ond bydd yn cael ei ailgychwyn maes o law. Mae'r flaenraglen gyfalaf felly'n cynnwys darpariaeth ar gyfer nifer o fentrau a fydd, yn ogystal ag ystyried ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwy, hefyd yn ceisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Dechreuodd y Contract Rheoli Cyfleusterau yng ngwanwyn 2019. Bwriedir cynnal adolygiad canol contract yn gynnar yn 2021. Ei fwriad fydd adolygu bod y trefniadau wedi dod â manteision cynlluniedig a fydd yn llywio'r cyfeiriad yn y dyfodol mewn perthynas â rheoli cyfleusterau.

## 4.6 Fflyd

4.6.1 Gosodwyd dyfeisiau telemateg yng ngherbydau'r Heddlu yn ystod 2017/18. Mae hyn wedi rhoi'r data ar ddefnydd o'r fflyd ac ymddygiad gyrwyr i'r Heddlu, a dadansoddwyd hyn i gael gwell dealltwriaeth o'r proffil lleoli a'r maint fflyd gweithredol gorau posibl ynghyd â hysbysu ynghylch gofynion hyfforddi gyrwyr gweithredol. Mae arbedion refeniw eisoes wedi'u gwireddu o ganlyniad i'r gosodiadau gyda thargedau effeithlonrwydd yn y dyfodol yn ffurfio rhan o'r CATC. Datblygwyd rhaglen adnewyddu gychwynnol ac mae'r goblygiadau o ran costau wedi'u cynnwys yn y blaengynllun cyfalaf.

4.6.2 Mae'r Grŵp Rheoli Fflyd Strategol yn cyfarfod bob chwarter i ddarparu trefniadau llywodraethu a sicrwydd gweithredol cyffredinol sydd, yn ei dro, yn rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol. Caiff gofynion o ran cerbydau eu hystyried yn fanwl yn y grŵp defnyddwyr cerbydau y mae cynrychiolwyr gweithredol a chymorth yn eu mynychu. Mae'r dull strategol o reoli'r fflyd hefyd yn seiliedig ar wybodaeth gweithgorau rhanbarthol a chenedlaethol.

4.6.3 Mae'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio'r cytundeb Fframwaith Cenedlaethol i gaffael cerbydau gweithredol. Mae'r rhaglen adnewyddu gyfredol ar y trywydd iawn i wario'r gyllideb yn llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r Heddlu'n parhau i fynd ar drywydd cyfleoedd i gydweithio ac mae'n ymgysylltu'n llawn â gwaith NPCC mewn perthynas ag effeithlonrwydd y fflyd a chynaliadwyedd ac mae newydd dderbyn 11 o gerbydau trydan; bydd 8 ohonynt yn cael eu defnyddio gan NPT a chaiff 3 ohonynt yn cael eu rhoi yn y fflyd a gaiff ei rhannu. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n genedlaethol i lunio manyleb gofynion a fydd yn ceisio sicrhau'r enillion effeithlonrwydd

mwyaf posibl o ran maint y broses o gaffael cerbydau trydan ar ôl i'r contract presennol ddod i ben.

## 4.7 Technoleg Gwybodaeth

4.7.1 Mae gan yr Heddlu Strategaeth TGCh gyfredol sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2018 hyd at 2024, ac mae'n nodi amcanion trawsnewid digidol uchelgeisiol yr Heddlu a'r gwaith hanfodol o uwchraddio seilwaith TGCh sydd ei angen i gyflwyno llwyfan cadarn, gwydn a gweithredol gyda mwy o allu i gefnogi anghenion yr Heddlu dros y blynyddoedd nesaf.

4.7.2 Mae'r blaen-strategaeth gyfalaf yn ystyried nifer o brosiectau TG strategol lleol a hefyd nifer o brosiectau ail-gaffael sy'n cynnwys technolegau a datrysiadau TG sydd wedi cyrraedd diwedd eu contract neu ddiwedd oes offer hanfodol. Y prosiectau cyfalaf TG allweddol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y cyfnod 2021/22 yw:

- Mae'r gwaith o weithredu System Rheoli Cofnodion (RMS) Niche wedi dechrau ac mae cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes megis:-
    - Mae’r broses o gofnodi'r prosesau presennol wedi'i gwblhau – rydym bellach yn symud i gofnodi'r prosesau ar gyfer y dyfodol yn ystod 2021.
    - Gweithgareddau ansawdd / dad-ddyblygu data
    - Diffinio’r fanyleb Trosiad Cofnod Cefn a Phontio
    - Mae gwaith cynllunio ar y gweill gyda rhanbarth Arfordir y Gorllewin i gytuno pryd yn eu map ffordd y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cael slot ar gyfer mynd yn fyw. Cytunir ar hyn yn gynnar yn 2021. Mae nifer o ragofynion y mae'n rhaid i ranbarth Arfordir y Gorllewin eu cwblhau cyn i Heddlu Dyfed-Powys ymuno.

- Bydd caffael datrysiad newydd i'r RMS yn arwain nawr at yr angen i ailintegreiddio / ailgynllunio'r datrysiad symudol presennol i weithio gyda’r darparwr System Rheoli Cofnodion newydd. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Heddlu Glannau Mersi sydd hefyd yn ddefnyddwyr Pronto i weld a all Heddlu Dyfed-Powys ddefnyddio fersiwn Glannau Mersi o Pronto.

- Mae gwaith wedi'i wneud fel rhan o raglen y Comisiynydd i ailfuddsoddi mewn darpariaeth teledu cylch cyfyng ar draws yr Heddlu, gyda chamau 1 i 3 wedi'u cwblhau. Mae'r broses gyflwyno ar fin dod i ben, a disgwylir i'r trefi sy'n weddill yng ngham 4 gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2021.

- Oherwydd oedi pellach wrth gyflwyno’r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (RhGB), mae'n hanfodol bod yr Heddlu’n newid ei hen offer trawsyrru (Airwave) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth i swyddogion rheng

flaen. Daeth y broses o gaffael dyfeisiau i ben ym mis Rhagfyr 2019 a chyflwynwyd y rhain ym mis Mawrth/Ebrill 2020. Mae rhaglen dreigl o amnewidiadau wedi'i chynnal yn ystod 2020/21 gyda dim ond nifer fach ar ôl i'w disodli yn y Flwyddyn Newydd.

- Mae prosiect ar y gweill i edrych ar y farchnad er mwyn caffael ICCS / system deleffoni 999/101 newydd sy'n gadarn ar gyfer y dyfodol, rhoddir ystyriaeth i'r potensial ar gyfer storio cwmwl, cymorth i RhGB, cymorth ar gyfer sianeli digidol modern.

- Mae'r contract wedi cael ei ymestyn gyda'r darparwr datrysiad Telemateg presennol a daw i ben ddiwedd 2021, ac mae angen caffael datrysiad newydd yn ystod 2021 i ganiatáu amser ar gyfer pontio os na chaiff y dechnoleg bresennol sydd mewn ceir ei chefnogi. Mae'r datrysiad presennol wedi sicrhau arbedion sylweddol o ran tanwydd, gwasanaethu a theiars, ac wedi caniatáu i'r fflyd gael ei rheoli gan sicrhau bod gan yr heddlu'r nifer gorau posibl o gerbydau.

- Oherwydd pandemig Covid-19 bu'n rhaid i'r heddlu newid ei arferion gwaith dros nos gyda chymaint o staff bellach yn gweithio gartref - mae dysgu o hyn wedi bod yn fuddiol iawn fel mewnbwn i'r prosiect Gweithio Ystwyth – y nod ar hyn o bryd yw parhau gyda lefel uchel o weithio gartref ar ôl Covid-19. Mae hyn wedi golygu cynnydd sylweddol yn nifer y gliniaduron sydd eu hangen ar weithwyr cartref, a gwelliannau mewn technoleg / seilwaith i ddarparu ar gyfer y cynnydd. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys darpariaeth i gynyddu nifer y gliniaduron sy'n cymryd lle cyfrifiaduron bwrdd gwaith, ac o fis Ebrill 2020 bydd yn ofynnol i TGCh gyflwyno'r dyfeisiau newydd ar sail barhaus.

- Mae'r Heddlu hefyd wedi ehangu ei allu mewn perthynas â systemau sefydlog a symudol Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (ANPR) gan ganolbwyntio ar rannau mwy gwledig o ardal yr Heddlu. Gwnaed buddsoddiad sylweddol hefyd mewn perthynas â galluoedd Seiber a Throseddu Digidol mewn perthynas â seilwaith TGCh a chaiff ei ddatblygu ymhellach yn 2021 drwy gydweithio rhwng TGCh a'r Uned Troseddau Digidol.

4.7.3 Mae'r blaen-strategaeth gyfalaf yn cymryd i ystyriaeth raglenni cenedlaethol o waith sy'n cael eu datblygu gan yr NPCC a'r Swyddfa Gartref. Mae nifer o gynlluniau'n cael eu datblygu'n genedlaethol, gan gynnwys y canlynol:

- Rhaglen Cronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol (NLEDP) a fydd yn disodli Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (CCH) a Chronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu (CDdGH), gyda datrysiad modern ar gyfer

plismona, mae'n profi llithriant ar hyn o bryd – ac mae'n debygol y caiff y rhaglen ei hailosod ar ddechrau 2021.

- Mae Cam A yr NLEDP ar y trywydd iawn i'w gyflawni'n gynnar yn 2021, sef cyflwyno delweddau Gyrwyr y DVLA i derfynellau data symudol swyddogion.

- Cyswllt Cyhoeddus Digidol – aeth cam 1 Cartref Ar-lein Sengl yn fyw yn yr heddlu ym mhedwerydd Chwarter 2020, gyda darpariaeth bellach yn cael ei chyflwyno yn 2021

- Gwasanaeth Cenedlaethol Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (NAS).

- Mae'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol yn cyflawni tri maes gwahanol:-
    - Mae'r heddlu wrthi'n cyflwyno offer cynhyrchiant Microsoft Office 365, a ddarperir drwy Gwmwl Microsoft yn seiliedig ar gynllun a thempled datrysiad glasbrint a sicrhawyd yn genedlaethol. Mae'r heddlu mewn cyfnod Peilot Technegol a bydd yn symud i'r Peilot Busnes yn y Flwyddyn Newydd.
    - IAM – Rheoli Hunaniaeth a Mynediad.
    - NMC – Mae'r Ganolfan Fonitro Genedlaethol, sy'n darparu gallu gweithrediadau diogelwch cenedlaethol i ymateb i fygythiadau seiber, wedi'i chyflwyno yn yr heddlu ac mae'r gwaith o fonitro gweinyddion cwmwl ac ar safleoedd wedi dechrau.

- Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys i gymryd lle'r system radio Airwave presennol.

- Biometreg y Swyddfa Gartref.

- Mae Rhwydwaith Cymunedol Gorfodi'r Gyfraith yn cael ei gyflwyno yn 2021.

4.6.4 Mae'r heddlu wedi sefydlu Grŵp Technoleg Newydd a Thrawsnewid i archwilio a manteisio ar fuddion opsiynau technoleg mwy arloesol fel deallusrwydd artiffisial, adnabod wynebau, technoleg realiti estynedig ac awtomeiddio â phrosesau robotig (RPA). Mae Grŵp Cymru Gyfan yn cael ei sefydlu yn gynnar yn 2021 i edrych ar yr RPA ar draws heddluoedd Cymru gyda'r nod o fod o fudd i bob heddlu wrth weithredu prosesau cyffredin, ac adeiladu canolfan ragoriaeth ledled Cymru.

## 5 Gofynion Cyfalaf ac Adnoddau

5.1 Bu gostyngiad sylweddol yn y cyllid cyfalaf craidd a ddyrannwyd gan y Swyddfa Gartref dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2021/22, bydd cyfanswm grant cyfalaf o £85k ar gael i'r Comisiynydd ei ddefnyddio i ategu'r rhaglen gyfalaf. Yn ogystal â hynny, bydd cyllid canolog ar gael i ariannu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn rhannol, er y rhagwelir bellach y bydd angen ariannu £12.3m o gostau'r rhaglen hon yn y dyfodol dros y deng mlynedd nesaf. Mae pryderon ynghylch oedi a chynnydd mewn costau yn y prosiect cenedlaethol hwn wedi bod yn destun llawer o ddeialog rhwng APCC, NPCC a'r Swyddfa Gartref ac mae'r rhain yn debygol o barhau yn ystod 2021/22.

5.2 Fel rhan o'i drefniadau integredig ar gyfer gwasanaethau a chynllunio ariannol, mae'r Comisiynydd yn amcangyfrif lefel yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd dilynol er mwyn llunio blaenraglen gyfalaf.

5.3 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi blaenoriaethu buddsoddiad yn y rhaglen gyfalaf tuag at flaenoriaethau strategol, gwariant na ellir ei osgoi ac at ardaloedd sy'n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol a rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 i 2025/26 sef cyfanswm o £86.803m.

5.4 Er mwyn bodloni gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lliniaru'r gostyngiadau mewn cyllid grant cyfalaf, mae'r cynllun ariannol tymor canolig a'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys cynyddu cyfraniadau refeniw tuag at gyfalaf o 2020/21 a hefyd gofynion benthyca allanol i gefnogi datblygiad Dalfa Sir Gaerfyrddin, cyfleuster plismona Aberhonddu, cyfleuster hyfforddi newydd y Gyd-uned Arfau Saethu ac elfennau eraill o fuddsoddiad hanfodol.

5.5 Defnyddir y lefel a broffilir o fuddsoddi cyfalaf ac adnoddau allanol i asesu'r angen am fenthyca tymor byr a thymor hir. Mae'r strategaeth hefyd yn dylanwadu ar yr ystyriaethau y mae'r Comisiynydd yn eu gwneud yn flynyddol wrth osod lefelau a dangosyddion benthyca darbodus, cynaliadwy a fforddiadwy.

5.6 Gall Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yr Heddlu, bennu eu lefelau benthyca eu hunain ar sail eu hanghenion cyfalaf a'u gallu i dalu am y benthyciad. Caiff y lefelau eu pennu drwy ddefnyddio'r dangosyddion a'r ffactorau a nodir yn y Cod Materion Ariannol. Ni chefnogir y costau benthyca gan y Llywodraeth felly mae angen i Heddlu Dyfed-Powys sicrhau ei fod yn gallu ariannu'r costau ad-dalu. Mae polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yr awdurdod yn nodi dull darbodus o ymdrin â'r swm a neilltuir ar gyfer ad-dalu dyledion. Nodir y rhain ar wahân o dan y Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n cael ei hystyried a'i chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

5.7 Yn ogystal â'u rhaglen gyfalaf eu hunain, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithio gyda phartneriaid a'r Swyddfa Gartref i sicrhau adnoddau cyfalaf a refeniw ychwanegol ar gyfer amcanion partneriaeth a thrawsnewidiol pellach. Defnyddir prosesau cydategol i ymdrin â'r rhain. Nid yw'r adnoddau a ysgogwyd wedi'u cynnwys yn y rhaglen gyfalaf oni bai eu bod yn rhan o brosiect uniongyrchol a arweinir gan Heddlu Dyfed-Powys. Bydd cynigion y gronfa arloesi a thrawsnewid hefyd yn cael eu hystyried i gryfhau rhagor o brosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

## 6 Trefniadau Llywodraethu

### 6.1 Nodi a Blaenoriaethu Prosiectau Cyfalaf

6.1.1 Fel yr amlinellwyd, mae'r rhaglen gyfalaf wedi'i blaenoriaethu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n arfarnu'r gofynion yn erbyn blaenoriaethau strategol. Mae'r prosesau'n cydnabod graddfa a chymhlethdod amrywiol prosiectau cyfalaf ac yn ymgorffori dull cymesur o arfarnu, monitro a gwerthuso prosiectau cyfalaf.

6.1.2 Mae'r Comisiynydd yn rheoli ei strategaeth gyfalaf yn weithredol drwy'r Bwrdd Plismona, sy'n goruchwylio'r prosiectau newid mawr ar gyfer cyfalaf a refeniw. Yn ogystal â hyn, bydd Bwrdd y Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a Dyfodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ac yn monitro risgiau rhaglenni penodol. Caiff gwaith gweithredu manwl ei neilltuo i unigolion allweddol a'i oruchwylio gan y Grwpiau Ystadau Strategol, TGCh Strategol a Defnyddwyr Cerbydau Strategol neu ar Fyrddau Prosiect penodol gan gynnwys y Grŵp Adeiladu Cyfalaf a sefydlir i oruchwylio a llywodraethu cynlluniau cyfalaf mawr.

6.1.3 Rheolir prosiectau mawr yn unol ag arfer gorau rheoli prosiectau o ran cydymffurfio â methodoleg prosiect PRINCE 2. Sefydlwyd cysylltiadau rhwng rheoli buddion ar brosiectau allweddol, cynllunio effeithlonrwydd a gwybodaeth am bennu costau.

6.1.4 Mae ffurflen cynnig prosiectau newydd wedi'i datblygu i gasglu ystyriaethau, risgiau, costau, amserlenni a manteision busnes prosiectau mewn modd cyson ar draws y sefydliad. Bydd yr holl gynigion prosiect yn cael eu hystyried gan Grŵp Newid a Thrawsnewid.

6.1.5 Caiff cynigion prosiectau Cyfalaf eu hystyried a'u blaenoriaethu gan gyfeirio at achos busnes ac fe'u hystyrir yn erbyn y ffactorau canlynol:

- Pwysigrwydd strategol - sut mae'r cynnig yn cefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ehangach;
- Y canlyniadau a gaiff eu cyflawni a'r manteision a'r effeithiau penodol;
- Cynaliadwyedd – a yw'r costau'n realistig a lefel y goblygiadau o ran refeniw yn y dyfodol;
- Pa opsiynau sydd wedi cael eu hystyried;
- Pa ffynonellau cyllid eraill a allai fod ar gael;
- I ba raddau y mae'r cynigion yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth.

6.1.6 Yna, cyflawnir y broses o flaenoriaethu, yn seiliedig ar bedwar categori, a restrir isod yn nhrefn blaenoriaeth:

- Anochel (atebolrwydd statudol, cytundebol neu drofaus);
- Blaenoriaeth Gorfforaethol (yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Nodau Corfforaethol a blaenoriaethau ar gyfer gwella);
- Blaenoriaeth Gwasanaeth (cyflawni blaenoriaethau'r gwasanaeth fel y nodwyd);
- Arall (ad-dalu, buddsoddi i arbed, trosoli cyllid allanol ac ati).

6.1.7 Dim ond os caiff adnoddau ychwanegol neu danwariant ar y rhaglen gyfalaf gymeradwy eu nodi yn ystod y flwyddyn y gellir ystyried prosiectau blaenoriaeth is na ellir eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael.

6.2 **Gweithredu a Monitro Prosiectau Cyfalaf**

6.2.1 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau cyfalaf fel rhan o adroddiadau ariannol i'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol, y Bwrdd Plismona, Bwrdd Gweithredol yr Heddlu ac yn chwarterol i'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona. Mae prosiectau ac adroddiadau penodol hefyd yn cael eu hystyried gan y grwpiau llywodraethu perthnasol sy'n eistedd islaw'r Byrddau hyn h.y. Grŵp Ystadau Strategol, Grŵp Adeiladu Cyfalaf, Grŵp TG Strategol a Grŵp Defnyddwyr Fflyd Strategol, gyda risgiau ac adroddiadau amlygu'n cael eu trosglwyddo drwy'r strwythur llywodraethu fel y bo'n briodol.

6.2.2 Yn dilyn cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf, pennir rheolwr prosiect a chynrychiolydd defnyddwyr ar gyfer pob prosiect cyfalaf. Mae'r rheolwr prosiect yn gyfrifol am reoli'r gwaith o weithredu'r prosiect a chyflawni ei amcanion. Caiff swyddog ei nodi fel noddwr y prosiect ar gyfer pob prosiect o fewn y rhaglen gyfalaf.

6.2.3 Mae'r cynrychiolydd defnyddwyr yn gyfrifol am gynrychioli defnyddwyr a chwsmeriaid ac am ddiffinio'r gofynion ansawdd. Mae'r ddwy rôl yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol methodoleg rheoli prosiect PRINCE 2. Mae'r rheolwr prosiect yn llunio cynllun prosiect i'w gymeradwyo. Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynllun y prosiect wrth Fwrdd Rheoli'r Rhaglen a Noddwr y Prosiect.

6.3 **Gwerthuso Prosiectau Cyfalaf a Gwblhawyd**

6.3.1 Unwaith y bydd y prosiectau wedi'u cwblhau, mae rheolwr y prosiect yn cwblhau adolygiad ôl-weithredu ar gyfer y prosiectau cyfalaf mawr. Mae hyn yn cynnwys nodi ar ba gam y bydd yr adolygiad ôl-brosiect yn cael ei gynnal. Adolygir yr adroddiad ôl-brosiect gan y Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol ac fe'i cyflwynir i'r Bwrdd Plismona os oes angen.

6.3.2 I werthuso gwir lwyddiant a chanlyniadau prosiectau cyfalaf, cynhelir adolygiad ôl-brosiect hefyd. Mae dyfnder yr adolygiad hwn yn gymesur â graddfa'r prosiect a'r buddion a nodwyd yn y Dogfennau Cychwyn Prosiect cychwynnol.

6.3.3 I bob pwrpas, mae'r adolygiad hwn yn gwirio perfformiad yn erbyn y cynnig gwreiddiol. Mae'n canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd, i ba raddau y mae'r buddion a honnwyd yn cael eu gwireddu, y costau gwirioneddol, gan gynnwys y refeniw a'r cyfalaf, ac effaith cyllid a gwaith partneriaeth arall. Gall Dyfed-Powys wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddysgu gwersi a gwneud unrhyw welliannau a nodwyd wrth weithredu'r prosiect.

6.3.4 Caiff llwyddiant parhaus prosiectau ei fonitro drwy nifer o fecanweithiau megis adborth gan swyddogion, ymgynghori â'r cyhoedd ac adborth gan gwsmeriaid.

## 7 Gwaredu Asedau

7.1 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod yr angen i waredu asedau sydd dros ben neu'n anaddas er mwyn helpu i gyflawni eu nodau corfforaethol a chyflawni eu rhaglen gyfalaf a chynhwysir y broses fanwl ar gyfer gwaredu asedau yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Gwaredwyd nifer o eiddo eisoes a gwneir cynlluniau i farchnata eiddo pellach ar yr un pryd â chyflawni'r Strategaeth Ystadau.

## 8 Goblygiadau Refeniw Buddsoddi Cyfalaf

8.1 Rhoddwyd sylw arbennig i gostau refeniw parhaus yn deillio o brosiectau cyfalaf o fewn y broses arfarnu. Mae pob cais cyfalaf posibl yn nodi costau refeniw parhaus ac yn ystyried sut y gellir eu bodloni. Caiff costau refeniw sy'n deillio o gynlluniau cyfalaf gan gynnwys unrhyw ofynion benthyca darbodus eu cynnwys yn y cynllun ariannol tymor canolig.

## 9 Casgliad

9.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn ystyried pob agwedd ar reoli cyfalaf, yn nodi'r dulliau ar gyfer asesu prosiectau ac asedau cyfalaf ac yn amlinellu'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2025/26 gyda rhagolygon ehangach hyd at 2029/30. Dylid darllen y strategaeth ar y cyd â'r Strategaethau Ystadau a TGCh, y Cynllun Amnewid Cerbydau blynyddol a Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n ymdrin â gofynion Cod Materion Ariannol CIPFA.

## Atodiad I – Rhaglen Gyfalaf 2020/21 i 2029/30

| Capital Programme | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k | £000k |
| Land and Buildings | 3,739 | 8,612 | 23,203 | 11,206 | 3,175 | 3,367 | 1,538 | 1,542 | 1,536 | 2,541 | 60,457 |
| Vehicles | 1,201 | 1,297 | 1,505 | 1,121 | 1,320 | 1,225 | 1,300 | 1,325 | 1,350 | 1,311 | 12,955 |
| IT and Other Strategic Spending | 3,221 | 5,076 | 6,398 | 4,603 | 3,233 | 3,304 | 5,282 | 5,459 | 3,314 | 5,140 | 45,028 |
| **Capital Expenditure** | 8,160 | 14,985 | 31,106 | 16,929 | 7,728 | 7,895 | 8,120 | 8,326 | 6,200 | 8,991 | 118,440 |
| Grant Funding | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -85 | -851 |
| Borrowing | -3,296 | -11,036 | -28,213 | -13,940 | -4,238 | -4,156 | -4,380 | -4,587 | -2,460 | -5,252 | -81,558 |
| Capital Grants | -426 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -426 |
| Contribution from Revenue Account | -850 | -1,852 | -2,604 | -2,604 | -3,104 | -3,604 | -3,604 | -3,604 | -3,604 | -3,604 | -29,036 |
| Capital Receipts | 0 | -210 | -50 | -300 | -300 | -50 | -50 | -50 | -50 | -50 | -1,110 |
| Sustainability Reserve | -170 | -170 | -154 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -494 |
| Capital Reserve | -3,333 | -1,631 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -4,964 |
| **Capital Financing** | -8,160 | -14,985 | -31,106 | -16,929 | -7,728 | -7,895 | -8,120 | -8,326 | -6,200 | -8,991 | -118,440 |

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
## 5ED CHWEFROR 2021

| COST PLISMONA GWERSYLL CEISWYR LLOCHES YM MHENALUN |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br><br>Cymeradwyo anfon llythyrau at weinidogion ac ASau perthnasol y llywodraeth |
| **Y Rhesymau:**<br><br>Mae'r gost o blismona'r gwersyll yn gosod baich ariannol sylweddol ar Heddlu Dyfed-Powys na fydd, fel y mae pethau ar hyn o bryd, yn cael ei ad-dalu'n llawn. |

| Awdur yr Adroddiad: | Swyddi: | Cyfeiriadau e-bost: |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones | Cadeirydd y Panel | Alun.Lloyd-Jones@ceredigion.gov.uk |

# DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 5TH FEBRUARY 2021

## COST OF POLICING ASYLUM SEEKERS CAMP AT PENALLY

The decision by the Home Office to establish an asylum seekers camp at Penally, Pembrokeshire has placed a significant operational and financial burden on Dyfed-Powys Police.

To the end of December 2020 policing the camp has involved 13,919 hours of officer time, of which 9,681 hours are overtime (at a cost of £297,000).

Under the Home Office rules relating to police funding, special grant funding can be drawn down in respect of these pressures, but only once the total cost exceeds 1% of the net revenue expenditure for the year. This means that normally it would not be possible to draw down any additional funding until a threshold of £1.129million is exceeded.

However, Government ministers do have the power to allow the recovery of costs below the 1% threshold.

Following discussions between the Panel chair and the Police and Crime Commissioner, the Panel is requested to support the sending of letters to the Home Secretary, Policing Minister and all MPs in the force area (one of whom is the Secretary of State for Wales) calling upon the Home Office to fully reimburse Dyfed-Powys Police for all costs incurred in policing Penally camp, even if below the usual 1% special grant threshold.

Draft letters are attached for the approval of panel members.

| DETAILED REPORT ATTACHED? | YES |
|---|---|

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# IMPLICATIONS

| **I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**<br><br>**Signed:** *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| **Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**<br>**List of Background Papers used in the preparation of this report:**<br><br>**THESE ARE DETAILED BELOW** | | |
|---|---|---|
| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
| **Host Authority File** | **PACP019** | **County Hall Carmarthen** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL**

**Cyng. Alun Lloyd-Jones Cadeirydd**
**Panel Heddlu A Throseddu Dyfed-Powys**
D/O Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gar, SA31 1JP.
**Cllr. Alun Lloyd-Jones Chair**
**Dyfed Powys Police and Crime Panel**
C/O Chief Executive's Department
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 1JP

DPPandCrimepanel@carmarthenshire.gov.uk

Dyddiad /Date:

**(Draft letter to Home Secretary, Secretary of State for Wales and Policing Minister)**

Dear XX,

Re: Policing Costs relating to Operation Asper- Penally Asylum seekers centre, Pembrokeshire

I write to you on behalf of the members of the Dyfed-Powys Police and Crime Panel

In preparation for the review of the proposed police precept panel members have received a briefing from the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys and his Chief Financial Officer, during which the costs associated with the policing of the above centre were highlighted as a significant ongoing financial liability.

Panel members were extremely concerned that to date no financial support has been forthcoming from the Home Office in respect of these costs, even though the decision to establish the centre at that location was taken by the Home Office itself.

The policing of the centre has taken up a large amount of officer time and to meet these pressures officers have had to be diverted away from other duties, leaving local communities at risk.

This operation has placed a significant financial burden on the force which we understand, under current funding rules it will not be able to recover until such time as the costs exceed £1.129 million.

I and my colleagues would therefore ask that the government uses its discretion to reimburse Dyfed-Powys Police in full for the cost of policing the asylum seekers centre at Penally, even if those costs do not exceed the £1.29 million threshold

Yours sincerely

Alun Lloyd-Jones
(Chairman – Dyfed-Powys Police and Crime Panel)


www.panelheddluathroseddudp.org.uk • www.dppoliceandcrimepanel.org.uk

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL

**Cyng. Alun Lloyd-Jones Cadeirydd**
**Panel Heddlu A Throseddu Dyfed-Powys**
D/O Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gar, SA31 1JP.
**Cllr. Alun Lloyd-Jones Chair**
**Dyfed Powys Police and Crime Panel**
C/O Chief Executive's Department
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 1JP

DPPandCrimepanel@carmarthenshire.gov.uk

Dyddiad /Date:

**(Draft letter to all MPs for constituencies in the Dyfed-Powys Force Area)**

Dear XX,

Re: Policing Costs relating to Operation Asper- Penally Asylum seekers centre, Pembrokeshire

I write to you on behalf of the members of the Dyfed-Powys Police and Crime Panel

In preparation for the review of the proposed police precept panel members have received a briefing from the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys and his Chief Financial Officer, during which the costs associated with the policing of the above centre were highlighted as a significant ongoing financial liability.

Panel members were extremely concerned that to date no financial support has been forthcoming from the Home Office in respect of these costs, even though the decision to establish the centre at that location was taken by the Home Office itself.

The policing of the centre has taken up a large amount of officer time and to meet these pressures officers have had to be diverted away from other duties, leaving local communities at risk.

This operation has placed a significant financial burden on the force which, under current funding rules it will not be able to recover until such time as the costs exceed £1.129 million.

As members of parliament for the Dyfed-Powys force area, you and your constituents have been directly affected by the decision to establish the centre at Penally and its impact on policing in the Dyfed-Powys force area.  I and my colleagues would therefore ask that you use your influence with your political colleagues in Westminster, particularly the Home Secretary and Policing Minister to secure the reimbursement Dyfed-Powys Police in full for the cost of policing the asylum seekers centre at Penally, even if those costs do not exceed the £1.29 million threshold

Yours sincerely

Alun Lloyd-Jones
(Chairman – Dyfed-Powys Police and Crime Panel)

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol